



**Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
(Y Cofnod Swyddogol)**

**The National Assembly for Wales  
(The Official Record)**

**Dydd Iau 13 Rhagfyr 2001**

**Thursday 13 December 2001**

**Cynnwys**  
**Contents**

- |     |  |
|-----|--|
| 3   | Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau<br><i>Questions on Local Government to the Minister for Finance, Local Government and Communities</i>               |
| 14  | Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd<br><i>Questions to the Minister for Environment</i>  |
| 25  | Datganiad ar Fuddsoddi drwy Bartneriaethau yng Nghymru<br><i>Statement on Investment through Partnerships in Wales</i>   |
| 40  | Pwyntiau o Drefn<br><i>Points of Order</i>   |
| 44  | Cymeradwyo Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001<br><i>Approval of the Countryside Access (Local Access Forums) (Wales) Regulations 2001</i>                             |
| 44  | Cymeradwyo Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001<br><i>Approval of the Countryside Access (Draft Maps) (Wales) Regulations 2001</i>  |
| 56  | Cymeradwyo Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu ar y Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2001<br><i>Approval of the Environmental Protection (Restriction on use of Leadshot) (Wales) Regulations 2001</i> |
| 63  | Y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol<br><i>The National Economic Development Strategy</i>  |
| 103 | Dadl Fer: Pwy sy'n Llywodraethu Cymru?<br><i>Short Debate: Who is Governing Wales?</i>   |

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy yn ddi yn y Siambwr.  
Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad o'r areithiau hynny.

*In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation of those speeches has been included*

*Cyfarfu'r Cynulliad am 9.05 a.m. gyda'r Llywydd yn y Gadair.  
The Assembly met at 9.05 a.m. with the Presiding Officer in the Chair.*

**Cwestiynau ar Lywodraeth Leol i'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau  
Questions on Local Government to the Minister for Finance, Local Government and Communities**

**Y Llywydd:** Trosglwyddwyd cwestiwn 1 (OAQ14674) ar gyfer ateb ysgrifenedig.

**The Presiding Officer:** Question 1 (OAQ14674) has been transferred for written answer.

**Ymgynghori â'r Cyhoedd  
Public Consultation**

**Q2 Janet Davies:** Does the Minister monitor the effectiveness of local authorities in fulfilling their role of consulting with the public before taking major decisions? (OAQ14664)

**The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart):** Local authorities consult with their electorates on many issues, although not all consultations are undertaken under the Assembly's direction.

**Janet Davies:** The Government of Wales's ability to effectively ensure that local government's superior hitting power does not mean that it has a greater ability to put the case for its favoured method of local government restructuring than other groups in the local authority areas, is crucial. What steps have you taken to ensure that the Government of Wales can demonstrate accountability and propriety, if the new structure proves to be lacking in those qualities?

**Edwina Hart:** I hope that the consultation process undertaken by all Welsh local authorities will be of the highest standard. In response to a question from William Graham on matters raised in Committee, I am reviewing all the consultations undertaken by Welsh local government and I will present a report on that to the Local Government and Housing Committee. If I have any concerns, they will appear in that report.

**C2 Janet Davies:** A yw'r Gweinidog yn monitro pa mor effeithiol y mae awdurdodau lleol yn cyflawni eu rôl o ymgynghori â'r cyhoedd cyn gwneud penderfyniadau mawr? (OAQ14664)

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau (Edwina Hart):** Mae awdurdodau lleol yn ymgynghori â'u hetholwyr ar lawer o faterion, ond ni chynhelir pob ymgynghoriad o dan gyfarwyddyd y Cynulliad.

**Janet Davies:** Mae'n hanfodol fod gan Llywodraeth Cymru y gallu i sicrhau i bob diben nad yw dylanwad di-ail llywodraeth leol yn golygu ei bod yn haws iddi roi'r ddadl o blaid ei dewis ddull o ailstrwythuro llywodraeth leol na grwpiau eraill yn ardaloedd awdurdodau lleol. Pa gamau a gymerwyd gennych i sicrhau y gall Llywodraeth Cymru arddangos atebolrwydd a phriodoldeb, os nad yw'r strwythur newydd yn meddu ar y nodweddion hyn?

**Edwina Hart:** Gobeithiaf y bydd y broses ymgynghori a gynhelir gan bob awdurdod lleol yng Nghymru o'r safon uchaf. Mewn ymateb i gwestiwn gan William Graham ar faterion a godwyd yn y Pwyllgor, yr wyf yn adolygu'r holl ymgynghoriadau a gynhelir gan llywodraeth leol Cymru a byddaf yn cyflwyno adroddiad ar hynny i'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Os bydd gennyl unrhyw bryderon, byddant yn ymddangos yn yr adroddiad hwnnw.

**Glyn Davies:** Do you think that local governments should be required to contact all people in their areas before they award themselves massive wage increases?

**Edwina Hart:** I am not certain to what you are alluding in terms of wage increases. There is some discussion currently about councillors' allowances, and I hope to be issuing guidance on that issue in the new year.

**Tom Middlehurst:** Do you agree that local government is well able to deal with the issues confronting its communities? It has a long history; it survived the worst effects of Thatcherism, it maintained a base in our communities and sustained them through those dark days of severe cuts in public expenditure. Is this not another example of the opposition parties' tendency to want to extend command and control here over the democratically elected authorities of Wales?

**Edwina Hart:** Yes.

**Rosemary Butler:** Following on from Glyn Davies's oblique statement, do you not agree that some local authorities in Wales have excellent means of communicating with their constituents? Consider what is happening in Newport, with its neighbourhood committees, citizens panels and a whole range of other matters; what the authority is doing is exceptional.

**Edwina Hart:** I am aware of the exemplary arrangements in Newport for consultation with the local public. It is important that local authorities learn best practice from each other in the matter of public consultation.

**Glyn Davies:** Point of order.

**The Presiding Officer:** Order. I will take points of order arising from questions to Ministers after questions.

**Glyn Davies:** A gredwch y dylai fod yn ofynnol i lywodraethau lleol gysylltu â'r holl bobl yn eu hardaloedd cyn iddynt ddyfarnu cynnydd sylweddol yn eu cyflogau eu hunain.

**Edwina Hart:** Nid wyf yn siŵr beth ydych yn cyfeirio ato o ran cynnydd mewn cyflogau. Mae trafodaethau ar lwfansau cynghorwyr yn mynd rhagddynt, a gobeithiaf y byddaf yn rhoi canllawiau ar y mater hwnnw yn y flwyddyn newydd.

**Tom Middlehurst:** A gytunwch fod llywodraeth leol yn gymwys iawn i ymdrin â'r materion sy'n wynebu cymunedau? Mae ganddo hanes hir; goroesodd effeithiau gwaethaf Thatcheriaeth, cadwodd sylfaen yn ein cymunedau a'u cynnal drwy'r cyfnodau o doriadau difrifol mewn gwariant cyhoeddus. Onid yw hyn yn enghraifft arall o duedd y gwrthbleidiau i chwenychu am ymestyn rheolaeth y Cynulliad dros awdurdodau Cymru a etholwyd yn ddemocrataidd?

**Edwina Hart:** Ydyw.

**Rosemary Butler:** Yn dilyn lled-sylw Glyn Davies, oni chytunwch fod gan rai awdurdodau lleol yng Nghymru ffordd ragorol o gyfathrebu gyda'u hetholwyr? Ystyriwch yr hyn sy'n digwydd yng Nghasnewydd, gyda'i bwylgorau cymdogaethol, paneli dinasyddion ac ystod eang o faterion eraill; mae'r hyn y mae'r awdurdod yn ei wneud yn eithriadol.

**Edwina Hart:** Yr wyf yn ymwybodol o'r trefniadau rhagorol yng Nghasnewydd i ymgynghori â'r cyhoedd yn lleol. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn rhannu arfer gorau o ran ymgynghoriad cyhoeddus.

**Glyn Davies:** Pwynt o drefn.

**Y Llywydd:** Trefn. Derbyniaf bwyntiau o drefn sy'n codi o gwestiynau i Weinidogion ar ôl y cwestiynau.

### Yr Astudiaeth Gwmpasu The Scoping Study

**Q3 Mick Bates:** Will the Minister report on the progress of the scoping study on

**C3 Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt yr astudiaeth gwmpasu o

community councils? (OAQ14668)

**Edwina Hart:** The terms of the scoping study are currently being revised in line with the Local Government and Housing Committee's comments. We will soon put the contract for the study out for tender.

**Mick Bates:** Will you consider allocating extra financial resources to community councils to deliver some services locally?

**Edwina Hart:** This matter will arise from the scoping study when we see which community councils wish to undertake further functions. I sometimes receive requests from community councils along the lines that you outlined. It is a matter for them to reach some sort of agreement with the principal council in this respect, or there would have to be a transfer of resources. This will emerge from the scoping study when we see to what extent community councils want to undertake services. However, that must be with the agreement of the principal authority.

**Jonathan Morgan:** Community councils play a vital role; they are often the first point of contact for local people who want to become involved in decisions taken by authorities, such as planning matters. Does the Government at Westminster or here have any opportunities to increase the number of community councils in Wales to further that point of democracy and thus facilitate people's involvement in decisions?

**Edwina Hart:** When local communities decide that they would like a community council, I welcome that. We will assist in any way possible if communities want additional community councils. We must recognise that it is a matter for the communities to decide what representation they want.

gynghorau cymuned? (OAQ14668)

**Edwina Hart:** Mae cylch gorchwyl yr astudiaeth gwmpasu'n cael eu diwygio yn unol â sylwadau'r Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai. Byddwn yn gosod y contract ar gyfer yr astudiaeth ar dendr yn fuan.

**Mick Bates:** A ystyriwch ddyrannu adnoddau ariannol ychwanegol i gynghorau cymuned i ddarparu rhai gwasanaethau'n lleol?

**Edwina Hart:** Bydd y mater hwn yn codi o'r astudiaeth gwmpasu pan welwn pa gynghorau cymuned sy'n dymuno ymgymryd â rhagor o swyddogaethau. Weithiau daw ceisiadau i law gan gynghorau cymuned yn debyg i'r rhai a amlinellwyd gennych. Mater iddynt hwy yw dod i ryw fath o gytundeb gyda'r prif gyngor yn y cyswllt hwn, neu byddai angen trosglwyddo adnoddau. Daw hyn i'r amlwg yn yr astudiaeth gwmpasu pan fyddwn yn gweld i ba raddau y mae cynghorau cymuned am ymgymryd â gwasanaethau. Fodd bynnag, rhaid i'r prif awdurdod gytuno ar hynny.

**Jonathan Morgan:** Mae cynghorau cymuned yn chwarae'r rôl hanfodol; yn aml hwy yw'r pwnt cyswllt cyntaf i bobl leol sy'n dymuno cymryd rhan mewn penderfyniadau a wneir gan awdurdodau, megis materion cynllunio. A oes gan y Llywodraeth yn San Steffan neu yma unrhyw gyfleoedd i gynyddu nifer y cynghorau cymuned yng Nghymru i ehangu'r math hwnnw o ddemocratiaeth a thrwy hynny eu gwneud yn haws i bobl gymryd rhan mewn penderfyniadau?

**Edwina Hart:** Pan fydd cymunedau lleol yn penderfynu eu bod yn dymuno cael cyngor cymuned, croesawaf hynny. Byddwn yn rhoi pob cymorth posibl i gymunedau sy'n dymuno cael cynghorau cymuned ychwanegol. Rhaid inni gydnabod mai cymunedau sydd i benderfynu pa gynrychiolaeth a ddymunant.

### **Safonau Moesegol Llywodraeth Leol Cymru The Ethical Standards of Welsh Local Government**

**Q4 Richard Edwards:** What steps is the Minister taking to ensure that the public can

**C4 Richard Edwards:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i sicrhau y gall y

have confidence in the ethical standards of Welsh local government? (OAQ14689)

cyhoedd deimlo'n hyderus â safonau moesegol llywodraeth leol Cymru? (OAQ14689)

**Edwina Hart:** On 21 June, the Assembly approved the regulations that will put in place a new and robust ethical framework for local government in Wales. We will continue to work in partnership with local government, with the assistance of the independent local government ombudsman from the Commission for Local Administration in Wales, to ensure that this framework is properly implemented and understood.

**Edwina Hart:** Ar 21 Mehefin, cymeradwyodd y Cynulliad y rheoliadau a fydd yn sefydlu fframwaith moesegol newydd a chadarn ar gyfer llywodraeth leol yng Nghymru. Byddwn yn parhau i weithio mewn partneriaeth â llywodraeth leol, gyda chymorth yr ombwdsmon llywodraeth leol annibynnol o'r Comisiwn dros Weinyddu Lleol yng Nghymru, i sicrhau y caiff y fframwaith hwn ei weithredu a'i ddeall yn briodol.

**Richard Edwards:** I do not want to seem parochial, but, given the Stalinist disposition of a so-called independent-dominated council which shall remain nameless, does the Minister share my concern that should the local authority in question adopt the leader and cabinet option as its new political arrangement, as it fully intends to do, then, unless the scrutiny mechanism is sufficiently robust to withstand the independent group dicta—and I do not have any confidence that it is—the political ethos of the authority will sink even further?

**Richard Edwards:** Nid wyf am swnio'n blwyfol, ond, o ystyried natur Stalinaidd cyngor yr honnir iddo gael ei reoli'n annibynnol, na chaiff mo'i enwi, a yw'r Gweinidog yn rhannu fy mhryder y bydd ethos gwleidyddol yr awdurdod yn dirywio ymhellach os bydd yr awdurdod lleol dan sylw yn mabwysiadu'r opsiwn arweinydd a chabinet fel ei drefniant gwleidyddol newydd, yn ôl ei fwriad, oni bai bod y system graffu yn ddigon cadarn i wrthsefyll gorchmynion y grŵp annibynnol, ac nid wyf yn hyderus y bydd hynny'n digwydd?

**Edwina Hart:** It is important to recognise the important role of scrutiny within the legislative framework. It is essential that councillors involved in scrutiny are fully supported. Local government officers are responsible for ensuring that scrutiny functions can be undertaken properly. Over the next year, when this all comes into force, I will be minded to examine the effectiveness of the scrutiny undertaken in local government. It is essential that councillors have everything they need to assist them in their scrutiny role.

**Edwina Hart:** Mae'n bwysig nodi rôl bwysig y gwaith o graffu o fewn y fframwaith deddfwriaethol. Mae'n hanfodol y caiff cynghorwyr sy'n ymgymryd â gwaith craffu eu cefnogi'n llawn. Mae swyddogion llywodraeth leol yn gyfrifol am sicrhau y caiff swyddogaethau craffu eu cyflawni'n briodol. Dros y flwyddyn nesaf, pan ddaw hyn i gyd yn weithredol, byddaf yn ystyried archwilio effeithiolrwydd y gwaith craffu a wna llywodraeth leol. Mae'n hanfodol bod gan gynghorwyr bopeth sydd ei angen arnynt i'w cynorthwyo yn y gwaith o graffu.

**Janet Ryder:** The purpose of the ethical standard is to create public confidence in local government again. Do you also agree that we need to be confident that those bodies representing local government are independent and not dominated by one party? Are you concerned that a group like the Welsh Local Government Association seems to be becoming so identified with the Labour Party that it gives your party the advice:

**Janet Ryder:** Pwrpas y safon foesegol yw ailennyn hyder y cyhoedd mewn llywodraeth leol. A gytunwch hefyd fod angen inni fod yn hyderus bod y cyrff hynny sy'n cynrychioli llywodraeth leol yn annibynnol ac na chânt eu rheoli gan un blaidd? A ydych yn pryderu bod grŵp fel Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y uniaethu gymaint â'r Blaid Lafur, yn ôl pob golwg, fel ei fod yn rhoi'r cyngor hwn i'ch plaid:

'that you should seek to build into a protocol a mechanism to prevent pre-emptive policy strikes by Labour-elected representatives of one tier of government'

—that is, the Assembly—

—hynny yw, y Cynulliad—

'that undermines Labour representatives of another tier of government'

that is usually local government—

llywodraeth leol yw hynny fel arfer—

**The Presiding Officer:** Order. I do not favour quotations during questions. Supplementaries should be sharp and terse, as indeed should answers.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid wyf o blaid dyfyniadau yn ystod cwestiynau. Dylai cwestiynau atodol fod yn gynnill, fel yr atebion.

**Alun Cairns:** Will the Minister advise the Assembly on why the model is so different in England, where a standards board has been established? If a standards board is needed anywhere in the United Kingdom, it is probably most needed in Wales.

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddweud wrth y Cynulliad pam fod y model mor wahanol yn Lloegr, lle sefydlwyd bwrdd safonau? Os oes angen bwrdd safonau unrhyw le yn y Deyrnas Unedig, mae'n debyg mai yng Nghymru y mae ei angen fwyaf.

**Edwina Hart:** That remark was below the belt, when you think of the high quality of representation provided by councillors at a local level. Serving councillors in this Chamber would refute the suggestion that standards in Wales are terrible. We chose a Welsh solution in Wales, and that is what devolution is about.

**Edwina Hart:** Yr oedd y sylw hwnnw'n annheilwng, pan feddyliwch am ansawdd uchel y gynrychiolaeth a ddarperir gan gynghorwyr lleol. Byddai cynghorwyr sy'n gwasanaethu yn y Siambro hwn yn gwrrthbrofi'r awgrym fod safonau yng Nghymru yn warthus. Dewiswyd ateb Cymreig yng Nghymru. Dyna ddiben datganoli.

### **Effaith Datblygiadau Newydd ar Ariannu Llywodraeth Leol The Impact of New Developments on Local Government Funding**

**Q5 Pauline Jarman:** What discussions has the Minister had with her Cabinet colleagues regarding the impact of new developments on local government funding? (OAQ14662) [R]

**C5 Pauline Jarman:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda'i chyd-Aelodau yn y Cabinet am effaith datblygiadau newydd ar ariannu llywodraeth leol? (OAQ14662) [R]

**Edwina Hart:** I meet my Cabinet colleagues regularly and discuss a number of matters in relation to this.

**Edwina Hart:** Byddaf yn cwrdd â'm cyd-Aelodau yn y Cabinet yn rheolaidd ac yn trafod nifer o faterion mewn perthynas â hyn.

**Pauline Jarman:** Is the Minister aware that after it has adjusted for new burdens in social services, her widely-quoted 6.7 per cent increase in revenue funding for local government is misleading the public? The reality is that after appropriate allowances have been made for the introduction of initiatives such as concessionary travel and other unavoidable increases such as pay and inflation, and, in particular, ensuring our

**Pauline Jarman:** A yw'r Gweinidog yn ymwybodol, ar ôl addasu i ymdopi â beichiau newydd mewn gwasanaethau cymdeithasol, bod ei chynnydd o 6.7 y cant mewn arian refeniw i lywodraeth leol y bu cymaint o sôn amdano, yn camarwain y cyhoedd? Y gwir amdani yw ar ôl ystyried cynlluniau fel consesiynau teithio a chodiadau anochel eraill fel cyflog a chwyddiant, ac, yn arbennig, sicrhau y caiff ein gwasanaeth

education service is funded properly, most other local government services will struggle to achieve even a standstill budget in real terms next year.

addysg ei ariannu'n briodol, bydd y rhan fwyaf o wasanaethau llywodraeth leol eraill yn brwydro i sicrhau bod ganddynt o leiaf yr un gyllideb mewn termau real y flwyddyn nesaf â'u cyllideb eleni.

**Edwina Hart:** I do not accept your final sentence. There is room for real growth in the local government settlement. Representations on the other issues were made to me at the Consultative Forum on Finance. I take those representations into account and examine the overall local government settlement in the light of those comments.

**William Graham:** Have you received indication from the Westminster Government of any future adjustments to the Assembly's budget, due to levels of proposed council tax on non-domestic rate increases?

**Edwina Hart:** I am not aware of having received anything yet. However, I will check with my office and write to you if I have received anything.

**Edwina Hart:** Ni dderbyniaf eich brawddeg olaf. Mae lle i dwf gwirioneddol yn setliad llywodraeth leol. Cefais sylwadau ar y materion eraill yn y Fforwm Ymgynghorol ar Gyllid. Ystyriaf y sylwadau hynny ac archwiliaf setliad cyffredinol llywodraeth leol yng ngoleuni'r sylwadau hynny.

**William Graham:** A gawsoch arwydd gan Lywodraeth San Steffan o unrhyw addasiadau yn y dyfodol i gyllideb y Cynulliad, oherwydd cynnydd arfaethedig yn lefelau'r dreth gyngor ar gyfradd annomestig?

**Edwina Hart:** Nid wyf yn ymwybodol bod unrhyw beth wedi dod i law eto. Fodd bynnag, byddaf yn gofyn i'm swyddfa ac yn ysgrifennu atoch os byddaf wedi derbyn unrhyw beth.

9:15 a.m.

### **Modelau Llywodraethu Models of Governance**

**Q6 Jonathan Morgan:** Will the Minister make a statement on models of governance as outlined in the Local Government Act 2000? (OAQ14709)

**Edwina Hart:** Section 11 of the Local Government Act 2000 introduces three forms of executive structure, which may be operated by county or county borough councils. These are the elected mayor and cabinet model, the leader and cabinet model, and the elected mayor and council manager model. Sections 31 and 32 of the Act also enable the Assembly to allow the fourth option of a structure involving a politically balanced board. All models include provision for scrutiny of the executive or board.

**Jonathan Morgan:** Local authorities have been involved in a consultation process. I am most familiar with the consultation process

**C6 Jonathan Morgan;** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y modelau llywodraethu a amlinellir yn Neddf Llywodraeth Leol 2000? (OAQ14709)

**Edwina Hart:** Mae adran 11 Deddf Llywodraeth Leol 2000 yn cyflwyno tri math o strwythur gweithredol, y gellir ei weithredu gan gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, sef model y maer etholedig a chabinet, model arweinydd a chabinet, a model maer etholedig a rheolwr y cyngor. Mae Adrannau 31 a 32 y Ddeddf hefyd yn galluogi'r Cynulliad i ganiatáu pedwerydd opsiwn, sef strwythur sy'n cynnwys bwrdd â chydbwysedd gwleidyddol. Mae'r holl fodelau'n cynnwys darpariaeth ar gyfer craffu ar y weithrediaeth neu'r bwrdd.

**Jonathan Morgan:** Mae'r awdurdodau lleol wedi cymryd rhan mewn proses ymgynghori. Yr wyf fwyaf cyfarwydd â'r broses

being initiated in Cardiff. The model of consultation used was mainly to advertise the options in the local authority's own published newspaper, which, to my mind, is hardly wide consultation. Does the Minister share my concern that consultation should include public meetings, more public consultation with local authority members and the people whom they represent, and not merely consultation through a published rag?

ymgynghori sy'n mynd rhagddi yng Nghaerdydd. Defnyddiwyd model yr ymgynghoriad yn bennaf i hysbysebu'r opsiynau ym mhapur newydd yr awdurdod lleol ei hun, nad yw, yn fy marn i, yn ymgynghoriad eang. A yw'r Gweinidog yn rhannu fy mhryder y dylai ymgynghoriad gynnwys cyfarfodydd cyhoeddus, mwy o ymgynghori cyhoeddus gydag aelodau awdurdodau lleol a'r bobl y maent yn eu cynrychioli, ac nid dim ond ymgynghoriad drwy gylchgrawn?

**Edwina Hart:** I do not want to be drawn on the quality of any publication. However, if local authorities take the initiative to produce publications for the electorate, that is good, because it allows information to be disseminated. I understand that the publication also advertises jobs and issues of that nature. It is a useful means of communication. You have written to me, Jonathan, regarding your concerns on the consultation methods being used in Cardiff, which you consider to be inadequate. I have received feedback from my officials, who are liaising with the council. We have looked at the exercise and feel that it is comparable with the consultation exercises undertaken by most authorities in Wales.

**Rhodri Glyn Thomas:** A fyddai'r Gweinidog yn derbyn, o ran llywodraethu llywodraeth leol, bod Gwerth Gorau yn golygu'r gwerth gorau i lywodraeth leol o fewn ffiniau llywodraeth leol?

**Edwina Hart:** As you indicate, we must be clear about the meaning of Best Value. Best Value is the way that local authorities can provide services and, ultimately it is what is best for the council tax payer. We must be clear about what it means.

**Edwina Hart:** Nid wyf am wneud sylwadau ar ansawdd unrhyw gyhoeddiad. Fodd bynnag, os bydd awdurdodau lleol yn penderfynu cynhyrchu cyhoeddiadau ar gyfer etholwyr, mae hynny'n beth da, oherwydd mae'n caniatáu i wybodaeth gael ei lledaenu. Deallaf fod y cyhoeddiad hefyd yn hysbysebu swyddi a materion o'r fath. Mae'n ffordd ddefnyddiol o gyfathrebu. Ysgrifenasoch ataf, Jonathan, ynghylch eich pryderon ar y dulliau ymgynghori a ddefnyddir yng Nghaerdydd, sy'n annigonol yn eich barn chi. Derbyniais adborth gan fy swyddogion, sy'n cysylltu â'r cyngor. Edrychwyd ar yr ymarfer a theimlwyd ei fod yn debyg i ymarferion ymgynghori a gynhelir gan y rhan fwyaf o awdurdodau yng Nghymru.

**Rhodri Glyn Thomas:** Would the Minister accept that, in terms of local government governance, Best Value means the best value for local government within local government boundaries?

**Edwina Hart:** Fel y nodwyd gennych, rhaid inni fod yn glir ynghylch ystyr Gwerth Gorau. Gwerth Gorau yw'r ffordd y gall awdurdodau lleol ddarparu gwasanaethau ac, yn y pen draw dyna yw'r hyn sydd orau ar gyfer talwyr y dreth gyngor. Rhaid inni fod yn glir ynghylch beth mae hyn yn ei olygu.

### Gwerthu Tân Gwyllt Selling Fireworks

**Q7 Geraint Davies:** What discussions has the Minister had with local authorities regarding their role in preventing the sale of fireworks to customers who are under the age of 18? (OAQ14700)

I declare an interest as a member of Rhondda

**C7 Geraint Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gydag awdurdodau lleol am eu rôl o ran sicrhau nad oes Tân Gwyllt yn cael eu gwerthu i gwsmeriaid dan 18 oed? (OAQ14700)

Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor

Cynon Taff County Borough Council.

**Edwina Hart:** I have not had any direct discussions with local authorities on this. The Department of Trade and Industry is responsible for policy on the prohibition of supply of fireworks. There are regulations prohibiting the supply of fireworks to anyone apparently under the age of 18. The DTI is also in charge of the fireworks safety campaign.

**Geraint Davies:** Does the Minister recognise that improper use of fireworks is antisocial, dangerous, and causes much distress to people? One problem is the sale of fireworks to people under the age of 18. Will she encourage local authorities to promote the use of cards, such as validation cards, so that fireworks are only sold to people over the age of 18?

**Edwina Hart:** I agree about the distress that fireworks can cause as people let them off and, of course, what can happen in those circumstances. I will take this matter up with the Welsh Local Government Association.

Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

**Edwina Hart:** Ni chefais unrhyw drafodaethau uniongyrchol gydag awdurdodau lleol ar hyn. Yr Adran Masnach a Diwydiant sy'n gyfrifol am bolisiau ar wahardd cyflenwi tân gwylt. Ceir rheoliadau sy'n gwahardd cyflenwi tân gwylt i unrhyw un yr ymddengys ei fod o dan 18 oed. Yr Adran honno sydd yn gyfrifol hefyd am yr ymgyrch diogelwch tân gwylt.

**Geraint Davies:** A yw'r Gweinidog yn cydnabod bod defnydd amhriodol o dân gwylt yn anghymdeithasol, yn beryglus, ac yn achosi llawer o ofid i bobl? Un broblem yw gwerthu tân gwylt i bobl o dan 18 oed. A fydd yn annog awdurdodau lleol i hybu defnyddio cardiau, fel cardiau diliysu, fel mai dim ond i bobl dros 18 oed y caiff tân gwylt eu gwerthu?

**Edwina Hart:** Cytunaf ynghylch y gofid y gall tân gwylt ei achosi wrth i bobl eu tanio ac, wrth gwrs, yr hyn y gall ddigwydd yn yr amgylchiadau hynny. Byddaf yn codi'r mater hwn gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

### Rheolau Gofyniad Benthyca'r Sector Cyhoeddus Public Sector Borrowing Requirement Rules

**Q8 Janet Davies:** What recent discussions has the Minister had with Westminster colleagues on the public sector borrowing requirement rules, and their effects on local government spending on social housing? (OAQ14675)

**Edwina Hart:** As you know, I have written formally, on three occasions, to the Chief Secretary to the Treasury seeking a change to the public sector borrowing requirement rules. A change would allow local authorities to borrow to carry out repairs and improvements to houses. The latest approach was in the summer, as I reported to Plenary on 12 July, and this was rejected.

**Janet Davies:** Minister, in the face of that rejection, are your Westminster colleagues prepared to come to Wales to explain face to face to tenants their refusal to adopt a financial system which is in place in other European countries? That system would

**C8 Janet Davies:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar â'i chydweithwyr yn San Steffan am reolau gofyniad benthyca'r sector cyhoeddus, a'u heffeithiau ar wariant llywodraeth leol ar dai cymdeithasol? (OAQ14675)

**Edwina Hart:** Fel y gwyddoch, yr wyf wedi ysgrifennu'n ffurfiol, ar dri achlysur, at Brif Ysgrifennydd y Trysorlys yn ceisio newid rheolau gofyniad benthyca'r sector cyhoeddus. Byddai newid yn galluogi i awdurdodau lleol fenthyca i drwsio a gwella cyflwr tai. Y tro diwethaf oedd yn yr haf, fel y nodais yn y Cyfarfod Llawn ar 12 Gorffennaf, a gwrtiodwyd y cais hwnnw.

**Janet Davies:** Weinidog, o ystyried y gwrtiodiad hwnnw, a yw eich cyd-aelodau yn San Steffan yn barod i ddod i Gymru i esbonio wyneb yn wyneb i denantiaid eu penderfyniad i beidio â mabwysiadu system ariannol sydd mewn grym mewn gwledydd

enable tenants in Wales to improve their houses to modern standards, without the Government here having to wriggle through an administrative minefield.

**Edwina Hart:** I do not feel that I must wriggle through anything. Ultimately, it is important that we recognise that the Westminster Government has only recently been re-elected with a massive majority. Therefore, I conclude that people are happy with policy direction. I do not want to comment further than that.

**Alun Cairns:** Bearing in mind the high-taxing habit of Welsh local government, does the Minister agree that increasing the capacity to borrow would jeopardise the opportunity for low taxes? Does she not feel that it would be more constructive, in terms of social housing policy, for local authorities to work constructively with housing associations and the private sector?

**Edwina Hart:** Local authorities already work constructively with the private sector and with housing associations. It is important that you compare council tax figures across the border when considering Welsh authorities. Welsh authorities are certainly not profligate, and this is not a back-door method of getting excessive amounts of money.

**John Griffiths:** With regard to our correspondence on the prefabricated housing redevelopment scheme in Newport, and efforts to equalise the treatment given to tenants with that given to owners, has there been any progress in achieving fairer treatment for tenants?

**Edwina Hart:** I am pleased with the developments on the new prefabricated housing. They have been wonderful in terms of the homes provided. Equality of treatment for tenants is still on the agenda and I am examining the issue.

Ewropeaidd eraill? Byddai'r system honno'n galluogi tenantiaid yng Nghymru i wella eu tai i safonau modern, heb i'r Llywodraeth yma orfod stryffaglio drwy beryglon gweinyddol.

**Edwina Hart:** Ni theimlaf fod rhaid imi stryffaglio drwy unrhyw beth. Yn y pen draw, mae'n bwysig ein bod yn cydnabod mai dim ond yn ddiweddar yr ail-etholwyd Llywodraeth San Steffan gyda mwyafrif anferth. Felly, dof i'r casgliad bod pobl yn fodlon â chyfeiriad y polisi. Nid wyf am wneud sylw pellach na hynny.

**Alun Cairns:** O ystyried tueddiad llywodraeth leol yng Nghymru i godi trethi uchel, a gytuna'r Gweinidog y byddai cynyddu'r capasiti i fenthyc a yn rhoi'r cyfle i gael trethi isel yn y fantol? Onid yw'n teimlo y byddai'n fwy adeiladol, o ran polisi tai cymdeithasol, i awdurdodau lleol weithio'n adeiladol gyda chymdeithasau tai a'r sector preifat?

**Edwina Hart:** Mae awdurdodau lleol eisoes yn gweithio'n adeiladol gyda'r sector preifat a chyda chymdeithasau tai. Mae'n bwysig eich bod yn cymharu ffigurau treth gyngor dros y ffin wrth ystyried awdurdodau yng Nghymru. Yn sicr nid yw awdurdodau Cymru yn afrallon, ac nid dull ystrywgar o gael symiau gormodol o arian ydyw.

**John Griffiths:** O ran ein gohebiaeth ar y cynllun ailddatblygu tai parod yng Nghasnewydd, a'n hymdrechion i sicrhau bod tenantiaid yn cael eu trin yn yr un ffordd â pherchnogion, a fu unrhyw gynnydd wrth sicrhau bod tenantiaid yn cael eu trin yn gyfartal?

**Edwina Hart:** Yr wyf yn fodlon ar y datblygiadau ar y tai parod newydd. Buont yn wych o ran y cartrefi a ddarparwyd. Mae trin tenantiaid yn gyfartal yn dal i fod ar yr agenda ac yr wyf yn archwilio'r mater.

## Gosod a Chynnal Larymau Mwg Installing and Maintaining Smoke Alarms

**Q9 Jocelyn Davies:** What measures has the Minister taken to educate householders on the importance of installing and maintaining smoke alarms? (OAQ14693)

**Edwina Hart:** At a national level, responsibility for promoting fire awareness rests with the Department of Transport, Local Government and the Regions which works with the National Community Fire Safety Centre in promoting the smoke alarm campaign launched in September 2001. That highlighted the importance of a working smoke alarm.

Earlier this year I set up the community fire safety working group to examine, among other matters, the scope for widespread adoption in Wales of hard-wired smoke detectors in social housing. The working group has submitted its report, which was considered by the Local Government and Housing Committee on 7 November. Several recommendations were made, including a target for all social housing to have hard-wired detectors by the end of 2005. I will consider that for inclusion in a new programme for 2002-03 to be taken forward in the new year.

**Jocelyn Davies:** I am sure that you agree that a major problem with smoke alarms is that, if they are not hard-wired, people take the batteries out of them, which renders them useless. Sometimes people are unable to replace the batteries, especially when the alarms are placed on high ceilings. How will you promote the benefits of the hard-wired systems, and what resources will you make available for that?

**Edwina Hart:** The report considered the recommendation that social housing in Wales be fitted with hard-wired alarms by 2005. We have made £3 million available to take forward the report's recommendations. I am in constant discussion with the fire services in Wales—I will meet them next week—to consider what further work we can do on this issue, which I know has general support across all parties in the National Assembly.

**Gwenda Thomas:** Are you aware that the Mid and West Wales Fire Authority has a

**C9 Jocelyn Davies:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i addysgu deiliaid tai am bwysigrwydd gosod a chynnal larymau mwg? (OAQ14693)

**Edwina Hart:** Ar lefel genedlaethol, yr Adran Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau sy'n gyfrifol am hybu ymwybyddiaeth Tân. Mae'n gweithio gyda'r Ganolfan Diogelwch Tân Cymunedol Genedlaethol wrth hybu'r ymgyrch larymau mwg a lansiwyd ym Medi 2001. Amlygodd hynny bwysigrwydd larwm Tân sy'n gweithio.

Yn gynharach eleni sefydlais y gweithgor diogelwch Tân cymunedol i archwilio, ymysg materion eraill, y posibilrwydd o fabwysiadu synwyryddion mwg gwifredig mewn tai cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r gweithgor wedi cyflwyno ei adroddiad, a ystyriwyd gan y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar 7 Tachwedd. Gwnaethpwyd sawl argymhelliaid, yn cynnwys targed y dylai'r holl dai cymdeithasol gael synwyryddion gwifredig erbyn diwedd 2005. Byddaf yn ystyried cynnwys hynny mewn rhaglen newydd ar gyfer 2002-03 i'w datblygu yn y flwyddyn newydd.

**Jocelyn Davies:** Yr wyf yn siŵr eich bod yn cytuno mai un o brif broblemau larymau mwg yw, os nad ydynt yn rhai gwifredig, fod pobl yn dueddol o dynnu'r batris, sy'n eu gwneud yn ddiwerth. Weithiau ni fydd pobl yn gallu gosod batris newydd, yn enwedig pan fo'r larymau wedi'u gosod ar nenfydau uchel. Sut yr hyrwyddwch fanteision systemau gwifredig, a pha adnoddau fydd ar gael ar gyfer hynny?

**Edwina Hart:** Ystyriodd yr adroddiad yr argymhelliaid y dylid gosod larymau gwifredig mewn tai cymdeithasol yng Nghymru erbyn 2005. Mae £3 miliwn ar gael i ddatblygu argymhellion yr adroddiad. Caf drafodaethau cyson â'r gwasanaethau Tân yng Nghymru—byddaf yn cwrdd â hwy yr wythnos nesaf—i ystyried pa waith pellach y gallwn ei wneud ar y mater hwn, y gwn ei fod yn cael cefnogaeth gyffredinol yr holl bleidiau yn y Cynulliad Cenedlaethol.

**Gwenda Thomas:** A ydych yn ymwybodol bod gan Awdurdod Tân Canolbarth a

scheme to install longlife-battery smoke alarms in the homes of vulnerable people—the elderly and disabled—and to replace shortlife-battery alarms? Although that is not as good as providing hard-wired alarms, it is a step forward. I understand that the life of this battery is very long indeed.

**Edwina Hart:** I am aware of the Mid and West Wales Fire Authority's excellent work in this regard. The initiatives that all fire authorities take on this are most welcome. Ideally, I would like to consider the hard-wired option for the future. The difficulty, even with longlife batteries, is that they sometimes do not get replaced. Sometimes people take batteries out of a fire alarm and put it into a toy or some other appliance.

Gorllewin Cymru gynllun i osod larymau mwg batri oes hir yn nhai pobl diamddiffyn—yr henoed a phobl anabl—yn lle larymau batri oes fer? Er nad yw hyn crystal â darparu larymau gwifredig, mae'n gam ymlaen. Deallaf fod y batri hwn yn parhau'n hir iawn.

**Edwina Hart:** Yr wyf yn ymwybodol o waith rhagorol Awdurdod Tân Canolbarth Gorllewin Cymru yn y cyswllt hwn. Rhaid croesawu'r mentrau a sefydlir gan bob awdurdod tân ar hyn. Yn ddelfrydol, hoffwn ystyried yr opsiwn gwifredig ar gyfer y dyfodol. Yr anhawster, hyd yn oed gyda batris oes hir, yw na chaiff batris newydd eu gosod yn eu lle bob amser. Weithiau bydd pobl yn tynnu batris o larwm tân ac yn ei roi mewn tegan neu offeryn arall.

### Adnewyddu Tai Cyngor Renovating Council Housing

**Q10 Janet Ryder:** Will the Minister make a statement on the funding available to local authorities for the renovation of council housing? (OAQ14680)

**Edwina Hart:** We are obviously increasing housing capital budgets over the next three years and it is for local authorities to decide how the bulk of those resources are used. They should consider all options for improving their housing stock to the new Welsh housing quality standard referred to in the national housing strategy.

**C10 Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr arian sydd ar gael i awdurdodau lleol i adnewyddu tai cyngor? (OAQ14680)

**Edwina Hart:** Mae'n amlwg ein bod yn cynyddu cylidebau cyfalaf tai dros y tair blynedd nesaf a lle awdurdodau lleol yw penderfynu sut y caiff y rhan fwyaf o'r adnoddau hyn eu defnyddio. Dylent ystyried pob opsiwn ar gyfer gwella eu stoc tai yn unol â safon ansawdd newydd tai Cymru y cyfeiriwyd ati yn y strategaeth tai genedlaethol.

**Janet Ryder:** If an authority decides to transfer its stock and to set up a new registered social landlord in an area where there are existing registered social landlords, how will you ensure a level playing field so that all landlords have equal access to being able to build new houses, and one group is not favoured above another?

**Janet Ryder:** Os bydd awdurdod yn penderfynu trosglwyddo ei stoc a sefydlu landlord cymdeithasol cofrestredig mewn ardal lle ceir landlordiaid cymdeithasol cofrestredig eisoes, sut y byddwch yn sicrhau chwarae teg fel y bydd gan bob landlord yr un cyfle i adeiladu tai newydd, ac na chaiff un grŵp ei ffafrio'n fwy nag un arall?

**Edwina Hart:** You are referring to the total transfer of the stock, I assume. I will consider those issues in the round.

**Edwina Hart:** Cymeraf eich bod yn cyfeirio at drosglwyddo'r stoc gyfan. Byddaf yn ystyried y materion hynny yn eu holl agwedduau.

9:25 a.m.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd Questions to the Minister for Environment

**The Presiding Officer:** Question 1 **Y Llywydd:** Trosglwyddwyd Cwestiwn 1 (OAQ14630) has been transferred for written answer.

### Cyffordd 45 yr M4 Junction 45 of the M4

**Q2 Gwenda Thomas:** Will the Minister give an update on the progress of work being carried out on junction 45 of the M4? (OAQ14636)

**The Minister for Environment (Sue Essex):** Improvements at junction 45 form an integral part of the council's transport grant bid for the Swansea bay bus priority package. An increase in cost has been caused by a revision of the original proposals, which seek to meet additional objectives to those of the accepted bus corridor package. The proposals include placing signals at the junction, which should have consequential benefits for queues at each approach to the junction. This bid is being considered and I expect to make an announcement on it in January.

**Gwenda Thomas:** Delays at junction 45 can add significantly to journey times. Do you agree that uncongested access to the M4 at this junction is vital for the regeneration of the upper Swansea and Amman valleys, and for the full benefit of the A4067 to be realised?

**Sue Essex:** Thank you, Gwenda, for making representations to me on behalf of the communities concerned. It is hoped that there will be signalling improvements at that junction which will benefit the north and south sides of the M4 and the communities that you represent.

**Alun Cairns:** Junction 45 was the main subject of discussion by members of the public at a South West Wales Regional Committee meeting over a year ago. Why has it taken so long to consider formal proposals? Why do we have to wait until January for a formal statement, rather than accepting that traffic signals are needed at that junction? At

**C2 Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf ynghylch y gwaith sy'n cael ei gynnal ar gyffordd 45 yr M4? OAQ14636)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Mae'r gwelliannau ar gyffordd 45 yn rhan hanfodol o gais y cyngor am grant trafnidiaeth ar gyfer pecyn blaenoriaeth bws bae Abertawe. Cafwyd cynnydd yn y gost o ganlyniad i ddiwygio'r cynigion gwreiddiol, sy'n ceisio bodloni amcanion ychwanegol i rai y pecyn corridor bws a dderbyniwyd. Mae'r cynigion yn cynnwys gosod arwyddion yn y gyffordd, a ddylai leihau tagfeydd wrth bob mynediad i'r gyffordd. Mae'r cais hwn yn cael ei ystyried a disgwyliaf wneud datganiad arno ym mis Ionawr.

**Gwenda Thomas:** Gall tagfeydd ar gyffordd 45 gynyddu amseroedd teithiau'n sylweddol. A gytunwch fod mynediad rhwydd i'r M4 yn y gyffordd hon yn hanfodol i adfywio pen uchaf Cwmtawe a Chwmaman, ac er mwyn manteisio i'r eithaf ar yr A4067?

**Sue Essex:** Diolch, Gwenda, am roi sylwadau imi ar ran y cymunedau dan sylw. Y gobaith yw y bydd gwell arwyddion ar y gyffordd honno a fydd o fudd i ochrau gogleddol a deheuol yr M4 a'r cymunedau yr ydych yn eu cynrychioli.

**Alun Cairns:** Cyffordd 45 oedd prif bwnc trafod aelodau'r cyhoedd mewn cyfarfod o Bwyllgor Rhanbarth De Orllewin Cymru dros flwyddyn yn ôl. Pam y cymerodd gymaint o amser i ystyried cynigion ffurfiol? Pam bod yn rhaid inni aros tan fis Ionawr am ddatganiad ffurfiol, yn hytrach na derbyn bod angen arwyddion traffig ar y gyffordd honno?

present, it is an inhibitor to inward investment. Ar hyn o bryd, mae'n atal mewnfuddsoddiad.

**Sue Essex:** It is December, and January is just around the corner, so I do not think that you have to wait very long. That might have escaped your notice. I am aware of the situation, as Gwenda has kept me informed. People who know about traffic engineering know that you must plan for each situation carefully, because if you put a set of proposals in one place without thinking in an integrated way, you often cause unforeseen problems. This is seen as part of the corridor package put forward by the local council, and it has to be thought through properly. That is what has been done, and we will be making an announcement on that in January.

**Val Lloyd:** I declare an interest as a member of Swansea City and County Council. I am delighted with your response, Sue, because it is a vital junction to both Gwenda's constituency and mine. You have indicated the range of changes to be made there, and why they have taken some time to come about. However, the changes are vital for Swansea valley to reap the benefits of investment. It is important that we allow the South West Wales Integrated Transport Consortium bus priority package to go forward. Will you give me a more detailed estimate of when the work will be completed?

**Sue Essex:** That scheme is one of the transport grant bids, and I remind all Members that we have transport grant bids from all parts of Wales. They are all seen as important for their communities. We have supported the Swansea bus corridor project in the past, and I will be making an announcement in January. You are right to point out that community accessibility is important if people are to be able to access training and work. That underlies our transport strategy, in terms of both the framework and transport grant programmes.

**Sue Essex:** Mae'n fis Rhagfyr, ac mae bron yn fis Ionawr, felly ni chredaf fod yn rhaid ichi aros yn hir iawn. Efallai nad ydych wedi sylwi ar hynny. Yr wyf yn ymwybodol o'r sefyllfa, gan fod Gwenda wedi rhoi gwybod i mi. Mae pobl sy'n arbenigo ym maes peirianwaith traffig yn gwybod bod yn rhaid ichi gynllunio ar gyfer pob sefyllfa'n ofalus, oherwydd os byddwch yn gweithredu set o gynigion mewn un man heb feddwl mewn modd integredig, yn aml byddwch yn achosi problemau nas rhagwelwyd. Gwelir hyn fel rhan o becyn y corridor a gyflwynwyd gan y cyngor lleol, a rhaid ystyried hyn yn llawn. Dyna'r hyn a wnaed, a byddwn yn gwneud cyhoeddiad ar hynny ym mis Ionawr.

**Val Lloyd:** Datganaf fuddiant fel aelod o Gyngor Dinas a Sir Abertawe. Yr wyf wrth fy modd â'ch ymateb, Sue, oherwydd mae'n gyffordd hanfodol i etholaeth Gwenda a'm hetholaeth i. Nodasoch yr ystod o newidiadau y dylid eu gwneud yno, a pham y cymerwyd peth amser i'w gweithredu. Fodd bynnag, mae'r newidiadau'n hanfodol i Gwmtawe fanteisio ar fuddsoddiad. Mae'n bwysig ein bod yn caniatáu i becyn blaenoriaeth bws Consortiwmm Trafnidiaeth Integredig De Orllewin Cymru gael ei dderbyn. A roddwch amcangyfrif mwy manwl imi pryd y cwblheir y gwaith?

**Sue Essex:** Mae'r cynllun hwnnw yn un o'r ceisiadau am grant trafnidiaeth, a hoffwn atgoffa'r holl Aelodau bod ceisiadau am grant trafnidiaeth yn dod o bob rhan o Gymru. Ystyrir bod pob un ohonynt yn bwysig i'w cymunedau. Yr ydym wedi cefnogi prosiect corridor bws Abertawe yn y gorffennol, a byddaf yn gwneud cyhoeddiad ym mis Ionawr. Yr ydych yn gywir wrth nodi bod hygyrchedd cymunedol yn bwysig er mwyn i bobl gael mynediad i hyfforddiant a gwaith. Mae hynny'n sail i'n strategaeth drafnidiaeth, o ran y fframwaith a'r rhagleni grant trafnidiaeth.

## Gwasanaeth Rheilffordd rhwng Caerdydd a Chaergybi Rail Service between Cardiff and Holyhead

**C3 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda'r cyrff perthnasol ynghylch datblygu'r gwasanaeth rheilffordd rhwng Caerdydd a Chaergybi? (OAQ14659)

**Sue Essex:** I have regular meetings with the Strategic Rail Authority about developing rail services in Wales, including the provision of north-south train services. Since May 2000, the Welsh Assembly Government has provided funding for a direct train service—Peter Law began that—between Cardiff and Holyhead, via Wrexham. Under current arrangements, that service will continue until May 2002.

**Owen John Thomas:** Yr wyf yn anfodlon â'r sefyllfa, gan fod dyheadau a fynegwyd dros ddwy flynedd a hanner yn ôl heb eu gwireddu hyd yma. A oes modd i chi symud ymlaen yn gynt, neu a yw dylanwad WAG yn rhy wantan ar Lywodraeth San Steffan a'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol?

**Sue Essex:** All Members realise that we have no direct responsibility for railways. Therefore, I cannot promise something that I cannot deliver. We have supported the railway line to north-east Wales, which people do use. I use it when I travel to north Wales, and it is used by other Members, such as Karen Sinclair and Ann Jones, with whom I have sat on occasion. We have supported the Wales and Borders franchise. In fact, it is due to the National Assembly for Wales's presence, and the importance that we have given to that issue, that the franchise has been created and is currently being developed in shadow form.

We have presented a series of aspirations to the Strategic Rail Authority to improve services across Wales. The SRA will decide on those, but it has listened closely to us. Members of the Environment, Planning and Transport Committee know that Chris Austin from the SRA has attended Committee meetings frequently. We support

**Q3 Owen John Thomas:** What discussions has the Minister had recently with the relevant bodies concerning development of the rail service between Cardiff and Holyhead? (OAQ14659)

**Sue Essex:** Caf gyfarfodydd rheolaidd â'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol ynghylch datblygu gwasanaethau rheilffyrdd yng Nghymru, yn cynnwys darpariaeth gwasanaethau trêñ rhwng y gogledd a'r de. Ers mis Mai 2000, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi darparu arian ar gyfer gwasanaeth trêñ uniongyrchol—Peter Law a ddechreuodd hynny—rhwng Caerdydd a Chaergybi, drwy Wrecsam. O dan y trefniadau presennol, bydd y gwasanaeth hwnnw'n parhau tan fis Mai 2002.

**Owen John Thomas:** I am unhappy with this situation, as aspirations expressed over two and a half years ago have not yet been realised. Could you move things along quicker, or is the WAG's influence over the Westminster Government and the Strategic Rail Authority too feeble?

**Sue Essex:** Mae'r holl Aelodau'n sylweddoli nad oes gennym gyfrifoldeb uniongyrchol dros reilffyrdd. Felly, ni allaf addo rhywbeth na allaf ei gyflawni. Yr ydym wedi cefnogi'r llinell reilffordd i ogledd-ddwyrain Cymru, y mae pobl yn ei defnyddio. Byddaf yn ei defnyddio wrth deithio i ogledd Cymru, ac mae Aelodau eraill yn ei defnyddio, fel Karen Sinclair ac Ann Jones, yr wyf wedi cyddeithio â hwy ar sawl achlysur. Yr ydym wedi cefnogi masnachfraint Wales and Borders. Yn wir, oherwydd presenoldeb Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a'r pwysigrwydd a roddwyd gennym i'r mater hwnnw, crëwyd y masnachfraint ac y mae'n cael ei datblygu ar ffurf gysgodol.

Yr ydym wedi cyflwyno cyfres o ddyheadau i'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol i wella gwasanaethau ledled Cymru. Yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a fydd yn penderfynu ar y rhain, ond mae wedi gwrando'n astud arnom. Gŵyr aelodau Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth fod Chris Austin o'r Awdurdod Rheilffyrdd

improvements to the rail service across Wales. However, we have made representations on the north-south line and are considering how we can support that service beyond May 2002.

Strategol wedi mynchu cyfarfodydd y Pwyllgor yn aml. Cefnogwn welliannau i'r gwasanaeth rheilffyrdd ledled Cymru. Fodd bynnag, yr ydym wedi cyflwyno sylwadau ar y llinell rhwng y Gogledd a'r De ac yr ydym yn ystyried sut y gallwn gefnogi'r gwasanaeth hwnnw ar ôl mis Mai 2002.

**Peter Law:** I congratulate the Minister on her excellent work to enhance the rail service in Wales, in particular by using it herself. Yesterday, she used the rail service to Rhondda with other Environment, Planning and Transport Committee members. What action is she taking now to support the excellent scheme for the reopening of the passenger rail service between Cardiff and Ebbw Vale and Abertyleri in my constituency which will benefit Blaenau Gwent, Caerphilly, Newport, and also Cardiff? We look forward to her support for that scheme in future.

**Peter Law:** Llongyfarchaf y Gweinidog ar ei gwaith rhagorol i wella'r gwasanaeth rheilffordd yng Nghymru, yn enwedig drwy ei ddefnyddio ei hun. Ddoe, defnyddiodd y gwasanaeth rheilffordd i deithio i'r Rhondda gydag aelodau eraill Pwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth. Pa gamau y mae'n eu cymryd yn awr i gefnogi'r cynllun rhagorol ar gyfer ailagor y gwasanaeth rheilffyrdd teithwyr rhwng Caerdydd a Glyn Ebwy ac Abertyleri yn fy etholaeth a fydd o fudd i Flaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd, a hefyd Caerdydd? Edrychwn ymlaen at gael ei chefnogaeth i'r cynllun hwnnw yn y dyfodol.

**Sue Essex:** We took a pleasant trip to look at the line between Cardiff and the steel works in Ebbw Vale. I was encouraged by the state of the line as it was in a better condition than we had thought. We went to Ebbw Vale with members and officials from Blaenau Gwent County Borough Council and others to consider how that line could work and the communities that it would benefit. Close discussions between our officials and those conducting the value for money studies are taking place. I hope that we will have a conclusive report from those studies soon so that Peter Law's wish can be progressed further.

**Sue Essex:** Aethom ar daith bleserus i edrych ar y llinell rhwng Caerdydd a'r gwaith dur yng Nglyn Ebwy. Fe'm calonogwyd gan gyflwr y llinell gan ei bod mewn gwell cyflwr na'r hyn a dybiwyd. Aethom i Lyn Ebwy gydag aelodau a swyddogion o Gyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent ac eraill i ystyried y ffordd y gallai'r llinell honno weithio a'r cymunedau a fyddai'n elwa ohoni. Cynhelir trafodaethau manwl rhwng ein swyddogion a'r rhai hynny sy'n gwneud yr astudiaethau gwerth am arian. Gobeithiaf y bydd gennym adroddiad terfynol o'r astudiaethau hynny'n fuan fel y gellir hyrwyddo dymuniad Peter Law ymhellach.

**Glyn Davies:** Do you accept that improving links between north and south Wales, whether by rail or road, can play a significant part in nation-building in Wales? It will also alleviate the feelings of disappointment that exist in north, mid and west Wales that the Cardiff-centric nature of this Government is damaging the Assembly.

**Glyn Davies:** A dderbyniwch y gall gwella cysylltiadau rhwng y Gogledd a'r De, boed hynny yn gysylltiadau ffyrdd neu'n rheilffyrdd, chwarae rhan sylweddol yn y gwaith o adeiladu Cymru fel cenedl? Bydd hefyd yn lleddfú'r siom sy'n bodoli yng ngogledd, canolbarth a gorllewin Cymru bod pwyslais y Llywodraeth hon ar Gaerdydd yn gwneud drwg i'r Cynulliad.

**The Presiding Officer:** Order. The question is not about Cardiff centrism, but about railway connections, which are not centred in Cardiff.

**Y Llywydd:** Trefn. Nid ynghyllch canolbleidiaeth Caerdydd y mae'r cwestiwn, ond ynghyllch cysylltiadau rheilffyrdd, nad ydynt wedi'u canoli yng Nghaerdydd.

**Sue Essex:** The need to improve north-south links was behind Peter Law's innovative move to support that rail link, which we have continued to support. The Assembly played its part in that development. A wider myth that people like to spread is that people in north Wales think that the Assembly is Cardiff-centric. That is not my impression. I wish to make that point because it is important. I visit north Wales frequently, as do my Cabinet colleagues, and people in north Wales feel that we have taken their concerns to heart. I have seen real improvements in north Wales as a result of the transport budget. The myth is being dispelled by practical policies and investment in north Wales.

**Alun Pugh:** I also travel to north Wales frequently, Sue, and even with clapped-out trains running on obsolete infrastructures, it is perfectly possible to travel on a train from north to south Wales in three and a half hours. Will you press Wales and Borders to provide a semi-fast morning service to allow north Wales residents to travel to the capital for a day's work or leisure? It is not acceptable that a strategic Welsh service doubles up as a train that stops in Cheshire and Shropshire.

**Sue Essex:** A difficulty that train operating companies face is that many lines throughout Wales and the borders carry strategic passengers—such as Alun, hotfoot from north Wales to enjoy another wonderful week at the National Assembly—as well as people who use them for shorter journeys which they consider to be important. Tension exists between the use of stopping-trains and through-trains. Other Assembly Members also feel strongly about this issue. We are concerned about this. The Committee may wish to invite Chris Gibb, the current managing director of Wales and Borders Trains, I believe, to talk about how the franchise, or the shadow franchise to give it its proper name, is currently operating. I have spoken about this with Richard Edwards, who accompanied me on the train to Treorchy yesterday—we also went to

**Sue Essex:** Yr angen i wella cysylltiadau rhwng y Gogledd a'r De oedd y tu ôl i ymgais dyfeisgar Peter Law i gefnogi'r cyswllt rheilffordd hwnnw, yr ydym wedi parhau i'w gefnogi. Chwaraeodd y Cynulliad ei ran yn y datblygiad hwnnw. Chwedl ehangach y mae pobl yn hoffi ei lledaenu yw bod pobl yng ngogledd Cymru'n credu bod y Cynulliad yn canolbwytio gormod ar Gaerdydd. Nid dyna'r argraff a gaf i. Hoffwn wneud y pwynt hwnnw oherwydd mae'n bwysig. Byddaf yn ymweld â'r Gogledd yn aml, fel fy nghyd-Aelodau yn y Cabinet, ac mae pobl yn y Gogledd yn teimlo ein bod wedi ystyried eu barn. Gwelais welliannau gwirioneddol yng ngogledd Cymru o ganlyniad i'r gyllideb trafenidiaeth. Caiff y chwedl ei chwalu gan bolisiau ymarferol a buddsoddiadau yn y Gogledd.

**Alun Pugh:** Byddaf innau'n teithio i'r Gogledd yn aml, Sue, a hyd yn oed gyda threnau sydd wedi gweld eu dyddiau gorau sy'n rhedeg ar seilwaith sydd ar ddarfod, mae'n holol bosibl teithio ar drêñ o'r gogledd i'r de mewn tair awr a hanner. A wenwch chi bwys o ar Wales and Borders i ddarparu gwasanaeth gymharol gyflym yn y bore i alluogi pobl yn y gogledd i deithio i'r brifddinas i weithio am y diwrnod neu ar gyfer hamdden? Nid yw'n dderbyniol i wasanaeth strategol yng Nghymru fod yn drêñ hefyd sy'n stopio yn Swydd Gaer a Swydd Amwythig.

**Sue Essex:** Un anhawster y gall cwmnïau trenau ei wynebu yw bod llawer o linellau drwy Gymru a'r gororau'n cludo teithwyr strategol—fel Alun, ar frys o'r Gogledd i fwynhau wythnos wych arall yn y Cynulliad Cenedlaethol—yn ogystal â phobl sy'n eu defnyddio ar gyfer teithiau byrrach sy'n bwysig iddynt hwy. Mae tensiwn yn bodoli rhwng defnyddio trenau araf a threnau uniongyrchol. Mae Aelodau eraill o'r Cynulliad hefyd yn teimlo'n gryf ynghylch y mater hwn. Yr ydym yn pryderu ynghylch hyn. Efallai y dymunai'r Pwyllgor wahodd Chris Gibb, rheolwr gyfarwyddwr presennol Wales and Borders Trains, fe gredaf, i siarad am sut y mae'r fasnachfrain, neu'r fasnachfrain gysgodol i roi'r enw cywir arni, yn gweithredu ar hyn o bryd. Yr wyf wedi siarad am hyn gyda Richard Edwards, a gyd-deithiodd gyda mi ar y trêñ i Dreorci ddoe—

Treherbert, just for the ride.

9:35 a.m.

**Arweinydd yr Wrthblaid (Ieuan Wyn Jones):** Yr oeddwn yn rhyfeddu i'ch clywed yn dweud bod pobl y Gogledd yn hapus â'r newidiadau sydd wedi'u gwneud i'r gwasanaeth. Nid wyf wedi cyfarfod ag unrhyw unigolyn o'r Gogledd sydd yn hapus â'r gwasanaeth trenau rhwng Caergybi a Chaerdydd. Efallai eich bod wedi cael profiad o deithio ar y trenau hyn yn achlysurol, ond a ydych wedi cael y profiad o sefyll bob cam o Crewe i Gaerdydd oherwydd bod y trenau weithiau yn orlawn? A ydych wedi teithio o Gaerdydd i Crewe, a chyrraedd Crewe ddau funud yn hwyr a gweld eich trêb yn gadael yr orsaf i Gaergybi? A ydych wedi gweld pa mor amhosibl yw hi i Aelodau Cynulliad y Gogledd deithio adref yn gyfleus ar ddydd Iau a theithio yn ôl i lawr ar ddydd Llun? A dderbyniwch fod ffordd bell i fynd i wella'r gwasanaeth rhwng Caergybi a Chaerdydd? A wnewch chi, ar ran Llywodraeth y Cynulliad, ymdynghedu y bydd y cwmni newydd o dan fasnachfraint Cymru a'r Gororau yn addo darparu gwell gwasanaeth o hyn ymlaen.

**Sue Essex:** If you had listened to me carefully, I did not say that people in north Wales were happy with the service. They clearly are not. Alun, Eleanor, Karen and Ann represent north Wales constituencies and use this service frequently. They frequently express their dissatisfaction. What I said was that I was combating the myth that people in north Wales have been completely disenfranchised and ignored. This idea that we are Cardiff-centric and are not concerned about north Wales is not true. That was the answer to the question.

On railways, of course I am not happy, but, as I said, I am not responsible for them. We are looking for additional powers because that is what we want. That came out of the Committee report. I want to have greater influence and powers, with other Members, over transport. It is one of my frustrations. However, we are doing our best with the powers and resources that we have to influence the decisions of others. I am

aethom i Dreherbert hefyd, jyst am dro.

**The Leader of the Opposition (Ieuan Wyn Jones):** I was astonished to hear you say that people in north Wales are happy with the changes that have been made to the service. I have not met a single soul from north Wales who is happy with the train service from Holyhead to Cardiff. You may have travelled on these trains occasionally, but have you been forced to stand every step of the way from Crewe to Cardiff because these trains are sometimes packed? Have you travelled from Cardiff to Crewe, and arrived in Crewe two minutes late only to see your train leaving the station for Holyhead? Do you know how impossible it is for north Wales Assembly Members to travel home conveniently on a Thursday and return on a Monday? Do you accept that there is a long way to go to improve the service between Cardiff and Holyhead? Will you, on behalf of the Assembly Government, ensure that the new company operating under the Wales and Borders franchise commits itself to improving the service without delay?

**Sue Essex:** Pe byddech wedi gwrando yn astud arnaf, ni ddywedais fod pobl yn y Gogledd yn fodlon â'r gwasanaeth. Mae'n amlwg nad ydynt. Mae Alun, Eleanor, Karen ac Ann yn cynrychioli etholaethau yn y Gogledd ac yn defnyddio'r gwasanaeth hwn yn rheolaidd. Maent yn datgan eu hanfodlonrwydd yn aml. Yr hyn a ddywedais yw fy mod yn mynd i'r afael â'r chwedl fod pobl yn y Gogledd wedi'u difreinio a'u hanwybyddu. Nid yw'r syniad hwn ein bod yn canolbwytio ar Gaerdydd ac nad ydym yn pryderu ynghylch y Gogledd yn wir. Dyna oedd yr ateb i'r cwestiwn.

O ran rheilffyrdd, wrth gwrs nid wyf yn hapus, ond, fel y dywedais, nid wyf yn gyfrifol amdanynt. Yr ydym yn chwilio am bwerau ychwanegol oherwydd mai dyna'r hyn yr ydym am ei gael. Daeth hynny i'r amlwg yn adroddiad y Pwyllgor. Yr wyf am gael mwy o ddylanwad a phwerau, gydag Aelodau eraill, dros drafnidiaeth. Dyma un o'm rhwystredigaethau. Fodd bynnag, yr ydym yn gwneud ein gorau gyda'r pwerau a'r

pleased to say that up to now the SRA has listened and responded. It is because of the fact that it was driven here in Wales that the franchise is coming up—do not forget that.

I vividly remember the north-south connections on that route. A couple of weeks ago, I ran from the train to the Holyhead train. I just about made it, and I know how tight it was. The Committee has expressed real concerns about timetabling. This has gone forward to Wales and Borders and the other train operators. I have spoken to Chris Green of Virgin trains, and we are doing our utmost to influence this to get better performance. That is what people want. The fact that Assembly Members use the trains, and are advocates for the trains, and respond to their constituents, is a strong force in a democratic situation.

**Eleanor Burnham:** I welcome your continued pressure. However, do you agree that we should ensure that the Holyhead train does not go out of Wales to Crewe and stops throughout Shropshire for the lucky people there, as Alun said? It should come through Wrexham to allow us to have a decent connection, rather than feel as if we live in Timbuktu. The other day, for instance, in Shrewsbury, I just about managed to catch the train because the Cardiff train was once again delayed. I understand that the infrastructure is the problem in this case. It is apparently the continued problem of points in the Chester region that is causing grave anxiety. We need a joined-up service. I was embarrassed, as I said to you previously, when I met the director of Tetra Pak, which now has its headquarters in Wrexham, where it has relocated from London. Surely, a global company of that magnitude, local people, and us regular travellers, deserve a much-improved service.

**Sue Essex:** I agree. It is not only Assembly Members who deserve an improved service, but members of the public, business people and people going about their daily lives.

adnoddau sydd gennym i ddylanwadu ar benderfyniadau pobl eraill. Mae'n bleser gennyf ddweud fod yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol hyd yn hyn wedi gwrandu ac wedi ymateb. Mae hyn oherwydd y ffaith yr ymgrychwyd ar ei gyfer yma yng Nghymru a bod y fasnachfraint yn dod i ben—cofiwch hynny.

Cofiaf yn glir y cysylltiadau rhwng y Gogledd a'r De ar y llwybr hwnnw. Bythefnos yn ôl, rhedais o'r trén i drêñ Caergybi. Cyrhaeddais heb amser i'w sbario, a gwn pa mor agos yr oeddwn i golli'r trén. Mae'r Pwyllgor wedi mynegi pryderon gwirioneddol ynghylch amserlennu. Cyflwynwyd hyn i Wales and Borders a'r cwmniâu trén eraill. Siaradais â Chris Green o Virgin trains, ac yr ydym yn gwneud ein gorau i ddylanwadu ar hyn er mwyn cael perfformiad gwell. Dyna sydd ei eisiau ar bobl. Mae'r ffaith bod Aelodau'r Cynulliad yn defnyddio'r trenau, a'u bod yn cefnogi'r trenau, ac yn ymateb i'w hetholwyr, yn rym cryf mewn sefyllfa ddemocratiaidd.

**Eleanor Burnham:** Croesawaf eich pwysau parhaus. Fodd bynnag, a gytunwch y dylem sierhau nad yw trén Caergybi'n gadael Cymru i fynd i Crewe ac yn stopio drwy Swydd Amwythig ar gyfer y bobl ffodus yno, fel y dywedodd Alun? Dylai ddod drwy Wrecsam i'n galluogi i gael cysylltiad da, yn hytrach na theimlo ein bod yn byw yn Timbuktu. Y diwrnod o'r blaen, er enghraifft, yn yr Amwythig, bûm yn ddigon ffodus o ddal y trén oherwydd bod trén Caerdydd yn hwyr unwaith eto. Deallaf mai'r seilwaith yw'r broblem yn yr achos hwn. Yn ôl pob sôn, y broblem barhaus o bwyntiau yn rhanbarth Caer sy'n achosi pryder mawr. Mae angen gwasanaeth cysylltiedig arnom. Yr oedd gennyf gywilydd, fel y dywedais wrthych yn flaenorol, pan gyfarfum â chyfarwyddwr Tetra Pak, y lleolir ei bencadlys yn Wrecsam bellach, ar ôl ail-leoli o Lundain. Wrth gwrs, mae cwmni byd-eang o'r maint hwnnw, pobl leol, a ninbau'r teithwyr rheolaidd, yn haeddu gwasanaeth llawer gwell.

**Sue Essex:** Cytunaf. Nid Aelodau'r Cynulliad yn unig sy'n haeddu gwasanaeth gwell, ond aelodau'r cyhoedd, pobl fusnes a phobl yn eu hymwneud bob dydd. Mae tasg

There is a huge mountain to climb as regards the railways. We have frequently had this discussion. For a long time—a whole generation or two—people thought that the railways were not the way forward and that, in future, we would be a car-orientated society. People use and need their cars. However, we also desperately need trains for two important reasons. Travelling by rail enables people to get out of their cars and have a comfortable journey. It also contributes towards the country's economic image, which has been undervalued. We want to be a modern and progressive country and attract business people to Wales. Many of those business people will depend on the railways.

**The Presiding Officer:** Question 4 (OAQ14642) has been withdrawn.

anferth o'n blaenau o ran y rheilffyrdd. Cawsom y drafodaeth hon yn aml. Am beth amser—cenhedlaeth gyfan neu ddwy—credai pobl nad y rheilffyrdd oedd y ffordd ymlaen ac, yn y dyfodol, y byddem yn gymdeithas a fyddai'n teithio mewn car. Mae pobl yn defnyddio'u ceir ac mae eu hangen arnynt. Fodd bynnag, mae angen trenau arnom yn ddirfawr am ddau reswm pwysig. Mae teithio ar reilffordd yn galluogi pobl iadael eu ceir a chael taith gyfforddus. Mae hefyd yn cyfrannu tuag at ddelwedd economaidd y wlad, na chafodd ei gwerthfawrogi'n ddigonol. Yr ydym am fod yn wlad fodern a blaengar a denu pobl fusnes i Gymru. Bydd llawer o'r bobl fusnes hynny'n dibynnau ar y rheilffyrdd.

**Y Llywydd:** Tynnwyd Cwestiwn 4 (OAQ14642) yn ôl.

### **Mesurau Arafu Traffig yn Rhaeadr Traffic Calming Measures in Rhayader**

**Q5 The Leader of the Welsh Conservatives (Nick Bourne):** What representations has the Minister had for traffic calming measures in Rhayader? (OAQ14642)

**Sue Essex:** Representations have been made by the Rhayader and District Chamber of Trade, Rhayader Town Council, Kirsty Williams AM and Nicholas Bourne AM.

**Nick Bourne:** Minister, we have corresponded on this matter. In Brecon and Radnorshire—second only to a relief road in Talgarth—the issue of traffic in Rhayader is a real concern, particularly where the A44 and the A470 intercept. There is a need for clear signalling of priorities to slow down the traffic and to let people know where the priorities lie. It is not clear at the moment. We must also look at the speed limits as you go north-east out of Rhayader on the Llangurig to Aberystwyth road. I have also expressed concern on that matter. The Babtie report states a need for a relief road. Can you give us assurance that these matters are being considered—particularly the first two, as they can be dealt with in the short and medium term?

**Sue Essex:** Recent speed surveys have shown

**C5 Arweinydd Ceidwadwyr Cymru (Nick Bourne):** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u cael ynghylch mesurau arafu traffig yn Rhaeadr? (OAQ14642)

**Sue Essex:** Gwnaed sylwadau gan Siambrau Fasnach Rhaeadr a'r Cylch, Cyngor Tref Rhaeadr, Kirsty Williams AC a Nicholas Bourne AC.

**Nick Bourne:** Weinidog, yr ydym wedi gohebu ar y mater hwn. Ym Mrycheiniog a Sir Faesyfed—dim ond yn ail i ffordd lliniaru yn Nhalgarth—mae mater traffig yn Rhaeadr yn achos pryder mawr, yn enwedig lle mae'r A44 a'r A470 yn rhyngdorri. Mae angen arwyddion clir o'r blaenoriaethau i arafu'r traffig a rhoi gwybod i bobl pwys sydd â blaenoriaeth. Nid yw'n glir ar hyn o bryd. Hefyd rhaid inni edrych ar y cyfyngiadau cyflymder wrth deithio i'r gogledd-ddwyrain allan o Raeadr ar y ffordd o Langurig i Aberystwyth. Yr wyf hefyd wedi datgan pryder ar y mater hwennw. Mae adroddiad Babtie yn nodi angen am ffordd osgoi. A allwch roi sicrwydd bod y materion hyn yn cael eu hystyried—yn enwedig y ddau gyntaf, oherwydd gellir ymdrin â hwy yn y tymor byr a chanolig?

**Sue Essex:** Dangosodd arolygon cyflymder

that compliance with the speed limit at the southern end of the town is not good. Therefore, the Mid-Wales Trunk Road Agency has been instructed to install enhanced signing and road markings at that location within this financial year. We are addressing that issue. The northern end of the town's infrastructure, and, as you said, the A470 road, have been included in the Babtie report, as some Assembly Members will know. That will be taken into account in the review of trunk roads.

diweddar nad yw llawer yn cydymffurfio â'r cyfyngiad cyflymder ar ochr ddeheuol y dref yn dda. Felly, gorchmynnwyd Asiantaeth Prifyrdd Canolbarth Cymru i osod arwyddion a marciau ffordd gwell yn y lleoliad hwnnw o fewn y flwyddyn ariannol hon. Yr ydym yn mynd i'r afael â'r mater hwnnw. Cafodd ochr ogleddol seilwaith y dref, ac, fel y dywedasoch, ffordd yr A470, eu cynnwys yn adroddiad Babtie, fel y gŵyr rhai o Aelodau'r Cynulliad. Caiff hynny ei ystyried wrth adolygu'r cefnffyrrdd.

### **Cyfreithiau a Rheoliadau Cynllunio Planning Laws and Regulations**

**Q6 John Griffiths:** Will the Minister make a statement on the importance of planning laws and regulations to the future of Wales? (OAQ14702)

**Sue Essex:** An effective and efficient land-use planning system is essential to help us meet the future economic, social and environmental needs of Wales. We are committed to preparing the Wales spatial plan, which will provide a framework for change. In March 2002 we will publish 'Planning Policy Wales'. This will replace existing guidance and set out the Assembly's land-use planning policies for Wales. They will be used by local authorities preparing development plans and will also be a material consideration in decisions about planning applications.

**John Griffiths:** Do you agree that Wales would benefit greatly from a new planning system that promotes sustainable development and quality of life and achieves greater certainty and speed of decision-making?

**Sue Essex:** 'Planning Policy Wales', which will be finalised in March when we hope to print it, puts sustainable development at the core. It is a made-in-Wales solution because we are drafting the planning guidance differently from England. It will be a comprehensive, integrated approach to planning guidance, reflecting our duty under section 121 of the Act. I think that everyone who has seen the draft is happy about that.

**C6 John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar bwysigrwydd cyfreithiau a rheoliadau cynllunio i ddyfodol Cymru? (OAQ14702)

**Sue Essex:** Mae system cynllunio defnydd o dir effeithiol ac effeithlon yn hanfodol i'n helpu i ddiwallu anghenion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol Cymru yn y dyfodol. Yr ydym yn ymrwymedig i baratoi cynllun gofodol Cymru, a fydd yn darparu fframwaith ar gyfer newid. Ym mis Mawrth 2002 byddwn yn cyhoeddi 'Polisi Cynllunio Cymru'. Bydd hyn yn disodli canllawiau presennol ac yn gosod polisiau cynllunio defnydd o dir y Cynulliad ar gyfer Cymru. Cân eu defnyddio gan awdurdodau lleol sy'n paratoi cynlluniau datblygu a hefyd byddant yn ystyriaeth berthnasol mewn penderfyniadau ar geisiadau cynllunio.

**John Griffiths:** A gytunwch y byddai Cymru'n elwa'n fawr ar system gynllunio newydd sy'n hybu datblygu cynaliadwy ac ansawdd bywyd ac sy'n gwneud penderfyniadau yn fwy sicr a chyflym?

**Sue Essex:** Mae 'Polisi Cynllunio Cymru', a gaiff ei gwblhau ym mis Mawrth pan fyddwn yn gofeithio ei argraffu, yn pwysleisio datblygu cynaliadwy. Mae'n ateb a luniwyd yng Nghymru oherwydd ein bod yn drafftio'r canllaw cynllunio yn wahanol i Loegr. Bydd yn ymagwedd gynhwysfawr, integredig tuag at ganllaw cynllunio, sy'nadlewyrchu ein dyletswydd o dan adran 121 y Ddeddf. Credaf fod pawb sydd wedi gweld y drafft yn fodlon ar hynny.

It also contains guidance for business, if that is what you refer to, John. Trying to provide a more effective, efficient and speedier planning decision-making system depends on getting the planning guidance updated, local authorities having up-to-date unitary development plans, and ensuring that planning application are dealt with more speedily. You may know that the UK Government has launched a Green Paper for England. We will do something similar in Wales, which will pick up on some of the issues you raised.

**William Graham:** Will you give a commitment to undertaking a review of the procedures used by local authorities in granting themselves planning permission?

**Sue Essex:** We will be considering that in our consultation.

**The Presiding Officer:** Question 7 (OAQ14654) has been withdrawn.

9:45 a.m.

### **Gwasanaeth Rheilffordd rhwng Caerdydd a'r Cymoedd Rail Service between Cardiff and the Valleys**

**C8 Owen John Thomas:** Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael yn ddiweddar gyda'r cyrff perthnasol yngylch datblygu'r gwasanaeth rheilffordd rhwng Caerdydd a'r Cymoedd? (OAQ14658)

**Sue Essex:** I have regular meetings with the Strategic Rail Authority, and my officials have also met the pre-qualified bidders for the Wales and Borders franchise to press the case for improved rail services between Cardiff and the Valleys and throughout Wales.

**Owen John Thomas:** What steps are you taking to promote the development of the rail service between Cardiff and the Valleys by introducing a hybrid light rail system, in consultation with the relevant local authorities, the SRA and interested rail companies?

Mae hefyd yn cynnwys canllaw ar gyfer busnes, os mai dyna'r hyn yr ydych yn cyfeirio ato, John. Mae ceisio darparu system gwneud penderfyniadau fwy effeithiol, effeithlon a chyflymach yn dibynnu ar ddiweddarau'r canllaw cynllunio, rhoi'r cynlluniau datblygu unedol diweddaraf i'r awdurdodau lleol, a sicrhau yr ymdrinnir â cheisiadau cynllunio yn gynt. Gwyddoch efallai fod Llywodraeth y DU wedi lansio Papur Gwyrdd ar gyfer Lloegr. Byddwn yn gwneud rhywbeth tebyg yng Nghymru, a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r materion a godwyd gennych.

**William Graham:** A wnewch ymrwymiad i gynnal adolygiad o'r gweithdrefnau a ddefnyddir gan awdurdodau lleol wrth roi caniatâd cynllunio iddynt eu hunain?

**Sue Essex:** Byddwn yn ystyried hynny yn ein hymgyngoriad.

**Y Llywydd:** Tynnwyd Cwestiwn 7 (OAQ14654) yn ôl.

**Q8 Owen John Thomas:** What discussions has the Minister had recently with the relevant bodies concerning development of the rail service between Cardiff and the Valleys? (OAQ14658)

**Sue Essex:** Caf gyfarfodydd rheolaidd â'r Awdurdod Rheilffyrdd Strategol, ac mae fy swyddogion hefyd wedi cyfarfod â'r ymgeiswyr â chymwysterau blaenorol ar gyfer masnachfraint Wales and Borders i bwys o am wasanaethau rheilffyrdd gwell rhwng Caerdydd a'r Cymoedd a ledled Cymru.

**Owen John Thomas:** Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i hybu datblygiad y gwasanaeth rheilffyrdd rhwng Caerdydd a'r Cymoedd drwy gyflwyno system reilffordd ysgafn hybrid, wrth ymgynghori â'r awdurdodau lleol perthnasol, yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol a chwmnïau rheilffyrdd â diddordeb?

**Sue Essex:** We have not been putting our efforts into introducing a hybrid light rail system in the Valleys. I thought that, given previous discussions on this, Members were more supportive of a heavy-duty rail system. That is our priority and that of our partners in the South Wales Integrated Fast Transit consortium. We have been pushing Railtrack on this issue, and we have allocated money for enhancements to Queen Street station, so that there is better capacity. That is crucial for the Valleys service. If the enhancements are made, the infrastructure capacity can be doubled. We have been working with local authorities to develop improved services for the Valleys. The train on which Richard Edwards and I travelled yesterday had benefited in terms of capacity from the SRA's rail passenger partnership fund. Discussions on improvement to services are ongoing between the SWIFT consortium of local authorities and other local authorities and operators. I believe that that is the way forward for the Valleys, and that view has been strongly expressed by Valley authorities and others involved.

**Jonathan Morgan:** One exciting proposal by Cardiff City and County Council is the development of the rail network within Cardiff—that is, linking up the networks on the east and west of the city. Will the Minister join me in congratulating the authority in pursuing this proposal and urge it to implement the proposals as quickly as possible?

**Sue Essex:** I am glad that Jonathan recognises that the county council is pursuing an integrated transport development policy. The council has recognised that it needs to improve transport corridors on both sides of the city. However, neither the council nor the Assembly are the overriding authorities in terms of rail. At the end of the day, whether the systems are implemented depends on the owners and the train operating companies. However, this sends out an important message. Other local authorities across Wales are pursuing similar proposals. One important example is the Vale of Glamorgan Council, which recognises that the future lies in

**Sue Essex:** Ni fuom yn gweithio i gyflwyno system reilffordd ysgafn hybrid yn y Cymoedd. Credais, o ystyried y trafodaethau blaenorol ar hyn, fod yr Aelodau'n fwy cefnogol i system reilffordd gwaith trwm. Dyna'n blaenoriaeth ni a blaenoriaeth ein partneriaid yng nghonsortiw Cludiant Cyflym Integredig De Cymru. Buom yn rhoi pwysau ar Railtrack ynghylch y mater hwn, a dyrannwyd arian ar gyfer gwelliannau i orsaф Stryd y Frenhines, er mwyn sicrhau gwell capaciti. Mae hynny'n hanfodol ar gyfer gwasanaethau'r Cymoedd. Os cyflawnir y gwelliannau, gellir dyblu capaciti'r sealwaith. Buom yn cydweithio ag awdurdodau lleol i ddatblygu gwasanaethau gwell ar gyfer y Cymoedd. Yr oedd y tr n y teithiodd Richard Edwards a minnau arno ddoe wedi elwa o ran capaciti ar gronfa bartneriaeth teithwyr rheilffordd yr Awdurdod Rheilffyrdd Strategol. Mae trafodaethau ar wella gwasanaethau yn mynd rhagddynt rhwng consortiw SWIFT o awdurdodau lleol ac awdurdodau a gweithredwyr lleol eraill. Credaf mai dyma'r ffordd ymlaen ar gyfer y Cymoedd, a datganwyd y farn honno'n glir gan awdurdodau'r Cymoedd ac eraill sy'n gysylltiedig â hyn.

**Jonathan Morgan:** Un cynnig cyffrous gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd yw datblygiad y rhwydwaith rheilffordd o fewn Caerdydd—hynny yw, cysylltu rhwydweithiau ar ochrau dwyreiniol a gorllewinol y ddinas. A fydd y Gweinidog yn ymuno â mi wrth longyfarch yr awdurdod ar ymhel a'r cynnig hwn a'i annog i weithredu'r cynigion cyn gynted â phosibl?

**Sue Essex:** Yr wyf yn falch bod Jonathan yn cydnabod bod y cyngor sir yn ymhel â pholisi datblygu trafnidiaeth integredig. Mae'r cyngor wedi cydnabod bod angen iddo wella coridorau trafnidiaeth ar ddwy ochr y ddinas. Fodd bynnag, nid y cyngor na'r Cynulliad yw'r awdurdodau pwysicaf o ran rheilffyrdd. Yn y pen draw, mae pa un a weithredir y systemau yn dibynnu ar y perchnogion a'r cwmniau trenau. Fodd bynnag, mae hyn yn cyfleu neges bwysig. Mae awdurdodau lleol eraill ledled Cymru yn ymhel â chynigion tebyg. Un engraifft bwysig yw Cyngor Bro Morgannwg, sy'n cydnabod mai gwasanaethau rheilffyrdd gwell yw'r ffordd

improved rail services. I look forward to seeing the Vale of Glamorgan passenger line opening within two years.

ymlaen. Edrychaf ymlaen at weld llinell reilffordd i deithwyr Bro Morgannwg yn agor ymhen dwy flynedd.

## **Datganiad ar Fuddsoddi drwy Bartneriaethau yng Nghymru** **Statement on Investment through Partnerships in Wales**

**The Minister for Finance, Local Government and Communities (Edwina Hart):** In the summer of 2000, I invited representatives from both the public and private sectors to contribute to a consultation on the development of public private partnerships and the private finance initiative in Wales. The consultation period ended on 27 July 2001 and I am pleased to report its conclusions to the Assembly. This builds on my statement to Members on 5 December 2000.

The views of the consultees varied, with a range of different perspectives; but a number of common themes emerged. All respondents made positive and helpful comments on how the Assembly should develop and support the operation of PPP and PFI projects in Wales.

The defining feature of the arrangements that we are considering is that the private sector agrees to invest in, and then retain, ownership of a facility that is used for the provision of a public service.

A few respondents remain opposed to any such arrangements as a matter of principle. I have considered these responses but conclude that the Assembly Government should not forsake all such arrangements on that basis. This conclusion is based on the two following propositions.

First, insofar as the rest of the United Kingdom finances part of its investment in public services through PFI and therefore from outside the public expenditure block allocated to the Assembly, we must either mirror this form of investment or accept that Wales will have a lower level of investment.

**Y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chysylltiadau (Edwina Hart):** Yn ystod haf 2000, gwahoddais gynrychiolwyr o'r sectorau cyhoeddus a phreifat i gyfrannu mewn ymgynghoriad ar ddatblygu partneriaethau cyhoeddus preifat a'r fenter cyllid preifat (PFI) yng Nghymru. Daeth y cyfnod ymgynghori i ben ar 27 Gorffennaf 2001 ac mae'n bleser gennyf gyflwyno adroddiad ar ei gasgliadau i'r Cynulliad. Mae hyn yn ychwanegu at fy natganiad i'r Aelodau ar 5 Rhagfyr 2000.

Yr oedd sylwadau'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy'n amrywio, a chafwyd amrywiaeth eang o wahanol safbwytiau; ond daeth nifer o themâu cyffredin i'r amlwg. Gwnaeth pob ymatebydd sylwadau cadarnhaol a defnyddiol ar sut y dylai'r Cynulliad ddatblygu a chefnogi'r gwaith o weithredu prosiectau partneriaeth cyhoeddus-preifat a PFI yng Nghymru.

Prif nodwedd y trefniadau a ystyri gennym yw bod y sector preifat yn cytuno i fuddsoddi mewn cyfleuster a ddefnyddir i ddarparu gwasanaeth cyhoeddus a chadw perchenogaeth drosto.

Mae rhai o'r ymatebwyr yn anghytuno o hyd ag unrhyw drefniant o'r fath fel mater o egwyddor. Yr wyf wedi ystyried yr ymatebion hyn ond yr wyf o'r farn na ddylai Llywodraeth y Cynulliad anwybyddu pob trefniant o'r fath ar y sail honno. Mae'r casgliad hwn yn seiliedig ar y ddau gynnig canlynol.

Yn gyntaf, gan fod gweddill y Deyrnas Unedig yn ariannu rhan o'i buddsoddiad mewn gwasanaethau cyhoeddus drwy PFI ac felly y tu allan i'r bloc gwariant cyhoeddus a ddyrannwyd i'r Cynulliad, rhaid inni naill ai ddilyn y math hwn o fuddsoddiad neu dderbyn y bydd gan Gymru lefel is o fuddsoddiad.

Secondly, where cases remain in which the private sector has particular experience and skills in the development and management of capital assets, we should develop close partnerships with business in order to use those skills in serving the public.

Most respondents recognised the need to take advantage of these arrangements on a pragmatic basis.

In developing the Government's response to the consultation, I wish to put before the Assembly the following principles for our employment of PPP and PFI. All such arrangements should be governed by the public interest in the quality of public services; the relationship with the private sector should be based on partnerships which improve services rather than arrangements to access finance only; the interests of employees should at least be maintained; and the partnerships between people who work together to serve the public should be enhanced rather than diminished. I am looking for a way forward which combines such principles with pragmatism. In developing this 'Welsh way', I have given specific consideration to the process of creating effective partnerships, employment issues, and the development of a strategic framework across Wales.

I will start with the concerns surrounding the bureaucracy of PFI, which has undoubtedly caused frustration, delay and unnecessary cost. The relatively small scale of Wales should allow the development of a close and effective relationship between Assembly staff, those working in other public sector organisations, and those who work in business. While this helps, there are still issues to address, and procedures to improve.

The complexity of the capital finance regulations in local government is viewed as a hurdle in the procurement process. A review group is already considering simplifying the regulations where possible in advance of any proposals to move to a prudential borrowing system, of which we are all supportive.

Yn ail, pan fo achosion lle mae gan y sector preifat brofiad a sgiliau penodol wrth ddatblygu a rheoli asedion cyfalaf, dylem ddatblygu partneriaethau agos gyda busnes er mwyn defnyddio'r sgiliau hynny wrth wasanaethu'r cyhoedd.

Cydnabu'r rhan fwyaf o'r ymatebwyr yr angen i fanteisio ar y trefniadau hynny ar sail pragmatig.

Wrth ddatblygu ymateb y Llywodraeth i'r ymgynghoriad, hoffwn gyflwyno'r egwyddorion canlynol gerbron y Cynulliad ar gyfer defnyddio partneriaeth cyhoeddus-preifat a PFI. Dylid rheoli pob trefniant o'r fath yn ôl budd y cyhoedd yn ansawdd y gwasanaethau cyhoeddus; dylai'r berthynas gyda'r sector preifat fod yn seiliedig ar bartneriaethau sy'n gwella gwasanaethau yn hytrach na threfniadau i sicrhau arian yn unig; dylid cynnal buddiannau cyflogeon o leiaf; a dylid gwella'r bartneriaeth rhwng pobl sy'n cydweithio â'i gilydd i wasanaethu'r cyhoedd yn hytrach na'i gwanhau. Yr wyf yn chwilio am ffordd ymlaen sy'n cyfuno egwyddorion o'r fath gyda phragmatiaeth. Wrth ddatblygu'r 'ffordd Gymreig' hon, rhoddais ystyriaeth benodol i'r broses o greu partneriaethau effeithiol, materion cyflogaeth a datblygu fframwaith strategol ledled Cymru.

Dechreuaf drwy sôn am y pryderon sy'n gysylltiedig â biwrocraciaeth PFI, sy'n bendant wedi achosi rhwystredigaeth, oedi a chost ddiangen. Dylai graddfa gymharol fach Cymru alluogi i berthynas agos ac effeithiol ddatblygu rhwng staff y Cynulliad, y rhai sy'n gweithio mewn sefydliadau sector cyhoeddus eraill, a'r rhai sy'n gweithio ym myd busnes. Tra bydd hyn yn helpu, bydd materion eraill i'w trafod o hyd, a gweithdrefnau i'w gwella.

Mae natur gymhleth rheoliadau cyllid cyfalaf mewn llywodraeth leol yn cael ei ystyried yn rhwystr yn y broses gaffael. Mae grŵp adolygu eisoes yn ystyried symleiddio'r rheoliadau lle y bo'n bosibl cyn gwneud unrhyw gynigion er mwyn symud ymlaen i system fenthyg ddarbolus, yr ydym oll yn ei chefnogi.

We will continue to work with other bodies who have developed, and who are developing, a standard framework and contract documentation for effectively managing PFI procurement. Increased analysis of project information and further clarification is needed on the potential source of funds for projects.

The National Assembly's private finance unit website is now live, and provides information about existing projects in Wales, as well as useful links to other websites, Assembly papers, and a number of frequently asked questions. I also intend to improve the co-ordination of resources within the Assembly devoted to PPP and PFI, to provide an improved service to customers.

Nevertheless, however we improve the procedures, there is an inevitable bureaucratic cost implicit in the construction of these partnerships. Therefore, I am inclined to find ways of funding smaller capital projects through conventional means and developing the necessary partnerships for private finance where the scale of the project is substantial.

Scale will be a criterion in considering the private finance option; but not the sole criterion. There will always be capital projects of varying scale which are essential in serving the needs of the public; but which are unattractive to private investors. If the private sector has a particular contribution to make in a relatively small project we will not fail to consider the merit of private finance. PFI has always been a small but important part of public sector capital investment, and this will remain the case. We must continue to be prepared to finance a large part of our capital investment through conventional means.

Much has been made of my recent announcement to finance two new community hospitals through conventional means. The significance of those announcements is that I continue to take a flexible and pragmatic approach to capital finance in which public investment will

Byddwn yn parhau i weithio gyda chyrrff eraill sydd wedi datblygu, ac sydd wrthi yn datblygu, fframwaith safonol a dogfennaeth gontactio ar gyfer rheoli proses gaffael PFI yn effeithiol. Mae angen dadansoddi gwybodaeth prosiect ymhellach ac mae angen mwy o eglurhad ar y ffynonellau ariannu posibl ar gyfer prosiectau.

Mae gwefan uned gyllid breifat y Cynulliad Cenedlaethol yn weithredol erbyn hyn, ac mae'n darparu gwybodaeth am brosiectau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru, yn ogystal â chysylltiadau defnyddiol â gwefannau eraill, papurau'r Cynulliad, a nifer o gwestiynau a ofynnir yn aml. Bwriadaf hefyd wella'r broses o gydgysylltu adnoddau o fewn y Cynulliad sy'n ymrwymedig i bartneriaeth cyhoeddus-preifat a PFI, er mwyn darparu gwasanaeth gwell i gwsmeriaid.

Er hynny, pa fod bynnag y gwellwn y gweithdrefnau, bydd cost fiwrocrataidd anochel ynglwm wrth y broses o adeiladu'r partneriaethau hyn. Felly, yr wyf yn dueddol o chwilio am ffyrdd eraill o ariannu prosiectau cyfalaf bach drwy ddulliau confensiynol a datblygu'r partneriaethau angenrheidiol ar gyfer cyllid preifat pan fo'r prosiect yn un sylweddol.

Bydd maint yn faen prawf wrth ystyried yr opsiwn cyllid preifat; ond nid dyna fydd yr unig faen prawf. Bydd yna brosiectau cyfalaf o wahanol faint bob amser sy'n hanfodol wrth wasanaethu anghenion y cyhoedd; ond nad ydynt yn ddeniadol i fuddsoddwyr preifat. Os oes gan y sector preifat gyfraniad arbennig i'w wneud mewn prosiect cymharol fach ni fyddwn yn peidio ag ystyried gwerth cyllid preifat. Mae PFI wedi bod yn rhan fach ond pwysig o fuddsoddiad cyfalaf y sector cyhoeddus erioed, a bydd hynny'n parhau. Rhaid inni barhau i fod yn barod i ariannu rhan fawr o'n buddsoddiad cyfalaf drwy ddulliau confensiynol.

Rhoddyd sylw mawr i'm cyhoeddiad diweddar i ariannu dau ysbyty cymunedol newydd drwy ddulliau confensiynol. Arwyddocâd y cyhoeddiadau hynny yw fy mod yn parhau i fabwysiadu ymagwedd hyblyg a phragmatig tuag at gyllid cyfalaf lle bydd buddsoddiad cyhoeddus yn parhau i fod

continue to be a prominent feature. These two important hospitals proved to be more conducive to conventional rather than private finance for reasons of location, land values and scale. They are illustrations of why we must retain our capacity for public finance. Nevertheless, there will be other projects, sometimes large-scale, when private finance will be appropriate. We must continue to combine principles with pragmatism.

Staff transfer issues rightly continue to be prominent in discussions surrounding PPP and PFI. I have been keen to listen to concerns expressed by the trade unions in this consultation process. The Assembly does not intend to privatise public services; rather, it seeks to deliver those services by the most efficient and effective means available under the direction of the relevant public body. The public sector will continue—as always—to work in partnership with the private sector. We aim to maintain the public sector ethos, which we value, in all public services. It should be recognised that the work of most public sector staff is related to the provision of a service rather than the management of a facility. In most cases of private finance the question of the transfer of staff from public sector employment does not arise.

As previously announced, we would not expect clinical, professional, or front-line staff, such as doctors, nurses and teachers to transfer to the private sector as part of any PPP or PFI project in Wales. I want to ensure that the concept of the clinical team in this context is not defined by status. We will aim to redefine that which makes up the clinical team so that staff such as porters, cooks, and cleaners would not transfer to private sector employment but would remain employees of the national health service. Where the transfer of staff is considered, the criteria will be whether it adds to the quality of the service to be provided. The law requires that any staff transferred as a result of a PFI or PPP scheme, do so on their existing terms and conditions. However, in the partnerships that I wish to see developed in Wales, I will be looking for more in the way of enhancing

yn nodwedd amlwg. Mae'r ddau ysbyty pwysig hyn wedi ffafrio dulliau ariannu confensiynol yn hytrach na phreifat am resymau lleoliad, gwerth tir a maint. Maent yn dangos pam bod yn rhaid inni gadw ein capaciti ar gyfer arian cyhoeddus. Er hynny, bydd prosiectau eraill, ar raddfa fwy weithiau, pan fydd cyllid preifat yn briodol ar eu cyfer. Rhaid inni barhau i gyfuno egwyddorion gyda phragmatiaeth.

Mae materion trosglwyddo staff yn parhau i fod yn bwnc amlwg mewn trafodaethau ar bartneriaeth cyhoeddus-preifat a PFI. Bûm yn awyddus i glywed pryderon a fynegwyd gan yr undebau llafur yn y broses ymgynghori hon. Nid yw'r Cynulliad yn bwriadu preifateiddio gwasanaethau cyhoeddus; yn hytrach, ceisia gyflwyno'r gwasanaethau hynny yn y ffordd fwyaf effeithlon ac effeithiol sydd ar gael o dan gyfarwyddyd y corff cyhoeddus perthnasol. Bydd y sector preifat yn parhau—fel bob amser—i weithio mewn partneriaeth â'r sector preifat. Anelwn at gynnal ethos y sector cyhoeddus, sy'n werthfawr inni, ym mhob gwasanaeth cyhoeddus. Dylid cydnabod bod gwaith y rhan fwyaf o staff y sector cyhoeddus yn ymwneud â darparu gwasanaeth yn hytrach na rheoli cyfleuster. Yn y rhan fwyaf o achosion o gyllid preifat, nid yw'r cwestiwn o drosglwyddo staff o gyflogaeth gyda'r sector cyhoeddus yn codi.

Fel y cyhoeddwyd yn flaenorol, ni fyddem yn disgwyl i staff arbenigol, proffesiynol, na staff rheng flaen, fel meddygon, nyrssy ac athrawon drosglwyddo i'r sector preifat fel rhan o unrhyw brosiect partneriaeth cyhoeddus-preifat neu PFI yng Nghymru. Yr wyf am sicrhau na chaiff y cysniad o dîm clinigol ei ddiffinio yn ôl statws yn y cyddestun hwn. Anelwn at ail-ddiffinio'r hyn sy'n gwneud tîm clinigol er mwyn sicrhau nad yw staff fel porthorion, cogyddion a glanhawyr yn trosglwyddo i gyflogaeth gyda'r sector preifat ond yn parhau i fod yn gyflogaeth y gwasanaeth iechyd gwladol. Pan fo angen ystyried trosglwyddo staff, y meini prawf fydd gweld a yw'n ychwanegu gwerth at ansawdd y gwasanaeth i'w ddarparu. Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol i staff, pan gât eu trosglwyddo o ganlyniad i gynllun PFI neu bartneriaethau cyhoeddus-

the opportunities for, and development of, staff who may be transferred than that of baseline. Finally, on the matter of staff transfer, I stress that we cannot redefine contracts that are already in place. Our objective is to ensure that existing arrangements continue to serve the public well.

preifat, wneud hynny ar eu telerau a'u hamodau cyfredol. Fodd bynnag, yn y partneriaethau y dymunwn eu datblygu yng Nghymru, byddaf yn chwilio am ffordd a fyddai'n gwella cyfleoedd a datblygiad staff a allai gael eu trosglwyddo yn hytrach na gwaelodlin. Yn olaf, ar fater trosglwyddo staff, pwysleisiaf na allwn ail-ddiffinio contractau sydd eisoes mewn grym. Ein hamcan yw sicrhau bod trefniadau sy'n bodoli eisoes yn parhau i wasanaethu'r cyhoedd yn dda.

9:55 a.m.

It is evident in the responses received that PPP and PFI projects need to be seen as part of a strategic framework for investment in Wales. These arrangements fall into disrepute when they are seen as an ad hoc response to lack of capital finance. A strategic framework will ensure level playing fields throughout the public sector. This will take time to achieve. We will build upon the asset management plans now being prepared across the public sector in Wales. On this basis, the Government intends to develop a capital investment strategy to inform decisions throughout the public sector. Public bodies that anticipate using PPP and PFI have expressed a demand for a predictable framework which allows them to plan for the long term. The private sector has an equivalent need for some understanding of the likely flow of projects over a period of time.

Mae'n amlwg yn yr ymatebion a dderbyniwyd bod angen i brosiectau partneriaeth cyhoeddus-preifat a PFI gael eu hystyried yn rhan o fframwaith strategol ar gyfer buddsoddiad yng Nghymru. Bydd y trefniadau hyn yn colli bri pan gânt eu hystyried fel ymateb ad hoc i brinder cyllid cyfalaf. Bydd fframwaith strategol yn sicrhau amodau tebyg i bawb drwy'r sector cyhoeddus. Bydd angen amser i gyflawni hyn. Adeiladwn ar y cynlluniau rheoli asedion sy'n cael eu paratoi ar hyn o bryd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru. Ar y sail honno, mae'r Llywodraeth yn bwriadu datblygu strategaeth buddsoddi cyfalaf i lywio penderfyniadau drwy'r sector cyhoeddus. Mae cyrff cyhoeddus sy'n rhagweld y byddant yn defnyddio partneriaeth cyhoeddus-preifat a PFI eisoes wedi galw am fframwaith rhagweladwy sy'n eu galluogi i gynllunio ar gyfer yr hirdymor. Mae gan y sector preifat angen tebyg o ran deall y llif tebygol o brosiectau dros gyfnod o amser.

Within the strategic framework we will continue to give consideration to the potential for projects which might cross over different services, different organisations and different geographical areas. Such projects are a feature of the joined-up government to which we aspire. Nevertheless, they are complex and we should not predict that they will become commonplace. As previously indicated, I anticipate that future use of PFI will normally be for relatively large projects, in the national health service or local government, where concern for public interest can be matched with a need for commercial viability. Within the proposed

O fewn y fframwaith strategol byddwn yn parhau i roi ystyriaeth i bosibiliadau prosiectau sy'n croesi ar draws gwahanol wasanaethau, gwahanol sefydliadau a gwahanol ardaloedd daearyddol. Mae prosiectau o'r fath yn nodwedd o lywodraeth gydgysylltiedig yr ydym oll yn anelu at ei chyflawni. Er hynny, maent yn gymhleth ac ni ddylem ragweld y dônt yn gyffredin. Fel y nodwyd eisoes, rhagwelaf y defnyddir PFI yn y dyfodol fel rhan o brosiectau cymharol fawr, yn y gwasanaeth iechyd gwladol neu mewn llywodraeth leol, pan fo'n bosibl cyfateb pryder am fudd y cyhoedd at angen am ymarferoldeb masnachol. O fewn y

strategic framework, we need to develop the means by which these projects can be identified. With the Minister for Health and Social Services, and the Welsh Local Government Association, I will consider how this can be achieved.

I thank those organisations in the public and private sectors, and the individuals, who took time to contribute to this process. I look forward to developing the Assembly's relationship with all parties in order to achieve our common goals for Wales.

To conclude, the time has come to give a distinctive identity to PPP and PFI, to reflect the responses to this consultation. Our approach in Wales is about investing through partnership, and it needs to be given a Welsh perspective. Therefore, in the future, PPP and PFI will be investment through partnership in Wales.

**Janet Ryder:** Thank you, Minister, for outlining, at last, the Welsh direction in terms of financing capital works in Wales. As you have made clear, you are looking for a combination of small-scale conventional financing and PFI to finance large-scale investments.

In your statement, you said that you are still looking for a way forward which combines the principles that you have outlined. Will you tell us what timescale you are setting for that? Will it form the bidding guidance for future rounds? When you have put all that information together in coherent PFI strategy guidance for Wales, will you allow a debate on the issue, rather than a statement?

To return to the use of large-scale PFI projects, will you outline what you mean by large-scale? What is the difference between small-scale and large-scale? We have learned from the use of PFI in Scotland, particularly in the health sector, that it has led to downsizing. That is not what the health service needs at present. At a time when the health service needs more beds, more doctors and more nurses, downsizing is not the answer. Therefore, if we are to offer PFI on a

ffframwaith strategol a gynigir, mae angen inni ddatblygu ffordd o nodi'r prosiectau hyn. Byddaf yn ystyried sut y gellir cyflawni hyn gyda'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cyhoeddus a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru.

Diolchaf i'r sefydliadau hynny yn y sectorau cyhoeddus a phreifat, a'r unigolion, a roddodd o'u hamser i gyfrannu i'r broses hon. Edrychaf ymlaen at ddatblygu perthynas y Cynulliad gyda phob plaid er mwyn cyflawni ein nodau cyffredin ar gyfer Cymru.

I gloi, mae'n amser inni roi hunaniaeth benodol i bartneriaeth cyhoeddus-preifat a PFI, i adlewyrchu'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Mae a wnelo ein hymagwedd yng Nghymru â buddsoddi drwy bartneriaeth, ac mae angen rhoi safbwyt Gymreig iddi. Felly, yn y dyfodol, buddsoddir partneriaeth cyhoeddus-preifat a PFI drwy bartneriaeth yng Nghymru.

**Janet Ryder:** Diolch ichi, Weinidog, am amlinellu, o'r diwedd, gyfeiriad Cymru yn nhermau arian cyfalaf yng Nghymru. Fel yr esboniwyd gennych, yr ydych yn chwilio am gyfuniad o arian confensiynol ar raddfa fach a PFI i ariannu buddsodiadau ar raddfa fawr.

Yn eich datganiad, dywedasoch eich bod yn parhau i chwilio am ffordd ymlaen sy'n cyfuno'r egwyddorion a bwysleisiwyd gennych. A ddywedwch wrthym pa amserlen a bennwyd gennych ar gyfer hynny? A fydd yn llunio canllawiau ar gyfer gwneud cais yn rowndiau'r dyfodol? Pan fyddwch wedi casglu'r holl wybodaeth hon mewn canllawiau strategaeth PFI cydlynol ar gyfer Cymru, a ganiatewch inni gynnal dadl ar y mater, yn hytrach na datganiad?

Gan droi unwaith eto at y defnydd o brosiectau PFI ar raddfa fawr, a wnewch chi amlinellu beth yw eich diffiniad o raddfa fawr? Beth yw'r gwahaniaeth rhwng graddfa fach a graddfa fawr? Yr ydym wedi dysgu o'r defnydd a wneir o PFI yn yr Alban, yn arbennig yn y sector iechyd, fod hyn wedi arwain at gwtogi. Nid dyna sydd ei angen ar y gwasanaeth iechyd ar hyn o bryd. Ar adeg pan fo angen mwy o welyau, mwy o feddygon a mwy o nyrsys ar y gwasanaeth

large scale in the health service, it is important that we know exactly what you mean by that.

In addition, if we are going to use PFI, it effectively means that, in order to pay for the projects, we will be ring-fencing ever increasing proportions of public revenue in payments guaranteed to private corporations for decades to come. Do you agree that there is no fiscal or economic case for the use of PFI and PPP? That comes through in your statement. I do not think that you are personally happy with the use of PFI, and perhaps you are being forced into it. Your statement suggests that the Treasury in London is forcing people down a path that they do not want to follow and which is not part of any policy. What arguments and discussions have you had with your colleagues in Westminster about this?

I welcome the statement's reference to developing a prudential borrowing requirement and giving councils the ability to finance their own building work. I know that you are aware that councils are asking when you will start the bidding rounds. You have not made that announcement. You have said that you will use PFI, but will you tell us when you will announce another bidding round to allow councils to apply?

On public services, I am sure that you are aware that no country has ever delivered universal services on the back of for-profit providers. It has been done through the public sector. Your statement makes it clear that you expect services to be offered under the control of the public sector. Will you confirm whether that means that your Government is committed to the continuation and development of public services delivered by public bodies?

**Edwina Hart:** Your last statement is extraordinary. We are committed to public services. It was socialist governments that ensured the existence of public services throughout the country. You must recognise that this has been a genuine consultation

iechyd, nid cwtogi yw'r ateb. Felly, os ydym am gynnig PFI ar raddfa fawr yn y gwasanaeth iechyd, mae'n bwysig ein bod yn gwybod yn union beth yw ystyr hynny.

Yn ogystal, os ydym am ddefnyddio PFI, mae'n golygu mewn gwirionedd, y byddwn, er mwyn talu am y prosiectau, yn clustnodi cyfrannau cynyddol o refeniw cyhoeddus mewn taliadau wedi'u gwarantu i gorfforaethau preifat am ddegawdau i ddod. A gytunwch nad oes achos ariannol nac economaidd dros ddefnyddio PFI a phartneriaeth cyhoeddus-preifat? Daw hynny i'r amlwg yn eich datganiad. Ni chredaf eich bod yn fodlon yn bersonol ar y defnydd o PFI, ac efallai y cewch eich gorfodi i wneud hynny. Awgryma eich datganiad fod y Trysorlys yn Llundain yn gorfodi pobl i ddilyn llwybr nad ydynt am ei ddilyn ac nad yw'n rhan o unrhyw bolisi. Pa ddadleuon a thrafodaethau a gawsoch gyda'ch cyd-Aelodau yn San Steffan parthed hyn?

Croesawaf y cyfeiriad yn y datganiad at ddatblygu gofyniad benthyca darbodus a rhoi'r gallu i gynghorau ariannu eu gwaith adeiladu eu hunain. Gwn eich bod yn ymwybodol fod cynghorau'n gofyn pryd y byddwch yn dechrau'r rowndiau gwneud cais. Ni wnaethoch y cyhoeddiad hwnnw. Dywedasoch y byddwch yn defnyddio PFI, ond a ddywedwch wrthym pryd y byddwch yn cyhoeddi rownd gwneud cais arall er mwyn galluogi cynghorau i wneud cais?

O ran gwasanaethau cyhoeddus, yr wyf yn siŵr eich bod yn ymwybodol nad oes yr un wlad erioed wedi cyflwyno gwasanaethau cyffredinol ar gefn darparwyr er mwyn elw. Gwnaed hynny drwy'r sector cyhoeddus. Mae eich datganiad yn esbonio'n glir eich bod yn disgwyl i wasanaethau gael eu cynnig o dan reolaeth y sector preifat. A wnewch chi gadarnhau a yw hynny'n golygu bod eich Llywodraeth yn ymrwymedig i'r broses o barhau a datblygu gwasanaethau cyhoeddus a gyflwynir gan gyrrf cyhoeddus?

**Edwina Hart:** Mae eich datganiad diwethaf yn anhygoel. Yr ydym yn ymrwymedig i wasanaethau cyhoeddus. Y llywodraethau sosialaidd a sicrhodd fodolaeth gwasanaethau cyhoeddus drwy'r wlad gyfan. Rhaid ichi gydnabod y bu hon yn broses

process. You say that no-one wants PFI. That is not the case. PFI has been welcomed into innovative projects in Scotland, England and certainly in Wales. Projects such as dualling the A55 and the Chepstow community hospital are examples of where PFI has worked in Wales.

I have indicated that I will discuss future bidding rounds for PFI credits and the range of projects that might qualify with the Welsh Local Government Association in the future. I will start that process in the new year. It is important that, in terms of PFI credit bidding rounds, I have early discussions with local government about the type of projects it envisages will be encompassed and what funds will be needed. As I have outlined today, PFI is not privatisation by the backdoor. It is about reallocating tasks to sectors that are best able to deliver them. There will be an increasing emphasis, as I have indicated, on partnership, and I envisage that privately financed schemes will continue to be needed where there are clear and demonstrable advantages for public benefit. This is a pragmatic approach. The financing of projects through PFI is only undertaken if PFI can demonstrate value-for-money savings against the public sector comparator. The public sector comparator is revisited throughout the procurement process to ensure continued value for money.

On the point about the Treasury, we must abide by the Treasury's definition of public expenditure. PFI projects must be off-balance sheet for the public sector or they would be classed as capital expenditure, and provision would then need to be found from within the Assembly's budget. That is the reality and why I have made this policy statement today, indicating the direction in which we are moving. I would welcome any future debate on this issue, if Members so wish, and I will raise this point with the Minister for Assembly Business when we have concluded the details of the partnership arrangement.

**Christine Chapman:** On staff transfers, I welcome your commitment to include ancillary staff in the notion of a clinical team. This is an excellent move because staff,

ymgynggori ddilys. Dywedasoch nad oes unrhyw un eisiau PFI. Nid yw hynny'n wir. Croesawyd PFI mewn prosiectau arloesol yn yr Alban, yn Lloegr ac yn sicr yng Nghymru. Mae prosiectau fel gwneud yr A55 yn ffordd ddeuol ac ysbyty cymunedol Cas-gwent yn engriffiatau o PFI yn llwyddo yng Nghymru.

Dywais y byddwn yn trafod rowndiau gwneud cais yn y dyfodol ar gyfer credydau PFI a'r amrywiaeth o brosiectau a allai fod yn gymwys gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol. Dechreuaf y broses honno y flwyddyn nesaf. Mae'n bwysig, yn nhermau rowndiau gwneud cais credyd PFI, fy mod yn cynnal trafodaethau cynnar gyda llywodraeth leol ar y math o brosiectau y maent yn rhagweld a gwmpesir a faint o arian fydd ei angen. Fel yr amlinellais heddiw, nid yw PFI yn ffordd o breifateiddio drwy'r drws cefn. Mae a wnelo ag ail-ddyrannu tasgau i sectorau sydd yn y sefyllfa orau i'w cyflwyno. Bydd pwyslais cynyddol, fel y dywais, ar bartneriaeth, a rhagwelaf y bydd cynlluniau a ariennir yn breifat yn angenrheidiol lle bynnag y bydd manteision clir ac amlwg y byddant yn fanteisiol i'r cyhoedd. Mae hon yn ymagwedd bragmatig. Dim ond os gall PFI arddangos arbedion gwerth am arian yn erbyn cymharydd sector preifat yr ariennir prosiectau drwy PFI. Ailystyrrir y cymharydd sector preifat trwy gydol y broses gaffael er mwyn sicrhau gwerth am arian parhaus.

O ran y pwynt am y Trysorlys, rhaid inni ddilyn diffiniad y Trysorlys o wariant cyhoeddus. Rhaid i brosiectau PFI fod oddi ar y fantolen ar gyfer y sector cyhoeddus neu fe'u dosberthir fel gwariant cyfalaf, a byddai angen canfod darpariaeth o fewn cyllideb y Cynulliad. Dyna yw'r sefyllfa a pham y gwneuthum y datganiad polisi hwn heddiw, yn nodi i ba gyfeiriad yr ydym yn symud. Croesawaf unrhyw ddadl yn y dyfodol ar y mater hwn, os bydd yr Aelodau'n dymuno hynny, a chodaf y pwynt hwn gyda'r Trefnydd pan fyddwn wedi cwblhau manylion y trefniant partneriaeth.

**Christine Chapman:** O ran trosglwyddo staff, croesawaf eich ymrwymiad i gynnwys staff ategol yn y syniad o dŵm clinigol. Mae hwn yn syniad gwych oherwydd gallai staff,

understandably, may feel demotivated if they believe that their roles are undervalued. If we are to build a first-class NHS in Wales, we need committed, enthusiastic staff. I also welcome the fact that you have involved the trade unions in the consultation process. Will you give an assurance that you will continue to keep these lines of communication open, so that the trade unions' stated commitment to quality improvement and innovation in public services can be maximised?

**Edwina Hart:** I will meet the Wales Trades Union Congress this afternoon to discuss PFI and partnership arrangements. I am pleased with what we are doing in terms of staff. We must recognise that public sector staff are crucial to the delivery of services. You have the administration's assurance that we will be keeping in close contact with the trade unions regarding many of these emerging issues. In Wales, the union line is sometimes slightly different to that seen in England. UNISON has reached an agreement in England with Alan Milburn, the Secretary of State for Health, on some PFI projects; examples, such as Queen Mary's Hospital in Roehampton have provided another way forward. In Wales, however, I am committed to what I have said in my statement today.

10:05 a.m.

**Alun Cairns:** I am grateful to the Minister for her statement, the central theme of which is pragmatism. That would be welcomed. The Minister is in a difficult position in that she is prepared to be pragmatic in line with the UK Government's policy, but this must conflict with the ideological approaches taken by so many of her ministerial colleagues, particularly those in the big-spending departments of health and education. Will the Minister confirm where her ministerial colleagues stand, particularly on these points? Are they happy with adopting PFI in their departments, and are they comfortable with her statement? Perhaps the Minister for Education and Lifelong Learning is absent because she cannot face the statement made by the Minister for Finance, Local Government and Communities on the private

yn ddealladwy, deimlo diffyg cymhelliant os nad ydynt yn credu bod eu rolau'n cael eu gwerthfawrogi. Os ydym am greu NHS o'r radd flaenaf yng Nghymru, mae angen staff ymrwymedig a brwd frydig arnom. Croesawaf hefyd y ffaith eich bod wedi cynnwys yr undebau llafur yn y broses ymgynghori. A roddwch sicrwydd y byddwch yn parhau i gadw'r llinellau cyfathrebu hyn yn agored, fel y gellir manteisio i'r eithaf ar ymrwymiad undebau llafur i wella ansawdd ac arloesedd yn y gwasanaethau cyhoeddus?

**Edwina Hart:** Byddaf yn cwrdd â Chynghrair Undebau Llafur Cymru y prynhawn yma i drafod PFI a'r trefniadau partneriaeth. Yr wyf yn fodlon ar yr hyn a wnaeon o ran staff. Rhaid inni gydnabod bod staff y sector cyhoeddus yn hanfodol i'r broses o gyflwyno gwasanaethau. Mae gennych sicrwydd y weinyddiaeth y byddwn yn cadw mewn cysylltiad agos ag undebau llafur o ran y materion hyn a ddaw i'r amlwg. Yng Nghymru, mae safbwyt yr undebau ychydig yn wahanol weithiau i'r un yn Lloegr. Mae UNSAIN wedi sicrhau cytundeb yn Lloegr gydag Alan Milburn, y Gweinidog Gwladol dros Iechyd, ar rai prosiectau PFI; mae engrifftiau, fel Ysbyty'r Frenhines Mary yn Roehampton wedi darparu ffordd arall ymlaen. Yng Nghymru, fodd bynnag, yr wyf yn ymrwymedig i'r hyn a ddywedais yn fy natganiad heddiw.

**Alun Cairns:** Yr wyf yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei datganiad, gyda phragmatiaeth yn thema ganolog iddo. Mae hynny i'w groesawu. Mae'r Gweinidog mewn sefyllfa anodd am ei bod yn barod i fod yn bragmatig yn unol â pholisi Llywodraeth y DU, ond rhaid bod hyn yn gwrthdaro â'r ymagweddau ideolegol a fabwysiedir gan lawer o'i chyd-Aelodau gweinidogol, yn arbennig y rhai yn yr adrannau â gwariant uchel, sef iechyd ac addysg. A wnaiff y Gweinidog gadarnhau safbwyt ei chyd-Aelodau gweinidogol, yn arbennig o ran y pwyntiau hyn? A ydynt yn fodlon mabwysiadu PFI yn eu hadrannau hwy, ac a ydynt yn gyfforddus gyda'i datganiad? Efallai fod y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn absennol am na all wynebu'r ffaith bod datganiad yn cael

finance initiative.

In relation to specific issues, the Minister mentioned that she wants to be pragmatic, but she also mentioned that PFI plays a small but important part in public service delivery. How is this being pragmatic? The Minister goes on to say that PFI will be used predominantly in large-scale projects, rather than being developed in small-scale projects. That does not correspond to the pragmatic approach mentioned in the Minister's statement. Should the objective not be to encourage investment—whether it be from the public or private sector—to improve our public services, rather than ruling out PFI for smaller-scale projects, and maintaining it for larger-scale initiatives only?

Much was made of the two new, conventionally-funded hospitals. Again, this does not demonstrate the pragmatism that the Minister for Finance, Local Government and Communities is prepared to show, but shows the ideological attitude of the Minister for Health and Social Services.

I welcome the statement made in relation to the complexities of the capital finance regulations, and look forward to the potential streamlining of this aspect of the regulations. Will the Minister reassure us that they will be open and transparent?

Furthermore, in terms of staff transfer, the Minister says that she plans to widen the objective of maintaining staff within the public sector. Again, this does not strike me as corresponding to the central theme of pragmatism that the Minister is seeking to present. Will she make the transfer option available if staff are offered better opportunities for career development in the private sector, and if this more effective in the enhancement of public services?

Finally, does the Minister feel undermined in any way by the dealings of the Secretary of

ei wneud gan y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar y fenter cyllid preifat.

O ran materion penodol, crybwylodd y Gweinidog ei bod am fod yn bramatig, ond soniodd hefyd fod PFI yn chwarae rhan fach ond pwysig yn y broses o gyflwyno gwasanaethau cyhoeddus. Ym mha ffordd y mae hynny'n bramatig? Aeth yn ei blaen i ddweud y defnyddir PFI mewn prosiectau ar raddfa fawr yn bennaf, yn hytrach na chael eu datblygu mewn prosiectau ar raddfa fach. Nid yw hynny'n cyfateb â'r ymagwedd bramatig a grybwylwyd yn natganiad y Gweinidog. Oni ddylai'r prif amcan ymwneud ag annog buddsoddiad—boed hynny gan y sector cyhoeddus neu breifat—i wella ein gwasanaethau cyhoeddus, yn hytrach na gwrrhod PFI ar gyfer prosiectau ar raddfa lai a'i chadw ar gyfer mentrau ar raddfa fwy yn unig?

Rhoddyd llawer o sylw i'r ddau ysbty newydd, a ariennir mewn ffordd gonfensiynol. Unwaith eto, nid yw hyn yn arddangos y bramatiaeth y mae'r Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yn barod i'w harddangos, ond mae yn dangos agwedd ideolegol y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Croesawaf y datganiad a wnaed mewn perthynas â natur gymhleth y rheoliadau cyllid cyfalaf ac edrychaf ymlaen at y posiblwrwydd o symleiddio'r agwedd hon ar y rheoliadau. A wnaiff y Gweinidog ein sicrhau y byddant yn agored a thryloyw?

At hynny, o ran trosglwyddo staff, dywedodd y Gweinidog ei bod yn bwriadu ehangu'r amcan o gadw staff o fewn y sector cyhoeddus. Eto, nid yw hyn yn ymddangos i mi fel rhywbeth sy'n cyfateb â'r thema ganolog o bramatiaeth y mae'r Gweinidog yn ceisio ei chyflwyno. A wnaiff sicrhau bod yr opsiwn trosglwyddo ar gael os cynigir cyfleoedd gwell i staff ddatblygu eu gyrfa yn y sector preifat, ac os bydd hynny'n fwy effeithiol o ran gwella gwasanaethau cyhoeddus?

Yn olaf, a yw'r Gweinidog yn credu ei bod wedi'i thanseilio mewn unrhyw ffordd gan

State for Transport, Local Government and the Regions with Railtrack, which has undermined private sector confidence in liaising with the administration?

Although the strategic framework is to be welcomed, when will the next bidding round—as Janet Ryder highlighted—be opened? Will you also set targets for private sector investment? If so, will you say specifically how much health and education should expect to gain from private sector investment to enhance public services for the people of Wales?

**Edwina Hart:** I am not minded to consider the target notions for private sector investment. As for being undermined by Stephen Byers, I always feel undermined by Railtrack when I am running late on the train service between Swansea and Cardiff. We must recognise that central Government's views on Railtrack correspond to the views of the ordinary public, who are desperate to improve the situation.

On the capital finance regulations, I welcome your comments. We must also take a pragmatic approach within this area, and there will be transparency in terms of when those regulations will apply—that is important. I am pragmatic and I want to take the dogma out of these discussions. That is why this statement is about partnership and recognising the views of the people who work in the public sector. The private sector's views about streamlining the situation with regard to PFI projects have been taken into account in my statement.

With regard to the Cabinet's position, this is a Cabinet statement. I assure you that all Ministers have signed up to it. The fact that I was able to announce the building of two new hospitals shows how pragmatic we are. When there is funding available, when there has been underspend and when there have been savings within budgets, we can fund capital projects that will benefit the whole of Wales. That is a pragmatic approach. There is logic throughout this statement on how we have

ymwneud y Gweinidog Gwladol dros Drafnidiaeth, Llywodraeth Leol a'r Rhanbarthau â Railtrack, sydd wedi tanseilio hyder y sector preifat o ran cysylltu â'r weinyddiaeth?

Er y dylid croesawu'r fframwaith strategol, pryd bydd y rownd gwneud cais nesaf—fel y pwysleisiodd Janet Ryder—yn agor? A wnewch chi hefyd bennu targedau ar gyfer buddsoddi yn y sector preifat? Os felly, a wnewch chi sôn yn benodol am faint y dylai'r adran iechyd ac addysg ddisgwyl ei gael o fuddsoddi yn y sector preifat er mwyn gwella gwasanaethau cyhoeddus ar gyfer pobl Cymru?

**Edwina Hart:** Nid yw'n fwriad gennystyried yr amcanion targed ar gyfer buddsoddi yn y sector preifat. O ran cael fy nhanseilio gan Stephen Byers, yr wyf bob amser yn teimlo fy mod wedi cael fy nhanseilio gan Railtrack pan fydd y trêñ yn hwyr rhwng Abertawe a Chaerdydd. Rhaid inni gydnabod bod safbwytiau'r Llywodraeth ganolog ar Railtrack yn cyfateb â safbwytiau'r aelodau cyffredin o'r cyhoedd, sydd yn awyddus iawn i weld y sefyllfa'n gwella.

O ran y rheoliadau arian cyfalaf, croesawaf eich sylwadau. Rhaid inni fabwysiadu ymagwedd bragmatig hefyd o fewn y maes hwn, a bydd trylwynder o ran pryd y bydd y rheoliadau hynny'n berthnasol—mae hynny'n bwysig. Yr wyf yn bragmatig ac yr wyf am ddileu'r dogma o'r trafodaethau hyn. Dyna pam mae'r datganiad hwn yn ymwneud â phartneriaeth a chydabod safbwytiau pobl sy'n gweithio yn y sector cyhoeddus. Yr wyf wedi ystyried safbwytiau'r sector preifat ar fater symleiddio'r sefyllfa o ran prosiectau PFI yn fy natganiad.

O ran safbwyt y Cabinet, mae hwn yn ddatganiad gan y Cabinet. Yr wyf am eich sicrhau bod pob Gweinidog yn cytuno ag ef. Mae'r ffaith imi allu cyhoeddi y byddai dau ysbty newydd yn cael eu hadeiladu yn dangos pa mor pragmatig yr ydym. Pan fo arian ar gael, pan fu tanwariant a lle bu arbedion o fewn cyllidebau, gallwn ariannu prosiectau cyfalaf a fydd yn fanteisiol i Gymru gyfan. Mae honno'n ymagwedd pragmatig. Ceir rhesymeg drwy gydol y

dealt with the private sector's concerns, the trade unions' concerns, political concerns and people's long-term concerns about the value-for-money from PFI 30 years from now. I must deal with that. When we talk about PFI, we must recognise, Alun, that there have been some small-scale projects, particularly in the health service. Equipment has been provided for the health service and it has not had to ask us for anything because it has been within delegated limit schemes. However, in terms of large and small scale, some of the big road projects will not be delivered by conventional means. We must consider PFI. The public and everybody else is signed up to considering that.

It is important to recognise that this is an ongoing process. I wish I could give more details of timescales, but I want to try to take all the parties along with me. I want the private sector to have the confidence to invest. I want all Assembly Members to be confident that we are developing a Welsh way, which is pragmatic and fair.

**Tom Middlehurst:** I welcome your fulsome recognition of staff's important contribution to the public sector in Wales. I also welcome your commitment to maintaining good employment practice and pay and conditions in any future delivery arrangement. Whatever misgivings there may be about the use of PFI and PPP in Wales, you are right not to close the option as that may disadvantage Wales. However, as a consequence of your public commitment this morning, will you ensure that early consultation will be an essential prerequisite in any formal process for any proposed PFI or PPP initiative in the public sector in Wales?

**Edwina Hart:** It is important that there is full consultation at an early stage. In the past, prior to the Assembly, there were too many discussions behind closed doors about how we would deliver some of these arrangements. Staff, particularly in the public sector, have been enormously concerned about that. We must have an open-book

datganiad hwn ar sut yr ydym wedi delio â phryderon y sector preifat, pryderon yr undebau llafur, pryderon gwleidyddol a phryderon hirdymor pobl ynglŷn â gwerth am arian o dan PFI ymheng 30 o flynyddoedd. Rhaid inni ddelio â hynny. Wrth drafod PFI, rhaid inni gydnabod, Alun, y gwelwyd rhywfaint o brosiectau ar raddfa fach, yn arbennig yn y gwasanaeth iechyd. Darparwyd offer ar gyfer y gwasanaeth iechyd ac nid yw wedi gofyn inni am unrhyw beth am ei fod wedi'i gyfyngu i gynlluniau a ddirprwywyd. Fodd bynnag, yn nhermau graddfa fawr a graddfa fach, ni chyflwynir rhai o'r projectau mawr drwy ddulliau confensiynol. Rhaid inni ystyried PFI. Addawodd y cyhoedd a phawb arall y byddent yn ystyried hynny.

Mae'n bwysig cydnabod mai proses barhaus yw hon. Byddwn yn hoffi gallu rhoi mwy o fanylion am yr amserlenni, ond yr wyf am sicrhau cefnogaeth pob plaid ar y mater hwn. Yr wyf am i'r sector preifat gael yr hyder i fuddsoddi. Yr wyf am i holl Aelodau'r Cynulliad fod yn hyderus ein bod yn datblygu ffordd Gymreig, sy'n pragmatig ac yn deg.

**Tom Middlehurst:** Croesawaf eich cydnabyddiaeth hael o gyfraniad pwysig staff i'r sector cyhoeddus yng Nghymru. Croesawaf hefyd eich ymrwymiad i gynnal arfer cyflogaeth da a chyflog ac amodau da mewn unrhyw drefniant cyflwyno yn y dyfodol. Beth bynnag fo'r amheuon ynglŷn â defnyddio PFI a partneriaethau cyhoeddus-preifat yng Nghymru, mae'n briodol nad ydych yn cau'r opsiwn oherwydd gallai hynny fod yn anfanteisiol i Gymru. Fodd bynnag, o ganlyniad i'ch ymrwymiad cyhoeddus y bore yma, a sicrhewch y bydd ymgynghoriad cynnar yn hanfodol mewn unrhyw broses ffurfiol ar gyfer unrhyw fenter PFI neu bartneriaeth cyhoeddus-preifat arfaethedig yn y sector cyhoeddus yng Nghymru?

**Edwina Hart:** Mae'n bwysig y ceir ymgynghoriad llawn a chynnar. Yn y gorffennol, cyn y Cynulliad, cynhaliwyd gormod o drafodaethau y tu ôl i ddrysau caeedig ynglŷn â'r ffordd y byddem yn cyflwyno rhai o'r trefniadau hyn. Mae staff, yn arbennig yn y sector cyhoeddus, wedi bod yn bryderus iawn ynglŷn â hynny. Rhaid inni

approach on all of these issues so that people are aware of the basis for decisions, especially if they impact on them as employed individuals. However, I am keen that we have an extended team, particularly in health, where teams have been of major concern. That will comfort people. We are talking about people who deliver the services. We are not talking about who manages the office block; we are talking about the people on the wards that patients want to see. It is important to get that balance right.

fabwysiadu ymagwedd llyfr agored tuag at yr holl faterion hyn fel bod pobl yn ymwybodol o sail y penderfyniadau, yn arbennig os ydynt yn effeithio arnynt hwy fel unigolion cyflogedig. Fodd bynnag, yr wyf yn awyddus inni gael tîm estynedig, yn arbennig ym maes iechyd, lle mae'r timau wedi peri pryder mawr. Bydd hynny'n tawelu meddyliau pobl. Yr ydym yn sôn am bobl sy'n darparu'r gwasanaethau. Nid ydym yn sôn am bwy sy'n rheoli'r bloc o swyddfeydd, yr ydym yn sôn am y bobl hynny ar y wardiau y mae cleifion am eu gweld. Mae'n bwysig sicrhau'r cydbwysedd cywir.

**Dafydd Wigley:** A yw'n gywir i gasglu o'r datganiad mai un o oblygiadau fformiwla Barnett yw y bydd Cymru ar ei cholled o ran lefelau buddsoddi o fewn ein gwlad, oni bai ein bod yn defnyddio PFI? Os felly, onid yw fformiwla Barnett yn caethiwo'r Cynulliad rhag dilyn y patrwm buddsoddi cyhoeddus y mae mwyafrif enfawr awdurdodau lleol Cymru a chyrff statudol eraill yn dymuno'i weld, sef arian cyhoeddus yn talu am asedau cyhoeddus sydd yn gwasanaethu'r cyhoedd? Onid dadl arall yw hon i newid fformiwla Barnett am fformiwla sydd yn seiliedig ar yr angen am buddsoddi cyfalaf, gymaint â'r angen am wasanaethau cyfredol?

**Dafydd Wigley:** Should we infer from this statement that one of the implications of the Barnett formula is that Wales will be left behind in terms of investment within our own country unless we use PFI? If so, does the Barnett formula prevent the Assembly from following the pattern of public investment followed by the vast majority of local authorities and other statutory bodies in Wales, namely that public money be used to pay for public assets that serve the public? Is this not another argument for replacing the Barnett formula with a formula based on the need for capital investment as much as the existing need for services?

**Edwina Hart:** I thought that you would raise the issue of the Barnett formula in the context of the PFI discussion. There are issues surrounding needs assessment. If we considered needs assessment, we would have to guarantee that we would come out high in terms of any changes in funding arrangements from central Government. There are key issues on how the Treasury regards borrowing. That impacts on us directly as I indicated earlier. If I did not follow that line, there would be implications in terms of the Welsh block and how I would use those resources. Hence this pragmatic approach, taking into account central Government's line on fiscal policy and how we can work within those parameters to ensure we maximise the potential for public investment in public services, as I have done with the two new hospitals, and the school in Blaenau Gwent.

**Edwina Hart:** Yr oeddwn yn meddwl y byddech yn codi'r mater o fformiwla Barnett yng nghyd-destun y drafodaeth ar PFI. Mae yna faterion sy'n gysylltiedig ag asesiad o anghenion. Pe byddem yn ystyried asesiad o anghenion, byddai'n rhaid inni sicrhau y byddem yn llwyddo yn nhermau unrhyw newidiadau i'r trefniadau ariannu gan y Llywodraeth ganolog. Mae yna faterion allweddol i'w trafod o ran sut mae'r Trysorlys yn ystyried benthyca. Caiff hynny effaith uniongyrchol arnom fel y soniais yn gynharach. Pe na byddwn yn dilyn hynny, byddai goblygiadau yn nhermau'r bloc Cymreig a sut y byddwn yn defnyddio'r adnoddau hynny. Dyna pam y mabwysiedir yr ymagwedd bragmatig hon, sy'n ystyried safbwyt y Llywodraeth ganolog ar bolisi ariannol a sut y gallwn weithio o fewn y paramedrau hynny i sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar botensial buddsoddiad cyhoeddus mewn gwasanaethau cyhoeddus, fel y gwneuthum gyda'r ddau ysbty newydd a'r ysgol ym Mlaenau Gwent.

10:15 a.m.

Obviously this issue of the private finance initiative is complex. There is no doubt that when the history books are written, there will be diverse opinions on the value of PFI and public-private partnerships. I still have an open mind on some of these issues, but it is essential that we have an appropriate mix. My statement is aiming towards that.

**Peter Black:** I welcome this statement. The Minister's common-sense approach certainly reflects our financial position. It is also the approach that needs to be taken to get the balance right between public and private investment. I also particularly welcome the recognition that employees' interests are paramount. We must not lose out on investment on vital capital projects by not going down this route, given the Treasury's stance on this issue and that we must mirror the forms of investment that the Treasury puts out, or else we will lose out.

I also welcome the direct finance for smaller capital projects to avoid disproportionate bureaucratic costs. Do you agree that Plaid Cymru's anxiety to have a new bidding round for PFI indicates that it also recognises your position as being sensible and logical, and that, when it comes to the crunch, it supports PFI for major projects? Do you also agree that if we are to ultimately achieve a level playing field on this issue, we need to convince the Treasury to reform the public sector borrowing requirement?

**Edwina Hart:** Yes, that issue will require discussion with the Treasury, and an examination of their fiscal policy in that area.

I am pleased with your comments about small-scale projects. There is an emerging consensus that small projects are less likely to represent value-for-money under PFI because they do not have the economies of scale for private-sector innovation. The cost of putting the PFI framework in place is then less economic. It is important that that line is drawn.

Yn amlwg, mae menter cyllid preifat yn fater cymhleth. Yn ddiau, pan ysgrifennir y llyfrau hanes, bydd barn amrywiol am werth PFI a phartneriaethau cyhoeddus-preifat. Mae gennyf feddwl agored o hyd ar rai o'r materion hyn, ond mae'n hanfodol ein bod yn sicrhau cymysgedd briodol. Mae fy natganiad yn anelu at hynny.

**Peter Black:** Croesawaf y datganiad hwn. Mae ymagwedd synnwyr cyffredin y Gweinidog yn adlewyrchu ein sefyllfa ariannol i'r dim. Yr ymagwedd hon sydd ei hangen hefyd i sicrhau'r cydbwysedd cywir rhwng buddsoddiad cyhoeddus a phreifat. Croesawaf yn benodol y gydnabyddiaeth fod buddiannau gweithwyr yn hollbwysig. Ni ddylem golli'r cyfle i fuddsoddi mewn prosiectau cyfalaf hanfodol drwy beidio â dilyn y llwybr hwn, o gofio safbwyt y Trysorlys ar y mater hwn ac y dylem adleisio'r dulliau buddsoddi a bennir gan y Trysorlys, neu byddwn ar ein colled fel arall.

Croesawaf hefyd yr arian uniongyrchol ar gyfer prosiectau cyfalaf llai er mwyn osgoi costau biwrocataidd anghyfartal. A gytunwch fod pryder Plaid Cymru ynglŷn â'r cylch newydd i wneud cais ar gyfer PFI yn dangos ei bod hefyd yn cydnabod fod eich safbwyt yn synhwyrol a rhesymegol, a'i bod, pan ddaw hi i'r pen, yn cefnogi PFI ar gyfer prosiectau mawr? A gytunwch hefyd, pe byddem yn sicrhau amodau tebyg i bawb ar y mater hwn, y byddai'n rhaid inni argyhoeddi'r Trysorlys i ddiwygio gofyniad benthyca'r sector cyhoeddus?

**Edwina Hart:** Ydw, bydd angen trafod y mater hwnnw gyda'r Trysorlys, ac archwilio eu polisi ariannol yn y maes hwnnw.

Yr wyf yn falch o glywed eich sylwadau ynglŷn â phrosiectau ar raddfa fach. Daw consensws i'r amlwg fod prosiectau bach yn llai tebygol o gynrychioli gwerth am arian o dan PFI am nad oes ganddynt y darbodusrwydd maint ar gyfer arloesedd yn y sector preifat. Felly, mae cost llunio fframwaith PFI yn llai economaidd. Mae'n bwysig tynnau'r llinell honno.

The issue of where people stand is quite interesting. I think it was Sir Harry Jones who addressed the Local Government and Housing Committee on behalf of the Welsh Local Government Association, and indicated that this was a pragmatic issue for the WLGA in terms of bidding rounds for PFI. It is important to recognise that, although people are suspicious of PFI—particularly in Wales—and people in the local authorities in the wider public sector say that they are not happy about it, it is interesting that people are adaptable when it comes to having investment into their road or school, as long as they think that the arguments about value-for-money are well made.

**Peter Law:** I compliment the Minister on her pragmatic approach, which is different in Wales, as compared to Scotland and England. The Government is to be complimented on that. However the old saying, ‘casting pearls before swine’ comes to mind when you consider the Conservatives’ reaction to anything the Minister says on these matters. Also, of course, Plaid Cymru is always the first in when there is no other option but PFI. It is easy to criticise. The PFI option needs to be kept for particular projects in some areas, as the Minister said. However, I am pleased that she is doing it differently here. She is taking a balanced approach and ensuring that our workers are of equal value, whatever their status. They are all front-line professionals and they are all valued in the service. Under past Conservative Governments they were thrown out to the wolves and some of them lost their jobs.

**The Presiding Officer:** Order. It might be helpful if you came to your question.

**Peter Law:** Diolch, Lywydd, mae'n Nadolig, wedi'r cwbl.

**Y Llywydd:** Nid yn y fan hon.

**Peter Law:** Will the Minister assure me that she will continue to publicly emphasise the value of all our public sector staff, and that she will work with the trade unions in Wales to ensure an effective partnership where these type of developments take place?

Mae gweld beth yw safbwyt pawb yn eithaf diddorol. Credaf mai Syr Harry Jones a anerchodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ar ran Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, a awgrymodd fod hyn yn fater pragmatig i'r Gymdeithas o ran cylchoedd gwneud cais ar gyfer PFI. Mae'n bwysig cydnabod, er bod gan bobl amheuon ynglŷn â PFI—yn arbennig yng Nghymru—a bod pobl yn yr awdurdodau lleol yn y sector cyhoeddus ehangach yn dweud nad ydynt yn fodlon ar y sefyllfa, ei bod yn ddiddorol gweld y gall pobl addasu pan fo'n fater o fuddsoddi yn eu ffordd neu ysgol hwy, cyhyd a'u bod yn credu y cyflwynwyd dadleuon da dros werth am arian.

**Peter Law:** Cymeradwyaf y Gweinidog ar ei hymagwedd bragmatig, sy'n wahanol yng Nghymru, o'i chymharu â'r Alban a Lloegr. Dylid cymeradwyo'r Llywodraeth am hynny. Fodd bynnag, daw'r hen ddywediad ‘taflu perlau o flaen moch’ i'r cof pan ystyriwch ymateb y Ceidwadwyr i unrhyw beth a ddywed y Gweinidog ar y materion hyn. Hefyd, wrth gwrs, mae Plaid Cymru yn barod iawn ei thafod pan nad oes unrhyw opsiwn arall ond PFI. Mae'n hawdd barnu. Mae angen cadw'r opsiwn PFI ar gyfer prosiectau penodol mewn rhai ardaloedd, fel y dywedodd y Gweinidog. Fodd bynnag, yr wyf yn falch o weld ei bod yn gwneud hynny'n wahanol yma. Mae'n mabwysiadu ymagwedd gytbwys ac yn sicrhau bod ein gweithwyr o werth cyfartal, beth bynnag fo'u statws. Maent yn bobl broffesiynol yn y rheng flaen, ac yn werthfawr i'r gwasanaeth. O dan Lywodraethau Ceidwadol yn y gorffennol cawsant eu taflu i'r bleiddiaid a cholloedd rhai ohonynt eu swyddi.

**Y Llywydd:** Trefn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol ichi ofyn eich cwestiwn.

**Peter Law:** Thank you, Presiding Officer, it is Christmas, after all.

**The Presiding Officer:** Not here.

**Peter Law:** A wnaiff y Gweinidog fy sicrhau y bydd yn parhau i bwysleisio'n gyhoeddus werth ein holl staff yn y sector cyhoeddus, ac y bydd yn gweithio gyda'r undebau llafur yng Nghymru i sicrhau partneriaeth effeithiol pan gynhelir y math hwn o ddatblygiad?

**Edwina Hart:** I can give that assurance. However, the trade unions must also understand that we must be pragmatic with regard to how we get money into the public sector for necessary investment. It takes two to tango on some of these issues.

**Brian Gibbons:** I warmly welcome your statement. It is in line with the evidence which shows that PFI represents value for money, particularly in terms of roads and prisons, but is more problematic in health and education. You are taking an evidence-based and pragmatic approach. However, I would like to follow up Peter's point about staffing. In the health and social care service, we have the principle of having one staff. What Peter said about valuing those staff is important. Some staff will, unfortunately, have to transfer to PFI. How are you disposed towards matters such as TUPE plus, which you did not mention in your statement?

**Edwina Hart:** I am disposed to look at what I am allowed to look at in terms of how we deal with matters in future PFI projects. The fact that Jane Hutt was able to extend the categories of staff has been useful. I confirmed that in my statement today. It is increasingly likely that we will have to consider some of these wider issues in that context, because it is important that staff recognise that they are valued as part of a team. If a member of staff is part of the team—not the team that I illustrated in terms of hospital porters, and cleaners—which unfortunately must transfer, we must ensure that they transfer on the best terms available.

**Edwina Hart:** Gallaf roi'r sicrwydd hwnnw i chi. Fodd bynnag, rhaid i'r undebau llafur ddeall hefyd bod yn rhaid inni fod yn bramatig o ran sut y caiff arian ei drosglwyddo i'r sector cyhoeddus ar gyfer buddsoddiad angenreidiol. Mae angen rhannu'r cyfrifoldebau ar rai o'r materion hyn.

**Brian Gibbons:** Croesawaf eich datganiad yn fawr. Mae'n unol â'r dystiolaeth sy'n dangos fod PFI yn cynrychioli gwerth am arian, yn arbennig o ran ffyrdd a charchardai, ond mae'n peri mwy o broblemau ym meysydd iechyd ac addysg. Yr ydych yn mabwysiadu ymagwedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sy'n bramatig. Fodd bynnag, hoffwn drafod pwynt Peter ynglŷn â staffio. Yn y gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol, mae gennym yr egwyddor o gael un staff. Mae'r hyn a ddywedodd Peter ynglŷn â gwerthfawrogi'r staff hynny yn bwysig. Bydd yn rhaid i rai aelodau o staff, yn anffodus, drosglwyddo i PFI. A ydych yn dueddol o ffafrio materion fel TUPE plus, na thrafodwyd yn eich datganiad?

**Edwina Hart:** Yr wyf yn dueddol o edrych ar yr hyn y caniateir imi edrych arno o ran sut y byddwn yn delio â materion mewn prosiectau PFI yn y dyfodol. Mae'r ffaith bod Jane Hutt wedi gallu ymestyn y categorïau staff wedi bod yn ddefnyddiol. Cadarnhawyd hynny yn fy natganiad heddiw. Mae'n edrych yn llawer mwy tebygol y bydd rhaid inni ystyried rhai o'r materion ehangach yn y cyddestun hwnnw, oherwydd mae'n bwysig bod staff yn cydnabod y cânt eu gwerthfawrogi fel rhan o dîm. Os yw aelod o staff yn rhan o'r tîm—nid y tîm a ddisgrifiais o ran porthorion ysbyty, a glanhawyr—y mae'n rhaid ei drosglwyddo yn anffodus, rhaid inni sicrhau y cânt eu trosglwyddo ar y telerau gorau sydd ar gael.

## Pwyntiau o Drefn Points of Order

**Nick Bourne:** Point of order. I gave you notice of this point of order earlier, Llywydd. I raise it under Standing Order No. 6.26 on oral questions and also under Standing Orders Nos. 5 and 6 on the names to be

**Nick Bourne:** Pwynt o drefn. Rhoddais rhybudd o'r pwynt hwn o drefn ichi yn gynharach Lywydd. Codaf ef o dan Reol Sefydlog Rhif 6.26 ar gwestiynau llafar ac hefyd o dan Reolau Sefydlog Rhif. 5 a 6 ar yr

applied to the Government of Wales. You will recall that in questions to the First Minister on Tuesday, I indicated—after the First Minister suggested that I was adopting the term ‘Welsh Assembly Government’—that I had been required to include that term by the Table Office. You said that the Table Office did not make such instructions. I subsequently received an apology from the Clerk to the National Assembly, for which I am grateful. It stated:

‘I have investigated what happened in your case, and I confirm that you did not receive the advice which you should have received. Consequently the term ‘Welsh Assembly Government’ was included in your question at the insistence of the Table Office. This should not have happened.’

Despite the best efforts of the Labour chief whip to gag WAG, I understand that about 70 per cent of the Labour Party is unhappy with this title. May we bury it for good and ensure that we use the term ‘Government of Wales’ and use ‘National Assembly for Wales’ to describe the Plenary sessions?

**The Presiding Officer:** I am grateful to the leader of the Welsh Conservatives for putting that on record. I confirm that it is correct. On making further inquiries, following my interjection on Tuesday, we discovered that what happened was as described by the leader of the Welsh Conservatives. I am glad that he accepts the apology. I am still considering the ruling that I intend to give on the use of the term ‘Welsh Assembly Government’. In the interim, as I made plain to the leader of the opposition last week, Members are free to use the terms ‘Government of Wales’, ‘Welsh Assembly Government’, ‘Cabinet’, ‘administration’, ‘Government’ and, no doubt, other terms, as they think appropriate, as long as the meaning is clear in the context. The Table Office will not attempt to standardise these terms. Indeed, that might be difficult. I notice, for example, that an official Westminster Government document this week refers to the ‘Assembly for Wales’, which is perhaps another term. In the Table Office’s defence, the question tabled by the leader of the Welsh Conservatives was received before the office fully appreciated the practice. We are now confident that the

enwau i’w rhoi i Lywodraeth Cymru. Byddwch yn cofio imi nodi yn y cwestiynau i’r Prif Weinidog ddydd Mawrth—ar ôl i’r Prif Weinidog awgrymu fy mod yn mabwysiadu’r term ‘Llywodraeth Cynulliad Cymru’—fod y Swyddfa Gyflwyno wedi mynnu fy mod yn cynnwys y term. Dywedasoch na wnaeth y Swyddfa Gyflwyno roi cyfarwyddiadau o’r fath. Yn dilyn hynny derbynais ymddiheuriad oddi wrth Glerc y Cynulliad Cenedlaethol ac yr wyf yn ddiolchgar amdano. Dywed:

Er gwaethaf ymdrechion prif chwip Llafur i roi pen ar drafod y WAG, deallaf fod tua 70 y cant o’r Blaid Lafur yn anhapus gyda’r enw hwn. A allwn ei gladdu am byth a sicrhau ein bod yn defnyddio yr enw ‘Llywodraeth Cymru’ a defnyddio ‘Cynulliad Cenedlaethol Cymru’ i ddisgrifio’r Cyfarfodydd Llawn.

**Y Llywydd:** Yr wyf yn ddiolchgar i arweinydd Ceidwadwyr Cymru am sicrhau bod hyn yn cael ei gofnodi. Cadarnhaf ei fod yn gywir. Ar ôl gwneud ymholiadau pellach, yn dilyn fy ymyriad ddydd Mawrth, canfuwyd gennym fod yr hyn a ddigwyddodd yn union fel y’i disgrifiwyd gan arweinydd Ceidwadwyr Cymru. Yr wyf yn falch ei fod yn derbyn yr ymddiheuriad. Yr wyf yn parhau i ystyried y dyfarniad y bwriadaf ei roi ar y defnydd o’r enw ‘Llywodraeth Cynulliad Cymru’. Yn y cyfamser, fel yr eglurais i arweinydd yr wrthblaid yr wythnos diwethaf, mae rhyddid i’r Aelodau ddefnyddio’r enwau ‘Llywodraeth Cymru’, ‘Llywodraeth Cynulliad Cymru’, ‘Cabinet’, ‘gweinyddiaeth’, ‘Llywodraeth’, ac yn ddiamau, enwau eraill, fel y gwelant yn dda, yn ôl yr hyn sy’n briodol iddynt, cyhyd â bod yr ystyr yn glir yn ei gyd-destun. Ni fydd y Swyddfa Gyflwyno yn gwneud ymdrech i safoni’r enwau hyn. Yn wir, gallai hynny fod yn anodd. Sylwaf, er engraifft, bod dogfen swyddogol gan Lywodraeth San Steffan yr wythnos hon yn cyfeirio at ‘Cynulliad Cymru’ sydd efallai’n enw arall. I amddiffyn y Swyddfa Gyflwyno, derbynwyd y cwestiwn a gyflwynwyd gan arweinydd

practice I have outlined will be followed.

10:25 a.m.

The UK has an international commitment, under the African-Eurasian Migratory (Water Bird) Agreement, to endeavour to phase out the use of lead shot over wetlands. UK authorities have a practical commitment to meeting that obligation. As long ago as 1992, the then Department of Environment, Transport and the Regions set up a working group—the lead poisoning in waterfowl working group—to develop strategies to address the problem. The then Welsh Office was represented on that working group, as were shooting organisations. In 1995, the working group supported a voluntary two-year phasing out of lead-shot use over UK wetlands. This approach was adopted to enable non-toxic alternatives to lead shot, acceptable to shooters, to be developed.

Shortly before devolution, a GB-wide

*arfarniad rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 20 Tachwedd 2001. (NDM902)*

I barhau â thema cefn gwlaid y bore yma, mae rheoliadau peledi plwm wedi cael eu pasio gan y Pwyllgor Deddfwriaeth ac yr wyf yn falch o'u cynnig. Byddant yn helpu i leihau bygythiad gwenwyn plwm mewn adar dŵr ac yn helpu Cymru i gwrrd ag ymrwymiad rhyngwladol i ddileu'r defnydd o beledi plwm ar wlyptiroedd yn raddol tra'n osgoi cyfyngu'n ormodol ar hela adar gwylt neu saethu'n gyffredinol. Cydnabyddir yn fyd eang fod plwm yn wenwyn; dangosodd degawdau o ymchwil i'w effeithiau gwenwynig fod plwm yn gallu cael effaith ar ddatblygiad, atgynhyrchiad a goroesiad anifeiliaid a phobl. Arweiniodd hyn at reolau llym ar gyflwyno plwm i'r amgylchedd drwy leihau'r defnydd a wneir ohono mewn paent a phetrol yn ogystal ag mewn pysgota a saethu. Canfuwyd fod peledi plwm yn fygythiad arbennig i adar y dŵr drwy wenwyno. Lle mae peledi plwm a ddefnyddiwyd wedi'u gadael ar flaendraethau gwlyptiroedd, bydd adar y dŵr yn gyson yn bwyta graean i'w helpu i dreulio a gallant lyncu peledi gyda'r graean. Mae'r plwm yn y peledi yn aros yng ngholuddyn yr aderyn yr effeithiwyd arno ac yn crynhoi hyd nes y bydd yr aderyn yn y diwedd yn marw o wenwyn plwm.

Mae gan y DU ymrwymiad rhyngwladol, o dan Gytundeb (Adar Dŵr) Mudol Affrica-Ewrasia, i geisio dileu'r defnydd yn raddol o beledi plwm a ddefnyddir ar wlyptiroedd. Mae gan awdurdodau'r DU ymrwymiad ymarferol i fodloni'r rhwymedigaeth honno. Mor bell yn ôl â 1992 sefydlodd Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau ar y pryd weithgor—gweithgor gwenwyn plwm mewn adar dŵr—i ddatblygu strategaethau i fynd i'r afael â'r broblem. Cynrychiolid y Swyddfa Gymreig ar y pryd ar y gweithgor hwnnw ynghyd â mudiadau saethu. Yn 1995, cefnogodd y gweithgor ddileu'r defnydd o beledi plwm ar draws gwlyptiroedd y DU yn raddol dros gyfnod o ddwy flynedd. Mabwysiadwyd y dull hwn o weithredu er mwyn rhoi amser i ddeunydd saethu gwahanol di-wenwyn a fyddai'n dderbyniol i saethwyr gael ei ddatblygu.

Ychydig cyn datganoli, cynhalwyd

consultation was carried out on a draft statutory instrument to prohibit the use of lead shot over certain wetlands. A statutory instrument was subsequently introduced in England only. Following devolution, it is for the Assembly to determine the most appropriate approach to the problem of lead-shot ingestion in Wales.

Consultation has revealed strong feelings on the issue. Conservation bodies, such as the Royal Society for the Protection of Birds, advocate a total ban on lead shot, while the Countryside Council for Wales, advising in its statutory capacity, aspires to a general reduction in the level of man-made lead entering the environment. Bodies representing shooting, farming and country business organisations consider a total ban to be an unnecessary and disproportionate response.

I am concerned that the National Assembly's response be proportionate. We have given this matter much consideration. Assembly officials held a meeting with interested organisations in July 2000, and undertook a further consultation in spring 2001. The contributions made at the meeting, and the responses to the consultation, have reassured me that the statutory instrument before you today is both reasonable and proportionate in its conservation objectives and its effects on business and individual shooters.

The regulations are similar to those in place in England, thus minimising the potential for inconsistency or misunderstanding in border areas. However, they are better targeted than the existing regulations in England. In conclusion, although there is little direct evidence on the number of birds killed by lead-shot ingestion in Wales, there is no doubt that lead is toxic to birds and that water birds are at risk from lead poisoning by ingesting spent lead pellets. Given the international commitment to phasing out the use of lead shot pellets over wetland areas, and given the Assembly's duty to promote and enhance biological diversity, the statutory restrictions on the use of lead shot are appropriate. The statutory instrument has been drafted following significant

ymgyngioriad Prydain gyfan ar offeryn statudol drafod i wahardd defnyddio peledi plwm ar rai gwlyptiroedd arbennig. Cyflwynwyd offeryn statudol ar ôl hynny yn Lloegr yn unig. Yn dilyn datganoli rhaid i'r Cynulliad benderfynu ar yr ymagwedd fwyaf priodol i broblem llyncu peledi plwm yng Nghymru.

Dangosodd ymgyngioriad fod teimladau cryf ynglŷn â'r pwnc. Mae cyrff cadwraethol megis y Gymdeithas Frenhinol er Gwarchod Adar, yn annog gwaharddiad llwyr ar beledi plwm, tra bod Cyngor Cefn Gwlad Cymru, wrth gynghori yn ei rôl ymgyngchorol, yn dymuno gweld lleihad cyffredinol yn y lefel o beledi plwm a gynhyrchwyd gan ddyn sydd yn cyrraedd yr amgylchedd. Mae cyrff sy'n cynrychioli mudiadau saethu, ffermio a busnesau gwledig yn ystyried fod gwaharddiad llwyr yn ymateb dianghenraig a gormodol.

Yr wyf yn dymuno i ymateb y Cynulliad Cenedlaethol fod yn un cymesur. Rhoesom ystyriaeth drwyndl i hyn. Cynhaliodd swyddogion y Cynulliad gyfarfod gyda mudiadau sydd â diddordeb yng Ngorffennaf 2000, ac ymgymherwyd ag ymgyngioriad pellach yng ngwanwyn 2001. Fe'm sierhawyd gan y cyfraniadau a wnaethpwyd yn y cyfarfod, a'r ymatebion i'r ymgyngioriad, fod yr offeryn statudol sydd o'ch blaen heddiw yn rhesymol a chymesur yn ei amcanion cadwraeth a'i effaith ar fusnes a saethwyr unigol.

Mae'r rheoliadau hyn yn debyg i'r rhai sydd ar waith yn Lloegr, felly maent yn lleihau'r perygl o ran anghysonderau ac annealltwriaeth ar y gororau. Fodd bynnag, fe'u targedwyd yn well na'r rheoliadau sydd eisoes yn bod yn Lloegr. I gloi, er mai ychydig o dystiolaeth uniongyrchol sydd am nifer yr adar a laddwyd dwy lyncu peledi plwm yng Nghymru, nid oes amheuaeth fod plwm yn wenwynig i adar a bod adar dŵr mewn perygl o gael gwenwyn plwm drwy lyncu peledi plwm sydd wedi eu defnyddio. O gofio'r ymrwymiad rhyngwladol i ddileu'r defnydd o beledi plwm mewn ardaloedd gwlyptiroedd yn raddol, ac o gofio dyletswydd y Cynulliad i hyrwyddo a gwella amrywiaeth fiolegol, mae'r gwaharddiadau statudol ar y defnydd o beledi plwm yn

consultation with interested parties and has the support of the majority of affected bodies. It is the most sensible and proportionate response to the issue of lead poisoning of waterfowl by spent lead gun shot.

briodol. Drafftiwyd yr offeryn statudol yn dilyn ymgynghoriad sylweddol gyda mudiadau sydd â diddordeb ac mae'n derbyn cefnogaeth y mwyaf o gyrrff yr effeithir arnynt. Hwn yw'r ymateb mwyaf synhwyrol a chymesur i bwnc gwenwyn plwm mewn adar dŵr o ganlyniad i beledi saethu sydd wedi eu defnyddio.

10:55 a.m.

**Rhodri Glyn Thomas:** Mae hwn yn fater hynod o gymhleth gan ein bod mewn perygl o fod mewn sefyllfa lle y bydd yn anghyfreithlon i saethu hwyiaid â pheledi plwm tra y gellir saethu pob math o anifeiliaid eraill â pheledi plwm. Mae angen cysondeb o ran deddfwriaeth o'r fath. Hoffem wybod pa ymchwil yn union sydd wedi'i chyflawni yng Nghymru i hyn, oherwydd nad ydwyf yn ymwybodol o'r fath ymchwil. Fe wnaeth y Gweinidog nifer o ddatganiadau ynglŷn ag effeithiau saethu â pheledi plwm, ond ni chyfeiriodd at unrhyw ymchwil penodol sydd wedi'i gyflawni yng Nghymru.

O ran cwestiwn penodol, hoffem wybod pwy yn union yw'r personau awdurdodedig hyn y mae'n cyfeirio atynt. A yw'r Gweinidog yn cyfeirio at yr heddlu ym mhwynt 22, neu a oes diffiniad ehangach i bersonau awdurdodedig?

**Glyn Davies:** We are dealing yet again, as Rhodri Glyn Thomas said, with a complex issue. On the one hand is a traditional countryside practice of importance to the rural economy, and on the other hand are the interests of wildlife. Both issues are important to the Conservative Party and to me. If I was certain in my own mind that introducing this legislation was important for wildlife interests, I would be in favour of it. However, I do not believe—despite what the Minister told us—that that evidence is in place. I do not think that proper research has been undertaken. The toxicity of lead is clear and were wildfowl to eat lead on a significant scale, it would do them damage. However, when you are introducing legislation such as this, you must have proper evidence and proper research. This Bill is being introduced for a specific period of time. During this

**Rhodri Glyn Thomas:** This is an unusually complex issue since we may find ourselves in the position whereby it will be illegal to shoot ducks with lead pellets while all manner of other animals may be shot with lead pellets. This type of legislation must be consistent. We would like to know exactly what research has been undertaken into this matter in Wales, because I am not aware of any such research. The Minister made a number of statements regarding the effects of shooting with lead shot, but she did not refer to any specific research that has been undertaken in Wales.

In terms of a specific question, we would like to know exactly who are these authorised persons to which she refers. Is the Minister referring to the police in point 22, or is there a wider definition of authorised persons?

**Glyn Davies:** Yr ydym yn delio unwaith eto, fel y dywedodd Rhodri Glyn Thomas, â phwnc cymhleth. Ar yr un llaw mae arfer traddodiadol gwledig o bwys i'r economi leol, ac ar y llaw arall mae buddiannau'r bywyd gwylt. Mae'r ddeubeth yn bwysig i'r Blaid Geidwadol ac i minnau. Pe bawn i yn sicr yn fy meddwl fy hun y byddai cyflwyno'r ddeddfwriaeth hyn yn bwysig i fuddiannau bywyd gwylt, byddwn o'i blaidd. Fodd bynnag, ni chredaf—er gwaethaf yr hyn a ddywedodd y Gweinidog wrthym—fod y dystiolaeth yn bod. Nid wyf yn meddwl bod ymchwil cywir wedi cael ei gynnwl. Mae natur docsig plwm yn amlwg a phe bai adar dŵr yn bwyta plwm ar raddfa sylweddol, byddai'n gwneud niwed iddynt. Fodd bynnag, pan fyddwch yn cyflwyno ddeddfwriaeth o'r fath, rhaid i chi gael dystiolaeth gywir ac ymchwil gywir. Mae'r

period, whatever it may be, I hope that the Minister will ask the Countryside Council for Wales to undertake real research to investigate whether there is any evidence that wildfowl are being poisoned and killed due to the presence of lead shot. If that were the case, I would feel comfortable in supporting these regulations. In the absence of such evidence, I am not.

**Eleanor Burnham:** While the Liberal Democrats welcome any regulations that will protect wild birds' welfare, we also have some concerns about the real research that has been undertaken. I understand that the effects of the new type of shot might be even worse for animal welfare as animals are not hit and killed directly. Given the extra costs, we would be grateful if the Minister could consider giving financial resources to community councils so that they can deliver services locally. For example, lead shot cartridges cost 11p each while their tungsten equivalents will cost 50p each. That is of concern.

I am pleased to see clause 28—called the ‘sunset clause’—which will become a feature of the legislation so that, after five years, there will be a review. However, as I said, we welcome regulations that seek to protect wild birds' welfare.

**Lorraine Barrett:** The easiest thing to do in this matter would be to ban shooting altogether. I cannot imagine why anyone would want to shoot ducks and birds. However, given that that is not a reality, I would prefer to see a total ban on lead shot. At least this goes some way towards dealing with a dangerous situation.

**The Minister for Environment (Sue Essex):** Lead shot is lead shot whether it is in Wales or England. This regulation follows years of research into this issue. I have just spoken with Ron Davies, and he told me of research undertaken way back by both government and shooting organisations. That

Mesur hwn yn cael ei gyflwyno am gyfnod penodol o amser. Yn ystod y cyfnod hwn, pa mor hir bynnag y bo, gobeithiaf y bydd y Gweinidog yn gofyn i Gyngor Cefn Gwlad Cymru i ymgymryd ag ymchwil i ymchwilio a oes yna dystiolaeth bod adar gwylt yn cael eu gwenwyno a'u lladd oherwydd presenoldeb peledi plwm. Pe bai hynny'n cael ei brofi byddwn yn teimlo'n dawel fy meddwl i gefnogi'r rheoliadau hyn. Yn absenoldeb dystiolaeth o'r fath, nid wyf yn gefnogol.

**Eleanor Burnham:** Tra bod y Democratiaid Rhyddfrydol yn croesawu unrhyw reoliadau a fydd yn amddiffyn lles adar gwylt, y mae gennym rai pryderon ynghylch yr ymchwil real a gynhalwyd. Deallaf y gallai effaith y math newydd o beledi fod hyd yn oed yn waeth i les anifeiliaid gan nad yw anifeiliaid yn cael eu taro a'u lladd yn uniongyrchol. O gofio'r costau ychwanegol, byddwn yn ddiolchgar pe bai'r Gweinidog yn barod i ystyried rhoi adnoddau ariannol i gynhorau cymuned fel eu bod yn gallu cyflwyno gwasanaethau'n lleol. Er enghraifft, mae cetrys peledi plwm yn costio 11c yr un tra bod y rhai tungsten cyfatebol yn costio 50c yr un. Mae hynny'n bryder.

Y mae'n dda gennyf weld cymal 28—a elwir yn ‘gymal y machlud’—a fydd yn dod yn nodwedd o'r ddeddfwriaeth fel y bydd adolygiad yn cael ei gynnwl, ar ôl pum mlynedd. Fodd bynnag, fel y dywedais, croesawn reoliadau sy'n ymgyrfaedd at warchod lles adar gwylt.

**Lorraine Barrett:** Y peth hawsaf i'w wneud yn y mater hwn fyddai gwahardd saethu'n gyfangwbl. Ni allaf ddychmygu pam y dylai unrhyw un fod yn awyddus i saethu hwyaid ac adar. Fodd bynnag, o gofio nad yw hyn yn realiti, byddai'n well gennyf weld gwaharddiad llwyr ar beledi plwm. O leiaf mae hyn yn mynd beth o'r ffordd tuag at ddelio â sefyllfa beryglus.

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd (Sue Essex):** Peledi plwm yw peledi plwm pa un a ydynt yng Nghymru neu Loegr. Mae'r rheoliad hwn yn dilyn blynyddoedd o ymchwil i'r pwnc hwn. Yr wyf newydd siarad â Ron Davies, ac mi ddywedodd wrthyf am ymchwil a wnaed ym mhell yn y

is why we have the international obligation. This has not just appeared out of the blue. We have taken a considerable amount of time over this, working with different organisations. There has been a long and proper consultation process over this and we consider these regulations to be a proportionate response. This will be a situation whereby however much you try, there will not be agreement. People have conflicting views. However, I think that everyone would agree—from whatever side they come—that we have tried hard to develop a solution that is considered and proportionate to the situation. We will continue to review this over the next few years, Glyn. The CCW and others will continue to look at how these regulations work. I accept Lorraine's point, but the most concern is for those birds that occupy the wetland areas. This is a good starting point and I hope that you will support it.

**Y Llywydd:** Galwaf am bleidlais ar egwyddor y Gorchymyn.

*Cynnig: O blaid 36, Ymatal 0, Yn erbyn 5.  
Motion: For 36, Abstain 0, Against 5.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwin  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Gareth  
Jones, Ieuan Wyn  
Lloyd, Val  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Middlehurst, Tom  
Morgan, Rhodri

gorffennol gan y llywodraeth yn ogystal â'r cyrff saethu. Dyna paham y mae gennym y rhwymedigaeth ryngwladol. Nid ymddangosodd hwnnw o'r awyr. Treuliasom dipyn o amser gyda hwn gan weithio gyda chyrff gwahanol. Cafwyd proses ymgynhorir a chywir ynglŷn â hyn ac ystyriwn fod y rheoliadau hyn yn ymateb cymesur. Mae hon yn sefyllfa, pa mor galed bynnag yr ymdrechwn, a fydd yn amhosibl cael cytundeb yn ei chylch. Fodd bynnag, credaf fod pawb yn cytuno—o ba ochr bynnag y dowch—ein bod wedi ymdrechu'n galed i ddatblygu ateb sydd yn ystyrlon a chymesur â'r sefyllfa. Byddwn yn parhau i adolygu hyn, Glyn, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Bydd Cyngor Cefn Gwlad Cymru ac eraill yn parhau i edrych ar y ffordd y mae'r rheoliadau hyn yn gweithio. Derbyniaf bwynt Lorraine, ond mae'r pryder mwyaf dros yr adar sy'n byw yn ardaloedd y gwlyptir. Mae hyn yn ddechrau da a gobeithiaf y gwnewch ei gefnogi.

**The Presiding Officer:** I call for a vote on the principle of the Order.

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Cairns, Alun  
Davies, Glyn  
Graham, William  
Morgan, Jonathan  
Richards, Rod

Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

**Y Llywydd:** Galwaf am bleidlais ar **The Presiding Officer:** I call for a vote on  
gymeradwyo'r Gorchymyn. the approval of the Order.

*Cynnig: O blaid 34, Ymatal 0, Yn erbyn 6.  
Motion: For 34, Abstain 0, Against 6.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:  
The following Members voted for:

Barrett, Lorraine  
Bates, Mick  
Black, Peter  
Burnham, Eleanor  
Butler, Rosemary  
Chapman, Christine  
Chapman, Christine  
Davidson, Jane  
Davies, Andrew  
Davies, Ron  
Edwards, Richard  
Essex, Sue  
German, Michael  
Gibbons, Brian  
Griffiths, John  
Gwyther, Christine  
Hart, Edwina  
Hutt, Jane  
Jarman, Pauline  
Jones, Ann  
Jones, Carwyn  
Jones, Gareth  
Lloyd, Val  
Law, Peter  
Lewis, Huw  
Middlehurst, Tom  
Pugh, Alun  
Randerson, Jenny  
Ryder, Janet  
Sinclair, Karen  
Thomas, Gwenda  
Thomas, Owen John  
Thomas, Rhodri Glyn  
Wigley, Dafydd  
Williams, Phil

*Derbyniwyd y cynnig.  
Motion carried.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:  
The following Members voted against:

Cairns, Alun  
Davies, Glyn  
Graham, William  
Morgan, Jonathan  
Morgan, Rhodri  
Richards, Rod

*Daeth y Dirprwy Lywydd i'r Gadair am 11.01 a.m.  
The Deputy Presiding Officer took the Chair at 11.01 a.m.*

## Y Strategaeth Datblygu Economaidd Genedlaethol The National Economic Development Strategy

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 3, 4, 5 and 7 in the name of Jocelyn Davies, and amendments 6, 8, 9, 10 and 11 in the name of Jonathan Morgan. I have decided not to select amendment 2, which appears on today's agenda.

Many Members have expressed a desire to speak and only under exceptional circumstances do I limit speakers to three minutes, therefore I do not propose to do so this morning. Speakers will have five minutes, but I warn them that I will be using the red button as soon as the five minutes are up.

**The First Minister (Rhodri Morgan):** I propose that

*the National Assembly:*

1. approves the national economic development strategy published as 'A Winning Wales';
2. notes the intention of the Welsh Assembly Government to implement the strategy in conjunction with its partners;
3. agrees to review the strategy at regular intervals;
4. notes the intention of the Welsh Assembly Government to publish the progress made with the strategy. (NDM903)

I will try to be brief, but this debate is important because we, as the Welsh Assembly Government, are presenting our national economic development strategy, 'A Winning Wales', to the Assembly to seek its approval. The strategy was developed in the light of the recent successful consultation exercise in which around 40 responses were received. The February draft of the strategy was discussed with our stakeholders in the task and finish group and the business partnership council.

This strategy attempts to raise the skills of the

**Y Dirprwy Lywydd:** Yr wyf wedi dethol gwelliannau 1, 3, 4, 5 a 7 yn enw Jocelyn Davies a gwelliannau 6, 8, 9, 10 ac 11 yn enw Jonathan Morgan. Yr wyf wedi penderfynu beidio â dethol gwelliant 2, sy'n ymddangos ar agenda heddiw.

Mae sawl Aelod wedi mynigi dymuniad i siarad a dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y cyfyngaf siaradwyr i dair munud, felly ni fwriadaf wneud hynny y bore yma. Bydd gan y siaradwyr bum munud, ond fe'u rhybuddiaf y byddaf yn defnyddio'r botwm coch cyn gynted ag y daw'r pum munud i ben.

**Prif Weinidog Cymru (Rhodri Morgan):** Cynigiaf fod

*y Cynulliad Cenedlaethol*

1. yn cymeradwyo'r strategaeth datblygu economaidd genedlaethol a gyhoeddwyd dan y teitl 'Cymru ar ei Hennill';
2. yn nodi bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i weithredu'r strategaeth ar y cyd â'i phartneriaid;
3. yn cytuno i adolygu'r strategaeth yn rheolaidd;
4. yn nodi bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyhoeddi manylion yngylch hynt y strategaeth. (NDM903)

Ceisiaf fod yn fyr, ond mae'r ddadl hon yn bwysig gan ein bod, fel Llywodraeth Cynulliad Cymru, yn cyflwyno ein strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, 'Cymru ar ei Hennill', i'r Cynulliad i geisio ei gymeradwyaeth. Datblygwyd y strategaeth yng ngoleuni'r ymarfer ymgynghori llwyddiannus diweddar lle y cafwyd tua 40 o ymatebion. Trafodwyd drafst mis Chwefror o'r strategaeth gyda'n rhanddeiliaid yn y grŵp gorchwyl a gorffen a'r cyngor partneriaeth busnes.

Ymdrecha'r strategaeth hon i wella sgiliau

people of Wales to fill top-notch jobs while, at the same time, creating top-notch jobs to match those raised skills. It may not seem to be rocket science, but it is rarely attempted. Only the Irish Republic has attempted and succeeded to do so during the past decade, which provided inspiration for the strategy before us today. Implementation of the strategy requires the same national unity of purpose that Ireland achieved in the 1980s and early 1990s. It came almost out of the despair of the high-debt crisis and the basket-case national public finances when the phrase ‘we are going to hell in a handcart together’ was commonly heard in the pubs of Dublin, Cork and Limerick. We also want to make full use of Objective 1 funding and the additional above-Barnett formula funding that we received last July.

‘A Winning Wales’ is a 10-year strategy for the transformation of the Welsh economy, which means that Wales has to re-invent itself economically for the second time in 25 years. Twenty-five years ago, the coal mining industry virtually disappeared over a brief period of 10 years as a major provider of employment—as did the steel industry, although steel did not disappear in terms of production. We had to provide assembly-line jobs urgently, which 25 years later are migrating out of Wales to low-wage areas in eastern Europe that are on the launch-pad for full entry into the European Union over the next three or four years.

Therefore, we have to develop the Welsh economy into a knowledge-based economy. To facilitate our economic growth, we need to use the four main drivers identified by the Organisation for Economic Co-operation and Development as the key ways of shifting the economy from its current position to another plain of higher growth. Those four main drivers are innovation, enterprise and entrepreneurship, people and their skills, and information and communications technology. Despite the rather interesting phenomenon of the last two months, when unemployment has gently drifted downwards in Wales while rising in England, we know that there is a great deal that is wrong with the Welsh economy. It has many weaknesses: we suffer

pobl Cymru i lenwi swyddi penigamp tra'n creu swyddi penigamp yr un pryd i gyfateb â'r sgiliau gwell hynny. Efallai nad yw'n gymhleth, ond anaml y rhoddir cynnig arni. Dim ond Gweriniaeth Iwerddon sydd wedi ymdrechu a llwyddo i wneud hynny yn y degawd diwethaf, a ddarparodd yr ysbrydoliaeth ar gyfer y strategaeth ger ein bron heddiw. Mae gweithredu'r strategaeth yn galw am yr un undod pwrrpas cenedlaethol a gyflawnodd Iwerddon yn yr 1980au a dechrau'r 1990au. Deilliodd o anobaith yr argyfwng dyledion uchel a'r arian cyhoeddus cenedlaethol cwbl ddiffygol pan glywyd yr ymadrodd ‘*we are going to hell in a handcart together*’ yn gyson yn nhafarndai Dulyn, Cork a Limerick. Yr ydym hefyd am ddefnyddio arian Amcan 1 i'r eithaf a'r arian ychwanegol yn uwch na fformiwl a Barnett a gawsom fis Gorffennaf diwethaf.

Mae ‘Cymru ar ei Hennill’ yn strategaeth 10 mlynedd i drawsffurfio economi Cymru, sy'n golygu bod yn rhaid i Gymru ailddyfeisio ei hun yn economaidd am yr ail dro mewn 25 mlynedd. Bum mlynedd ar hugain yn ôl, diflannodd y diwydiant glo bron yn gyfan gwbl dros gyfnod byr o 10 mlynedd fel prif ddarparwr cyflogaeth—fel y gwnaeth y diwydiant dur, er na ddiflannodd dur o ran cynhyrchiant. Bu'n rhaid inni ddarparu swyddi llinell gydosod ar frys, sydd 25 mlynedd yn ddiweddarach yn symud o Gymru i ardaloedd cyflogau isel yn nwyrain Ewrop a fydd yn cael eu derbyn yn llawn i'r Undeb Ewropeaidd dros y tair i'r pedair blynedd nesaf.

Felly, rhaid inni ddatblygu economi Cymru yn economi wedi'i seilio ar wybodaeth. Er mwyn hwyluso ein twf economaidd, mae angen inni ddefnyddio'r pedair prif elfen a nodwyd gan y Gymdeithas Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd fel y ffyrdd allweddol o symud yr economi o'i sefyllfa bresennol i lefel arall o dwf uwch. Y pedwar prif hyrwyddwr hyn yw arloesedd, menter a mentergarwch, pobl a'u sgiliau, a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu. Er gwaethaf ffenomenon diddorol braidd y ddau fis diwethaf, pan fu gostyngiad graddol mewn diweithdra yng Nghymru ond cynnydd yn Lloegr, gwyddom fod llawer iawn o'i le ar economi Cymru. Mae ganddo lawer o wendidau: dioddefwn o syndrom ffatrioedd

from branch factory syndrome; a smaller number of businesses per head of population than the British average; a lack of company headquarters, and research and development functions in Wales; and a low participation rate in the economy—some 5 per cent fewer in the working age group participate in the economy. We must put those aspects right.

11:05 a.m.

‘A Winning Wales’ sets out to do that with clear objectives, specific targets and an action plan for the Assembly Government and its stakeholders, such as partners in local government, the business community and the trade unions. It is fully costed, including the baselines, which contribute either directly or indirectly to economic development through the economic development budget; a large part of the education and lifelong learning budget—not including schools; it also includes a large part of the agriculture budget—but not the direct payments to farmers—and large parts of the transport budget. That is how we define the box in which economic development functions in the Assembly and that gives us this figure of £15 billion over the 10-year period.

The strategy, therefore, is a combination of improvements to existing programmes and new initiatives when they are appropriate. The actions set out will be regularly reviewed and updated to keep the document fresh. This is not a Soviet style five-year plan, which says specifically what the production in steel or electricity will be in five-years’ time. It is a strategy about spending public money in a smarter way to achieve the objective of transforming Welsh economic performance to roughly 40 to 50 per cent of the kind of levels that Ireland has since its sudden leap forward, when it had the benefit of Objective 1 money. Ireland, of course, received more money than Wales: it received money for the whole country rather than for two-thirds from which Wales is now benefiting.

While the economy of Wales has many positive features and significant opportunities

cangen; nifer llai o fusnesau fesul pen y boblogaeth na'r cyfartaledd Prydeinig; prinder pencadlysoedd cwmniau, a swyddogaethau ymchwil a datblygu yng Nghymru; a chyfradd gyfranogi isel yn yr economi—mae tua 5 y cant yn llai yn y grŵp oed gweithio yn cyfranogi yn yr economi. Rhaid inni unioni'r agweddau hynny.

Bwriad ‘Cymru ar ei Hennill’ yw gwneud hynny gydag amcanion clir, targedau penodol a chynllun gweithredu ar gyfer Llywodraeth y Cynulliad a'i rhanddeiliaid, megis partneriaid mewn llywodraeth leol, y gymuned fusnes a'r undebau llafur. Mae wedi ei chostio'n llawn, gan gynnwys y gwaelodlinau, sy'n cyfrannu naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at ddatblygu economaidd drwy'r gyllideb datblygu economaidd; rhan fawr o'r gyllideb addysg a dysgu gydol oes—ac eithrio ysoglion; mae hefyd yn cynnwys rhan fawr o'r gyllideb amaethyddiaeth—ond nid y taliadau uniongyrchol i ffermwyr—a rhannau mawr o'r gyllideb trafnidiaeth. Dyna sut y diffiniwn y blwch lle mae datblygu economaidd yn gweithredu yn y Cynulliad a rhydd hynny ffigur inni o £15 biliwn dros gyfnod o 10 mlynedd.

Mae'r strategaeth felly, yn gyfuniad o welliannau i raglenni presennol a mentrau newydd pan eu bod yn briodol. Caiff y gweithrediadau a nodir eu hadolygu'n rheolaidd a'u diweddar i sicrhau bod y ddogfen yn gyfredol. Nid cynllun pum mlynedd Sofietaidd ei ffurf ydyw, sy'n nodi'n benodol beth fydd y cynhyrchiant mewn dur neu drydan ymhen pum mlynedd. Mae'n strategaeth sydd a wnelo â gwario arian cyhoeddus mewn ffordd fwy craff i gyflawni'r amcan o drawsffurfio perfformiad economaidd Cymru i tua 40 i 50 y cant o'r math o lefelau sydd gan Iwerddon ers iddi gymryd cam sydyn ymlaen, pan oedd yn elwa ar arian Amcan 1. Wrth gwrs, cafodd Iwerddon fwy o arian na Chymru: cafodd arian ar gyfer y wlad gyfan yn hytrach nag ar gyfer dwy ran o dair y mae Cymru yn awr ar elwa arno.

Er bod gan economi Cymru sawl nodwedd bwysig a chyfleoedd arwyddocaol i

for development, there is no question that this is a big job. We know, for instance that, regarding the low participation rate in the economy, women tend to participate less in Wales than in other countries. Therefore, we must put that right and remove any inhibitions on women participating in the workforce—most obviously to provide better childcare. We also know that men over 50, especially in the south Wales valleys, tend to participate at a low level in the economy. It may be a one-off consequence of the decline of the coal mining industry. We do not yet know, but it is shows up clearly in the figures, and we must do something about it. We also know that we have the wrong industrial and occupational structure to give us high-value added jobs, and we must put that right. We have the lowest proportion of people in professional, administrative, technical and scientific occupations of any part of the UK. We must put that right.

There have been some wonderful signs over the past year, such as Unilever deciding to locate a large part of its European headquarters in Ewloe. However, we need more company headquarters, and research and development headquarters, to relocate to Wales, or we need to grow more of our own businesses—in which case, the company headquarters and research and development functions would automatically be in Wales—to put right that abnormality about the Welsh economy.

**Geraint Davies:** You mentioned the Valleys. No doubt you are aware that there are many indigenous multi-media businesses in the Rhondda and surrounding Valleys, including the recently named top 100 entrepreneurs in Wales, who were severely hampered by the lack of broadband facilities in the Valleys and are actively considering relocating elsewhere. What will you do about that?

**The First Minister:** Part of the strategy is to improve broadband provision throughout Wales. You will be aware, Geraint, from British Telecom's comments earlier this week, that it claims that there is a problem of take-up as well as supply. We must put that

ddatblygu, mae hon, yn ddiau, yn dasg enfawr. Gwyddom, er enghraifft, o ran y gyfradd gyfranogi isel yn yr economi, bod merched yn tueddu i gyfranogi llai yng Nghymru nag mewn gwledydd eraill. Felly, rhaid inni unioni hynny a dileu unrhyw waharddiadau ar ferched yn cyfranogi yn y gweithlu—yn fwyaf amlwg er mwyn darparu gwell gofal plant. Gwyddom hefyd fod dynion dros 50 oed, yn enwedig yng nghymoedd y de, yn tueddu i gymryd rhan ar lefel isel yn yr economi. Efallai mai canlyniad uniongyrchol y dirywiad yn y diwydiant glo yw hyn. Ni wyddom eto ond dengys yn glir yn y ffigurau, a rhaid inni wneud rhywbeth yn ei gylch. Gwyddom hefyd fod y strwythur diwydiannol a galwedigaethol anghywir gennym i roi swyddi gwerth ychwanegol uchel inni, a rhaid unioni hynny. Mae'r gyfran isaf o bobl mewn galwedigaethau proffesiynol, gweinyddol, technegol a gwyddonol gennym o unrhyw ran o'r DU. Rhaid inni unioni hynny.

Bu rhai arwyddion gwych dros y flwyddyn ddiwethaf, fel Unilever yn penderfynu lleoli rhan fawr o'i bencadlys Ewropeidd yn Ewlo. Fodd bynnag, mae angen i fwy o bencadlysoedd cwmniau, a phencadlysoedd ymchwil a datblygu, adleoli i Gymru, neu mae angen inni gynhyrchu mwy o'n busnesau ein hunain—os felly, byddai swyddogaethau'r pencadlysoedd cwmniau a'r swyddogaethau ymchwil a datblygu yn awtomatig yng Nghymru—i unioni'r annormaledd ynglŷn ag economi Cymru.

**Geraint Davies:** Gwnaethoch sôn am y Cymoedd. Yn ddiau, yr ydych yn ymwybodol bod llawer o fusnesau amlgyfrwng cynhenid yn y Rhondda a'r Cymoedd o'i hamgylch, gan gynnwys y 100 entrepreneur uchaf yng Nghymru a enwyd yn ddiweddar, a gafodd eu rhwystro'n ddifrifol gan y prinder cyfleusterau band llydan yn y Cymoedd ac sy'n ystyried adleoli i rywle arall. Beth a wnewch chi ynglŷn â hyn?

**Prif Weinidog Cymru:** Rhan o'r strategaeth yw gwella darpariaeth band llydan ledled Cymru. Fe fyddwch yn ymwybodol, Geraint, o sylwadau British Telecom yn gynharach yr wythnos hon, ei fod yn honni bod problem gyda'r gyfradd dderbyn yn ogystal â

right to marry the supply to the demand. It is not as simple as saying that there should be more broadband provision, it is how it is packaged, and its accessibility: how close to the exchange one must be to be able to access it. It is also about competition and price. It is not as simple as saying that there is not enough broadband provision. However, we accept—and I mentioned earlier that that was one of the four specified drivers in the OECD list—that it is part of our job to make Wales the best business environment in the world. You cannot do that if you do not have almost universal broadband provision. However, you must also sell it hard to people to make them take it up.

In setting a fresh direction for Wales, we also want to promote Wales as a green business location, encouraging businesses to adopt environmental best practice and taking advantage of green business opportunities. I am pleased that Forum for the Future has given ‘A Winning Wales’ a warm endorsement on the sustainability front.

We also want to establish a greater profile for Wales in the world by attracting high-value, sustainable investment to Wales, assisting Welsh businesses to find new markets, adopting a more focused tourism strategy and attracting far more foreign students to study in Welsh universities. That can have a beneficial effect in creating a warmth towards Wales when they are in key positions back in their home countries 10, 20 or 30 years later.

I will deal with the amendments when I reply. However, in closing my initial remarks, we believe that ‘A Winning Wales’ will provide the framework for driving the Welsh economy into the twenty-first century by improving the transport infrastructure in Wales and developing a sustainable, integrated transport network; creating strong communities by encouraging community regeneration from the bottom up; developing the social economy, encouraging participation and the rollout of regional

chyflenwi. Rhaid inni unioni hynny er mwyn cyfuno'r cyflenwad i'r galw. Nid yw mor syml â dweud y dylai fod mwy o ddarpariaeth band llydan, yr hyn sy'n bwysig yw'r modd y caiff ei becynnau, a'i hygyrchedd: pa mor agos at y gyfnewidfa y mae'n rhaid i rywun fod i allu manteisio arno. Mae a wnelo hefyd â chystadleuaeth a phris. Nid yw mor syml â dweud nad oes digon o ddarpariaeth band llydan. Fodd bynnag, derbyniwn—a soniais yn gynharach mai dyna oedd un o'r pedair elfen benodol yn rhestr y Gymdeithas Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd—ei fod yn rhan o'n gwaith i greu'r amgylchedd busnes gorau yn y byd yng Nghymru. Ni allwch wneud hynny os nad oes gennych ddarpariaeth band llydan gyffredinol. Fodd bynnag, rhaid ichi hefyd ymdrechu'n galed i'w werthu er mwyn i bobl ei ddefnyddio.

Wrth osod cyfeiriad newydd i Gymru, yr ydym hefyd am hyrwyddo Cymru fel lleoliad busnes gwyrdd, gan annog busnesau i fabwysiadu arfer gorau amgylcheddol a manteisio ar gyfleoedd busnes gwyrdd. Yr wyf yn falch bod Fforwm i'r Dyfodol wedi rhoi cymeradwyaeth gynnes i ‘Cymru ar ei Hennill’ o ran cynaliadwyedd.

Yr ydym hefyd am sefydlu proffil uwch i Gymru yn y byd drwy ddenu buddsoddiad gwerth uchel, cynaliadwy i Gymru, helpu busnesau Cymru i ddod o hyd i farchnadoedd newydd, mabwysiadu strategaeth twristiaeth fwy penodol a denu mwy o fyfyrwyr dramor i astudio mewn prifysgolion yng Nghymru. Gall hynny fod yn fuddiol drwy greu ymdeimlad o gynhesrwydd tuag at Gymru pan fyddant mewn swyddi allweddol yn eu gwledydd eu hunain 10, 20 neu 30 mlynedd yn ddiweddarach.

Byddaf yn delio â'r gwelliannau pan fyddaf yn ymateb. Fodd bynnag, wrth ddod â'm sylwadau cychwynnol i ben, credwn y bydd ‘Cymru ar ei Hennill’ yn darparu'r fframwaith ar gyfer datblygu economi Cymru yn yr unfed ganrif ar hugain drwy wella'r seilwaith trafnidiaeth yng Nghymru a datblygu rhwydwaith trafnidiaeth integredig, cynaliadwy; creu cymunedau cryf drwy annog adfywio cymunedol o'r gwaelod i fyny; datblygu'r economi gymdeithasol, annog cyfranogiad a chyflwyno strategaethau

regeneration strategies; and supporting rural Wales by developing income and employment opportunities for young people, implementing our strategy for the future of Welsh farming, and searching for specific niche markets for Welsh farming.

I realise that it is ambitious. Many things must go right for us to be able to achieve that target of 90 per cent of UK average GDP per capita, and the 135,000 rise in total jobs in Wales, of which 20,000 would be additional jobs in finance and business services. The Government's job is to ensure that what must go right, does go right. We are committed to implementing it, in conjunction with our stakeholders and partners. We are confident of success if we can generate that sense of national unity. That is why I move the motion with pleasure and pride this morning.

**Phil Williams:** I propose the following amendments in the name of Jocelyn Davies.

Amendment 1: in point 1, replace '*approves*' with '*notes*'.

I propose amendment 3. Add at the end of point 1:

*but contrasts:*

*i. the aim of spreading prosperity more evenly with the refusal to set regional targets;*

*ii. the aim of developing a knowledge-based economy with the low priority given to higher education in the budget so that the shortfall of spending per student in comparison to England and Scotland is increasing;*

*iii. the aim of providing world-class electronic communications with a small budget allocated to broadband infrastructure;*

*iv. the aim of encouraging clean energy development with the practice that has blocked most major wind and bio fuel projects in Wales over the past two years;*

adfywio rhanbarthol; a chefnogi Cymru wledig drwy ddatblygu cyfleoedd ar gyfer incwm a chyflogaeth i bobl ifanc, gweithredu ein strategaeth ar gyfer dyfodol y diwydiant ffermio yng Nghymru, a chwilio am farchnadoedd arbenigol penodol ar gyfer diwydiant ffermio Cymru.

Sylweddolaf fod hynny'n uchelgeisiol. Rhaid i sawl peth fynd o'n plaid er mwyn inni allu cyflawni'r targed hwennw o 90 y cant o CMC cyfartalog y pen y DU, a'r cynnydd o 135,000 yn nifer y swyddi yng Nghymru, y byddai 20,000 ohonynt yn swyddi ychwanegol mewn gwasanaethau cyllid a busnes. Gwaith y Llywodraeth yw sicrhau bod yr hyn sy'n gorfod mynd yn iawn, yn mynd yn iawn mewn gwirionedd. Yr ydym yn ymrwymedig i'w weithredu, mewn cydweithrediad â'n rhanddeiliaid a'n partneriaid. Yr ydym yn hyderus y gwnawn lwyddo os gallwn gynhyrchu'r ymdeimlad o undod cenedlaethol. Dyna pam y cynigiaf y cynnig gyda phleser a balchder y bore yma.

**Phil Williams:** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jocelyn Davies.

Gwelliant 1: ym mhwynt 1, rhoi '*nodi*' yn lle '*cymeradwyo*'.

Cynigiaf welliant 3. Ychwanegu ar ddiwedd pwyt 1:

*ond yn cyferbynnu:*

*i. y nod o ledaenu ffyniant yn decach gyda'r penderfyniad i wrthod gosod targedau rhanbarthol;*

*ii. y nod o ddatblygu economi yn seiliedig ar wybodaeth gyda'r flaenoriaeth isel a roddwyd i addysg uwch yn y gyllideb fel bod y diffyg o ran gwariant fesul myfyriwr, o'i gymharu â Lloegr a'r Alban, yn cynyddu;*

*iii. y nod o ddarparu system gyfathrebu electronig gyda'r gorau yn y byd gyda'r gyllideb fach a ddyrannwyd i'r seilwaith band llydan;*

*iv. y nod o annog datblygu ynni glân gyda'r arfer sydd wedi rhwystro'r rhan fwyaf o brosiectau gwynt a bio-danwydd mawr yng Nghymru yn ystod y ddwy flynedd diwethaf;*

v. the aim of maximising state aid derogations with the failure to obtain effective operating aids for industry in the Objective 1 regions of Wales.

v. y nod o ddefnyddio i'r eithaf y rhan-ddirymiadau cymorth gwladol gyda'r methiant i gael cymorth gweithredol effeithiol ar gyfer diwydiant yn rhanbarth Amcan 1 Cymru.

I propose amendment 4. In points 2 and 4 replace 'Welsh Assembly Government' with 'Government of Wales'.

Cynigiaf welliant 4. Ym mhwyntiau 2 a 4 rhoi 'Llywodraeth Cymru' yn lle 'Llywodraeth Cynulliad Cymru'.

I propose amendment 5. Add at the end of point 2:

Cynigiaf welliant 5. Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 2:

*but regrets the failure of the Government to implement the recommendations of the Economic Development Committee to establish an economic policy board.*

*ond yn gresynu at fethiant y Llywodraeth i weithredu argymhellion y Pwyllgor Datblygu Economaidd i sefydlu bwrdd polisi economaidd.*

I propose amendment 7. Add at the end of point 3:

Cynigiaf welliant 7. Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

*and hopes that an improved version of the strategy will be completed in time for the mid-term evaluation of the Objective 1 programme.*

*ac yn gobeithio y bydd fersiwn well o'r strategaeth yn cael ei chwblhau erbyn gwerthusiad canol-tymor rhaglen Amcan 1.*

Tri chynnig i Gymro.

Three tries for a Welshman.

This is the third economic strategy that the Assembly Government has published. Let us start with the good news: it is an improvement on the other two—it could hardly be worse—and it avoids the silly mistakes of the February version. That document should never have been issued in its raw, uncorrected version. We welcome the aspirations in this new document: the commitment to bringing prosperity to the whole population; raise employment to the UK average; build a knowledge-based economy; provide world-class electronic communications; promote renewable energy; diversify the rural economy, and provide:

Dyma'r drydedd strategaeth economaidd y mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ei chyhoeddi. Gadewch inni ddechrau gyda'r newyddion da: mae'n welliant ar y ddwy arall—prin y gallai fod yn waeth—ac mae'n osgoi'r camgymeriadau gwirion a oedd yn fersiwn mis Chwefror. Ni ddylai'r ddogfen honno fod wedi cael ei chyhoeddi ar ei ffurf grai, heb ei chywiro. Croesawn y dyheadau yn y ddogfen newydd hon: yr ymrwymiad i ddod â ffyniant i'r boblogaeth gyfan; codi cyflogaeth i gyfartaedd y DU; adeiladu economi ar sail gwybodaeth; darparu cysylltiadau electronig o'r radd flaenaf; hyrwyddo ynni adnewyddadwy; arallgyfeirio'r economi wledig, a darparu:

'the best business environment in the world.'

'yr amgylchedd busnes gorau yn y byd.'

Wonderful—I agree with every word, almost all of which was in my manifesto in 1999.

Gwych—cytunaf â phob gair, ac yr oedd y cyfan bron yn fy manifesto yn 1999.

Unfortunately, there are deep contradictions between aspiration and policy. First, you cannot have prosperity in all parts of Wales without a regional strategy. An analysis of

Yn anffodus, mae gwrteddwyediadau dwfn rhwng dyhead a pholisi. Yn gyntaf, ni allwch gael ffyniant ym mhob rhan o Gymru heb strategaeth ranbarthol. Mae dadansoddiad o

the different needs and assets of the distinct economic regions is an essential part of a real strategy, but in ‘A Winning Wales’ this regional dimension is ignored. There is nothing in this for Gwynedd, Ynys Môn, Pembrokeshire, Carmarthenshire, Swansea bay, and—above all—nothing for the Valleys.

The Government replies that you cannot force industry to move to remote parts of Wales. That is obvious. However, neither can you force industry to come to Wales in the first place. If you accept the Government’s argument, there would be no point in setting a target for Wales as a whole. Our strategy must be based on creating the appropriate combination of education and infrastructure to persuade companies that Wales is an ideal place for investment. If you can do that for Wales as a whole, you can do it for each of the regions. After two and a half years, has the Government still not done its homework on regional strategy, or has it no serious commitment to bring prosperity to the Valleys and the west? Does it reject regional targets because it has no intention of targeting the necessary extra resources to meet those targets?

anghenion ac asedion gwahanol y rhanbarthau economaidd penodol yn rhan hanfodol o strategaeth wirioneddol, ond yn ‘Cymru ar ei Hennill’ anwybyddir y dimensiwn rhanbarthol hwn. Nid oes dim yn hyn ar gyfer Gwynedd, Ynys Môn, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, bae Abertawe, ac—yn anad dim—dim ar gyfer y Cymoedd.

Ateb y Llywodraeth yw na allwch orfodi diwydiant i symud i rannau pellennig o Gymru. Mae hynny’n amlwg. Fodd bynnag, ni allwch ychwaith orfodi diwydiant i ddod i Gymru yn y lle cyntaf. Os derbyniwch ddadl y Llywodraeth, ni fyddai diben gosod targed i Gymru gyfan. Rhaid seilio ein strategaeth ar greu’r cyfuniad priodol o addysg a seilwaith i berswadio cwmniau bod Cymru yn lle delfrydol ar gyfer buddsoddi. Os gallwch wneud hynny ar gyfer Cymru gyfan, gallwch ei wneud ar gyfer pob rhanbarth. Ar ôl dwy flynedd a hanner, a yw’r Llywodraeth yn dal heb fod wedi gwneud ei gwaith cartref ar strategaeth ranbarthol, neu efallai nad oes ganddi unrhyw ymrwymiad difrifol i ddod â ffyniant i’r Cymoedd ac i’r gorllewin? A yw’n wrthod targedau rhanbarthol gan nad yw’n fwriad ganddi i dargedu’r adnoddau ychwanegol angenreidiol i gyrraedd y targedau hynny?

11:15 a.m.

Mention of resources leads me to the second deep contradiction between this document and reality—reality being the budget adopted a few weeks ago. The £15 billion which has been referred to does not include any significant extra money to change the position we have been in for the past few years. It includes the Objective 1 and the existing forward-look budgets. However, what is the point of talking about the crucial role of education, especially higher education, if we have an education budget that starts with less money per head than England and Scotland, and then proposes a rate of increase well below the rest of the UK and yet delivers a faster rate of growth? Why fantasise about ‘world-class electronic communications’ and then allocate what is clearly an inadequate total sum for broadband infrastructure, which will not deliver broadband to the population of Wales in the next few years? The same applies to public

Mae sôn am adnoddau yn fy arwain at yr ail wrthdywediad dwfn rhwng y ddogfen hon a realiti—realiti yw’r gyllideb a fabwysiadwyd ychydig wythnosau yn ôl. Nid yw’r £15 biliwn y cyfeiriwyd ato yn cynnwys unrhyw arian ychwanegol sylweddol i newid y sefyllfa y buom ynddi ers yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae’n cynnwys cyllideb Amcan 1 a’r cyllidebau blaengynllunio presennol. Fodd bynnag, beth yw diben sôn am rôl holl bwysig addysg, yn enwedig addysg uwch, os oes gennym gyllideb addysg sy’n dechrau gyda llai o arian y pen na Lloegr a’r Alban, ac yna’n cynnig cyfradd cynyddu ymhell islaw gweddi y DU ac eto’n cyflawni cyfradd twf gyflymach? Pam breuddwydio am ‘gysylltiadau electronig o’r radd flaenaf’ ac yna dyrannu’r hyn sydd yn amlwg yn swm annigonol ar gyfer seilwaith band llydan, na fydd yn cyflwyno band llydan i boblogaeth Cymru yn yr ychydig flynyddoedd nesaf?

transport.

There is also a contradiction—which I hope will be resolved soon—between the welcome commitment to renewable energy and the fact that most proposals for renewable energy projects in Wales have been blocked by this Government. It is ironic that the one project that has won approval is the one that the Assembly Government could not block.

Some of these contradictions could have been properly resolved in Committee, but the Economic Development Committee has not been involved in preparing the final version of the strategy. That is punishment for members from all parties for being absolutely right in our judgment on the February draft. The final contradiction is between the rhetoric of partnership and the Assembly Government's determination to press ahead without involving its partners. Real partnership was the secret of Ireland's social partnership, which produced its development plan. If we are copying Ireland, I cannot understand why the economic policy board has been rejected. This is, therefore, 100 per cent Labour strategy, and it bears the hallmark of this Government, namely a contradiction between aspiration and reality. By international standards, in comparison with the Irish development plant, even by the standards of this Government, it is a shoddy piece of work.

**Brian Gibbons** rose—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. You have run out of time, Phil, therefore you cannot take an intervention.

**Alun Cairns:** I propose the following amendments in the name of Jonathan Morgan. Amendment 6: at the end of point 2 add:

*but regrets that actions contained in the document do not link specifically to the targets and outcomes.*

I propose amendment 8. At the end of point 3 add:

Mae'r un peth yn wir am drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae gwrthddywediad hefyd—a gaiff ei ddatrys yn fuan gobeithio—rhwng yr ymrwymiad clodwiw i ynni adnewyddadwy a'r ffaith bod y rhan fwyaf o gynigion ar gyfer prosiectau ynni adnewyddadwy yng Nghymru wedi eu rhwystro gan y Llywodraeth hon. Mae'n eironig mai'r un prosiect a enillodd gymeradwyaeth yw'r un na allai Llywodraeth y Cynulliad ei rwystro.

Gellid bod wedi datrys rhai o'r gwrthddywediadau hyn yn y Pwyllgor, ond ni fu'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn ymwneud â pharatoi fersiwn terfynol y strategaeth. Dyna'r gosb i aelodau o bob plaid am fod yn holol gywir yn ein barn ar ddrafft mis Chwefror. Y gwrthddywediad terfynol yw'r un rhwng rhethreg partneriaeth a phenderfyniad Llywodraeth y Cynulliad i fwrw ati heb gynnwys ei phartneriaid. Partneriaeth wirioneddol oedd cyfrinach partneriaeth gymdeithasol Iwerddon, a gynhyrchodd ei chynllun datblygu. Os ydym yn efelychu Iwerddon, ni allaf ddeall pam y gwrthodwyd y bwrdd polisi economaidd. Dyma felly, strategaeth Llafur 100 y cant, ac mae nod amgen y Llywodraeth arni, sef gwrthddywediad rhwng dyhead a realiti. Yn ôl safonau rhyngwladol, mewn cymhariaeth â chynllun datblygu Iwerddon, hyd yn oed yn ôl safonau'r Llywodraeth hon, mae'n ddarn o waith eilradd.

**Brian Gibbons** a gododd—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Daeth eich amser i ben, Phil, felly ni allwch dderbyn ymyriad.

**Alun Cairns:** Cynigiaf y gwelliannau canlynol yn enw Jonathan Morgan. Gwelliant 6: ar ddiwedd pwynt 2 ychwanegu:

*ond yn gresynu nad yw'r camau yn y ddogfen yn cysylltu'n benodol â'r targedau a'r canlyniadau.*

Cynigiaf welliant 8. Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 3:

*and calls for an economic policy board, as recommended in the Economic Development Committee's review of business support, to conduct this duty and to publish annually the progress made against the strategy and targets.*

I propose amendment 9. Add at the end of point 4:

*annually against the targets listed in the document.*

I propose amendment 10. Add a new point at the end of the motion:

*notes that the growth target of Welsh gross domestic product per person to rise from 80 per cent to 90 per cent of the UK average over the next decade is unlikely to be achieved unless there is a significant increase in resources available for economic development purposes.*

I propose amendment 11. Add as a new point at the end of the motion:

*calls on the proposed economic research advisory panel to report within 12 months to the National Assembly on the likelihood of the Welsh Assembly Government of achieving its GDP growth target through 'A Winning Wales' under planned resources.*

The journey of the national economic development strategy has been somewhat tortuous since the establishment of the Assembly. This was the very first document that the Economic Development Committee discussed during the first few weeks of the Assembly, almost three years ago. It is hard to believe that, after all this time, the administration has finally presented its final draft. At the outset, there was an intention for all parties to work together and even to offer a joint paper. Unfortunately, the mutual respect and cross-party support broke down when the Minister refused to accept the cross-party recommendations last February. As a result, in spite of a Labour/Liberal majority on the Committee, it refused to endorse the paper, but it respected the Minister's right to proceed with the consultation. He said at the time that there was a great urgency, because the consultation

*ac yn galw am fwrdd polisi economaidd, fel yr argymhellir ynadolgyiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o gymorth busnes, i gyflawni'r ddyletswydd hon ac i gyhoeddi'n flynyddol pa gamau a gymerwyd ar sail y strategeth a thargedau.*

Cynigiaf welliant 9. Ychwanegu ar ddiweddu pwynt 4:

*yn flynyddol yn erbyn y targedau a restrir yn y ddogfen.*

Cynigiaf welliant 10. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiweddu y cynnig:

*yn nodi ei bod yn annhebygol y bydd cynrych mewnwladol crynswth Cymru fesul person yn codi 80 y cant i'r targed o 90 y cant o gyfartaledd y DU yn ystod y degawd nesaf oni bai fod cynnydd sylweddol yn yr adnoddau sydd ar gael at ddibenion datblygu economiadd.*

Cynigiaf welliant 11. Ychwanegu pwynt newydd ar ddiweddu y cynnig:

*yn galw ar y panel ymgynghorol ar ymchwil economaidd arfaethedig i adrodd cyn pen 12 mis i'r Cynulliad Cenedlaethol ar ba mor debygol yw Llywodraeth Cynulliad Cymru o gyrraedd ei tharged GDP trwy 'Cymru ar ei Hennill' gyda'r adnoddau a gylluniwyd.*

Bu hynt y strategeth datblygu economaidd genedlaethol rywfaint yn drofaus ers sefydlu'r Cynulliad. Hon oedd y ddogfen gyntaf i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ei thrafod yn ystod ychydig wythnosau cyntaf y Cynulliad, bron dair blynedd yn ôl. Mae'n anodd credu, ar ôl yr holl amser hwn, bod y weinyddiaeth o'r diwedd wedi cyflwyno ei drafft terfynol. Ar y dechrau, yr oedd bwriad i bob plaid gydweithio a hyd yn oed gynnig papur ar y cyd. Yn anffodus, chwalodd y parch o'r ddwy ochr a'r gefnogaeth drawsbleidiol pan wrthododd y Gweinidog dderbyn yr argymhellion trawsbleidiol fis Chwefror diwethaf. O ganlyniad, er gwaethaf mwyaf Llafur/Democratiaid Rhyddfrydol ar y Pwyllgor, gwrthododd gymeradwyo'r papur, ond parchodd hawl y Gweinidog i fwrw ymlaen â'r ymgynghori. Dywedodd ar y pryd fod brys mawr, gan fod angen cwblhau'r ymgynghoriad erbyn yr hydref er

needed to be completed by the autumn to be able to bid into the budget round. We had already waited two years for a strategy at that time and felt that a further two months would not have made much difference. The Minister rejected our calls because of the so-called tight timescale.

You will not be surprised to hear that the strategy was criticised widely and ridiculed by many organisations. So much so, that the consultation period in the summer was extended, in spite of the tight timescale. After the formal consultation ended on 6 July, the critical responses were so overwhelming that the new Minister for Economic Development was forced to delay the process yet again, and publish another version for consultation. So much for the tight timescale and the budget round bidding.

This has finally led to today's strategy and today's debate. The verdict: on the positive side, it flows better than previous publications; on the negative side, it flows in completely the wrong direction. The document has failed to recognise the fundamental flaws that existed in all versions. The first flaw relates to the targets, which are wholly unrealistic in comparison with the resources that the Minister is offering. That was the cross-party view some eight months ago. At that time, we thought that to move from 83 per cent of UK average GDP per capita to 90 per cent in 10 years, with the level of resources available, removed the strategy's credibility. During the long delays that I mentioned, statistical revisions have lowered Wales's GDP per capita starting point from 83 per cent to 80 per cent of the UK average GDP per capita—I am not blaming the administration for that, it is simply a revision. However, the Minister has failed to account for that and to recognise that the gap is even greater. To achieve 90 per cent of the UK average GDP per capita is even more impossible than it was previously. Furthermore, despite worldwide economic uncertainties and the probability of a global recession, the Minister still believes that we can achieve 90 per cent of the UK average GDP per capita based on no significant change in the available resources. The draft document presents a figure of £15 billion

mwyn gallu rhoi cynnig yn y cylch cyllideb. Yr oeddem eisoes wedi aros dwy flynedd am strategaeth ar y pryd a theimlwyd na fyddai dau fis arall wedi gwneud llawer o wahaniaeth. Gwrthododd y Gweinidog ein galwadau oherwydd yr amserlen dynn fel y'i gelwir.

Ni fyddwch yn synnu i glywed bod y strategaeth wedi ei beirniadu'n helaeth ac i lawer o sefydliadau wneud hwyl am ei phen. Gymaint felly, fel yr ymestynnwyd y cyfnod ymgynghori yn yr haf, er gwaethaf yr amserlen dynn. Ar ôl i'r ymgynghori ffurfiol ddod i ben ar 6 Gorffennaf, yr oedd cymaint o ymatebion beirniadol fel y bu'n rhaid i'r Gweinidog newydd dros Ddatblygu Economaidd oedi'r broses unwaith eto, a chyhoeddi fersiwn arall ar gyfer ymgynghori. Beth a ddigwyddodd i'r amserlen dynn a'r cynigion yn y cylch cyllideb.

Yn y pen draw, arweiniodd hyn at strategaeth heddiw a dadl heddiw. Y ddedfryd: ar yr ochr gadarnhaol, mae'n llifo'n well na chyhoeddiadau blaenorol; ar yr ochr negyddol, mae'n llifo i'r cyfeiriad anghywir yn gyfan gwbl. Methodd y ddogfen â chyd nabod y diffygion sylfaenol a fodolai ym mhob fersiwn. Mae'r diffyg cyntaf yn ymwneud â'r targedau, sydd yn holol afrealistig o'u cymharu â'r adnoddau y mae'r Gweinidog yn eu cynnig. Dyna oedd y farm drawsbleidiol tua wyth mis yn ôl. Ar y pryd, yr oeddem o'r farm bod symud o 83 y cant o CMC y pen o gyfartaledd y DU i 90 y cant ymhenglynedd, gyda'r adnoddau oedd ar gael, yn chwalu hygrededd y strategaeth. Yn ystod yr oedi hir y soniais amdano, mae diwygiadau ystadegol wedi gostwng CMC y pen yng Nghymru o fan cychwyn o 83 y cant i 80 y cant o CMC y pen o gyfartaledd y DU—ni feiaf y weinyddiaeth am hynny, diwygiad yn syml ydyw. Fodd bynnag, methodd y Gweinidog â rhoi cyfrif ar gyfer hynny a methodd â chyd nabod bod y bwlc'h hyd yn oed yn fwy. Mae ceisio cyflawni 90 y cant o CMC y pen o gyfartaledd y DU hyd yn oed yn fwy amhosibl nag yr oedd yn flaenorol. At hynny, er gwaethaf ansicrwydd economaidd byd-eang, a thebygolrwydd dirwasgiad byd-eang, cred y Gweinidog o hyd y gallwn gyflawni 90 y cant o CMC y pen o gyfartaledd y DU yn seiliedig ar ddim newid sylweddol yn yr adnoddau sydd ar

allocated to develop the economy, which is misleading. The transport budget and the economy budget are included within that £15 billion. I do not know why we do not add to that the £2 billion or £3 billion that is spent on health, because without a healthy workforce you cannot have economic development. Let us put the block grant together and claim that that is going towards the national economic development strategy.

What do the experts say? The latest economic forecasts show that the Minister is whistling in the wind. All have revised economic projections downwards yet again. The movement between the spring and autumn forecasts are significant. Worryingly, they all predict that the Welsh economy will grow slower than in the rest of the UK. Business Strategies Limited, one of the three key economic forecasters, suggests that, this year, our economy will almost enter recession and grow by only 0.1 per cent, whereas the UK economy will grow by 2.2 per cent. That being the case, by next year, we will be worse off than we already are. Wales's GDP per capita will be lower than 80 per cent of the UK average, again creating a gap that is more difficult to close. No doubt, the Minister will seek to dismiss these points. However, I hope that on this occasion, he will address the economic reality rather than resort to derogatory personal comments, as he has done in the past.

I note that my time is running out. This document does not address the needs of business in terms of transport demands or practical issues such as dualling the A40, a fast-link road to the motorway and information and communications technology improvements across Wales. 'Cymru Ar-lein', as it has been presented—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Your five minutes is up, Alun.

**The Leader of the Welsh Liberal Democrat Group (Michael German):** I want to begin from a different perspective,

gael. Mae'r ffigur o £15 biliwn yn y ddogfen ddrafft, a ddyrennir i ddatblygu'r economi, yn gamarweiniol. Cynhwysir y gyllideb ar gyfer trafnidiaeth a'r gyllideb ar gyfer yr economi o fewn y £15 biliwn hwnnw. Ni wn pam nad ychwanegwn hynny at y £2 biliwn neu'r £3 biliwn a warir ar iechyd, oherwydd heb weithlu iach ni allwch sicrhau datblygiad economaidd. Gadewch inni roi'r grant bloc at ei gilydd, a thaeru ei fod yn mynd tuag at y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol.

Beth a ddywed yr arbenigwyr? Dengys y rhagolygon economaidd diweddaraf fod y Gweinidog â'i ben yn y cymylau. Maent i gyd wedi diwygio'r rhagamcanion economaidd tuag at i lawr unwaith eto. Mae'r symudiad rhwng rhagolygon y gwanwyn a'r hydref yn arwyddocaol. Yr hyn sy'n peri gofid yw bod pob un ohonynt yn rhagweld y bydd economi Cymru yn tyfu'n arafach nag yng ngweddill y DU. Awgryma Strategaethau Busnes Cyfyngedig, un o'r tri chwmni rhagolygon economaidd allweddol, y daw ein heconomiai, eleni, o fewn trwch blewyn i ddirwasgiad ac na fydd yn tyfu mwy na 0.1 y cant, ond y bydd economi'r DU yn tyfu 2.2 y cant. Os felly, erbyn y flwyddyn nesaf, byddwn yn waeth ein byd yn ariannol nag yr ydym ar hyn o bryd. Bydd CMC Cymru y pen yn is na 80 y cant o gyfartaledd y DU, gan greu bwlcw unwaith eto sy'n anos ei gau. Yn ddiabu, bydd y Gweinidog yn ceisio anwybyddu'r pwyntiau hyn. Fodd bynnag, gobeithiaf y bydd, ar yr achlysur hwn, yn ymdrin â'r realiti economaidd yn hytrach na throï at sylwadau personol bychanol, fel y gwnaeth yn y gorffennol.

Nodaf fod fy amser yn dod i ben. Nid yw'r ddogfen hon yn ymdrin ag anghenion busnes o ran galwadau trafnidiaeth neu faterion ymarferol fel deuoli ffordd yr A40, ffordd gyswllt gyflym i'r draffordd a gwelliannau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu ledled Cymru. Mae 'Cymru Ar-lein', fel y'i cyflwynwyd—

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Daeth eich pum munud i ben, Alun.

**Arweinydd Grŵp Democratioaid Rhyddfrydol Cymru (Michael German):** Yr wyf am ddechrau o safbwyt gwahanol,

which is that we should be confident. When it was created, the National Assembly took on the role of wanting to deliver on issues for the people of Wales, not just for the economic future, but across life in Wales. This strategy should be scrutinised closely, and that has happened. However, there comes a point when scrutiny for the good of public policy lapses into navel-gazing, a spiral of cynicism and pettiness that can undermine the confidence which is necessary for us to fulfil our aspirations and visions for the future.

By launching ‘A Winning Wales’, we must believe that we can, and will, win. Consider how far the nation has come. This strategy points the way to economic success in the period up to 2010. Consider the situation five years ago when we were still being ruled by a Conservative Secretary of State for Wales, and the structural fund programmes in Wales were excluded from the Barnett block. Consider where we have reached in five years. The dream of devolution, which the Conservative Party opposed, could not have become a reality then, however, it has now. Objective 1 resources have been won for west Wales and the Valleys. Two-thirds of the country—west Wales and the Valleys—are an Objective 1 area and we have resources for them. The Barnett—

sef y dylem fod yn hyderus. Pan gafodd ei greu, ymgwyroedd y Cynulliad Cenedlaethol â'r rôl o ddymuno cyflwyno ar faterion i bobl Cymru, nid er mwyn y dyfodol economaidd yn unig, ond ar draws bywyd yng Nghymru. Dylid craffu'n ofalus ar y strategaeth hon a dyna sydd wedi digwydd. Fodd bynnag, daw amser pan fydd craffu er budd polisi cyhoeddus yn llithro i fogailsyllu, cynnydd graddol mewn siniciaeth a bychander a all danseilio'r hyder sydd ei angen arnom i gyflawni ein dyheadau a'n gweledigaethau ar gyfer y dyfodol.

Drwy lansio ‘Cymru ar ei Hennill’, rhaid inni gredu y gallwn, ac y gwnawn, ennill. Ystyriwch gymaint y mae'r genedl wedi datblygu. Mae'r strategaeth hon yn dangos y ffordd i lwyddiant economaidd yn y cyfnod hyd at 2010. Ystyriwch y sefyllfa bum mlynedd yn ôl pan oeddem yn cael ein llywodraethu o hyd gan Ysgrifennydd Gwladol Ceidwadol, a'r rhaglenni cronfeydd strwythurol yng Nghymru yn cael eu heithrio o floc Barnett. Ystyriwch ble yr ydym wedi cyrraedd mewn pum mlynedd. Ni allai'r freuddwyd datganoli, a wrthwynebwyd gan y Blaid Geidwadol, fod wedi dod yn realiti bryd hynny, fodd bynnag, mae wedi erbyn hyn. Enillwyd adnoddau Amcan 1 ar gyfer gorllewin Cymru a'r Cymoedd. Mae dwy ran o dair o'r wlad—gorllewin Cymru a'r Cymoedd—yn ardal Amcan 1 ac mae gennym adnoddau ar eu cyfer. Bydd bloc Barnett—

**Alun Cairns:** Will you give way?

**Michael German:** I will finish in a moment. I will speak for a little while longer. The Barnett block, which could not be breached in the past, has now been breached in order to ensure additional expenditure cover for match funds.

**Alun Cairns:** Will you give way?

**Michael German:** I will in a moment. The National Assembly has created Finance Wales, our first development bank. There are those who do not believe that we can achieve the step change needed in the Welsh economy to achieve 90 per cent of UK average GDP per capita—a feat that would only require 40 per cent of the recent Irish

**Alun Cairns:** A ildiwrch?

**Michael German:** Byddaf yn gorffen mewn munud. Siaradaf am ychydig o amser yn fwy. Erbyn hyn mae bloc Barnett, na ellid ei dorri yn y gorffennol, wedi ei dorri er mwyn sicrhau gwariant ychwanegol ar gyfer arian cyfatebol.

**Alun Cairns:** A ildiwrch?

**Michael German:** Ildiaf mewn munud. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi creu Cyllid Cymru, ein banc datblygu cyntaf. Mae yna rai na chredant y gallwn gyflawni'r newid graddol sydd ei angen yn economi Cymru i gyflawni 90 y cant o CMC y pen o gyfartaledd y DU—camp na fyddai'n galw am fwy na 40 y cant o gyfradd twf ddiweddar

growth rate.

11:25 a.m.

**Alun Cairns** *rose—*

**Michael German:** Alun Cairns wants to intervene. Presumably, he wants to ask why we are including everything in the big budget.

**Alun Cairns:** That is loosely related to my intervention. However, you said a moment ago that there were sufficient resources for Objective 1 in terms of match funding. If that is the case, why did you support the motion of no confidence against the former First Minister?

**Michael German:** I am afraid that you did not listen, Alun. I will repeat the words to ensure that you understand them: ‘to ensure additional public expenditure cover for match funding’. That is different from what you said. However, you talked about the importance of transport, and then complained about the transport budget being included in the £15 billion. Those two statements are entirely at odds with each other. Presumably that is your direction—

**Alun Cairns** *rose—*

**Michael German:** I will not give way again. Among the doubters—and we have heard one—many of them have stood for election in the Assembly. There are those in the Assembly who believe that we can do nothing without additional powers. My party’s position on both these issues is consistent. We want more powers for Wales and more public investment. To win more, we are ready to roll up our sleeves and fight for it. That is why my party believes that replacing the Barnett formula with a needs-based formula would bring additional public expenditure to Wales. However, to fail to strive for significant improvements in Welsh economic and social life and utilising the resources at our disposal now would be a betrayal of Welsh political aspirations and of the people who elected us.

I am proud of this partnership strategy, ‘A Winning Wales’, because it includes so many

Iwerddon.

**Alun Cairns** *a gododd—*

**Michael German:** Mae Alun Cairns am ymyrryd. Mae’n debyg ei fod am ofyn pam ein bod yn cynnwys popeth yn y gyllideb fawr.

**Alun Cairns:** Mae hynny’n ymwneud yn fras â’m hymyriad. Fodd bynnag, dywedasoch eiliad yn ôl fod digon o adnoddau ar gyfer Amcan 1 o ran arian cyfatebol. Os felly, pam na wnaethoch gefnogi’r cynnig o ddifyg hyder yn erbyn cyn Brif Weinidog Cymru?

**Michael German:** Mae’n ddrwg gennyf na wrandawsoch, Alun. Ailadroddaf y geiriau i sicrhau eich bod yn eu deall: ‘er mwyn sicrhau gwariant ychwanegol ar gyfer arian cyfatebol’. Mae hynny’n wahanol i’r hyn a ddywedasoch chi. Fodd bynnag, gwnaethoch sôn am bwysigrwydd trafnidiaeth, a chwyno wedyn am y gyllideb trafnidiaeth yn cael ei chynnwys yn y £15 biliwn. Mae’r ddau ddatganiad hynny yn hollol groes i’w gilydd. Mae’n debyg mai dyna’ch cyfarwyddyd—

**Alun Cairns** *a gododd—*

**Michael German:** Nid ildiaf eto. Ymhllith yr amheuwyr—a chlywsom un—mae llawer wedi sefyll fel ymgeiswyr yn y Cynulliad. Mae rhai yn y Cynulliad sy’n credu na allwn wneud dim heb bwerau ychwanegol. Mae safbwyt fy mhlaid ar y ddau fater hyn yn gyson. Yr ydym am gael mwy o bwerau i Gymru a mwy o fuddsoddiad cyhoeddus. Er mwyn ennill mwy, yr ydym eisoes yn torchi llewys ac yn ymladd amdano. Dyna pam y cred fy mhlaid y byddai disodli fformiwla Barnett a derbyn fformiwla ar sail anghenion yn dod â gwariant cyhoeddus ychwanegol i Gymru. Fodd bynnag, byddai methu ag ymdrechu i wneud gwelliannau sylweddol i fywyd economaidd a chymdeithasol Cymru gan ddefnyddio’r adnoddau sydd ar gael inni yn awr yn bradychu dyheadau gwleidyddol Cymru a’r bobl a’n hetholwyd.

Yr wyf yn falch o’r strategaeth bartneriaeth hon, ‘Cymru ar ei Hennill’, gan ei bod yn

of the policy developments that were originally flagged up in the partnership agreement, including new support for enterprise, greater emphasis on growth sectors and clusters such as the social economy, renewables, tourism and agri-groups. It includes a commitment to promoting innovation across industrial sectors, and enhanced business and academic collaboration. It places an emphasis on community development and empowerment, ensuring that improved competitiveness and inclusion go hand in hand. The strategy includes a commitment to regenerating the rural economy, including Farming Connect. I am pleased that we have the new enterprise support scheme, which rolls out a single menu of support finance for Welsh companies, making and creating a new business environment for all parts of Wales, which puts us ahead of anywhere else in the United Kingdom. That is the development that we must take forward. The regional targets are clearly stated in the Objective 1, 2 and 3 programmes. We can offer better regional state aid in west Wales and the Valleys now than 97 per cent of the rest of the UK. We must be confident. Our Welsh Development Agency is the envy of much of the UK and Europe. We already have £15 billion at our disposal to help transform the Welsh economy. That is why it is time to start believing in ourselves and make the best of what we have with confidence.

**Dafydd Wigley:** Fy mhryder i yw mai datganiad o ddyhead yw hwn. Mae'n glodwiw ein bod yn amcanu at 135,000 o swyddi newydd, ond ffigur ar bapur yw hwnnw, ac nid yw'n werth dim oni bai bod cynllun pwrrpasol i droi'r ffigur hwnnw yn realiti. Os ydym am lwyddo, mae'n hanfodol cydweithio fel tîm mewn partneriaeth go iawn. Fel y dywedodd Phil Williams, sefydlu'r bartneriaeth yn 1987 oedd sail llwyddiant Iwerddon.

Ofnaf dros y misoedd diwethaf ein bod wedi gwneud niwed mawr i'r bartneriaeth rhwng busnes, yr undebau llafur a'r Llywodraeth yng Nghymru. Mae busnes fwyfwy o'r farn nad yw'r Llywodraeth yng Nghymru yn cymryd unrhyw sylw ohono. Yr wyf wedi

cynnwys cymaint o'r datblygiadau polisi a gyflwynwyd yn wreiddiol yn y cytundeb partneriaeth, gan gynnwys cefnogaeth newydd i fenter, mwy o bwyslais ar sectorau a chlystyrau twf fel yr economi gymdeithasol, deunyddiau adnewyddadwy, twristiaeth a grwpiau amaeth. Mae'n cynnwys ymrwymiad i hyrwyddo arloesedd ar draws sectorau diwydiannol, a chydweithredu gwell rhwng y sector busnes a'r byd academaidd. Mae'n rhoi pwyslais ar ddatblygu a rhoi grym i gymunedau, gan sicrhau bod gwell cystadleugarwch a chynhwysedd yn mynd law yn llaw. Mae'r strategaeth yn cynnwys ymrwymiad i adfywio'r economi wledig, gan gynnwys Cyswllt Ffermio. Yr wyf yn falch fod y cynllun cymorth menter newydd gennym, sy'n cyflwyno un ddewislen o arian cymorth i gwmniau Cymru, gan wneud a chreu amgylchedd busnes newydd ar gyfer pob rhan o Gymru, sy'n ein rhoi ar y blaen i unrhyw ran arall o'r Deyrnas Unedig. Dyna'r datblygiad y mae'n rhaid inni weithredu arno. Nodir y targedau rhanbarthol yn glir yn rhaglenni Amcan 1, 2 a 3. Erbyn hyn, gallwn gynnig gwell cymorth gwladol rhanbarthol yng ngorllewin Cymru a'r Cymoedd na 97 y cant o weddill y DU. Rhaid inni fod yn hyderus. Mae llawer o'r DU ac Ewrop yn genfigennus o Awdurdod Datblygu Cymru. Eisoes mae gennym £15 biliwn i'n helpu i drawsnewid economi Cymru. Dyna pam ei bod yn bryd inni ddechrau credu yn ein hunain a gwneud y gorau o'r hyn sydd gennym â hyder.

**Dafydd Wigley:** My concern is that this is a statement of aspiration. It is commendable that we are aiming for 135,000 new jobs, but this is a figure on paper and it is worthless unless there is a tailor-made plan to turn that figure into reality. If we are to succeed, it is essential that we work as a team and in true partnership. As Phil Williams said, the success in Ireland was based on the establishment of its 1987 partnership.

I fear that, over the past months, we have done great harm to the partnership between business, the trade unions and the Government in Wales. Business is increasingly of the opinion that the Government in Wales takes no notice of it. I

gweld yn y Pwyllgor Datblygu Economaidd sut y mae'r Llywodraeth yn diystyru dymuniad unfrydol y Pwyllgor i sefydlu bwrdd polisi economaidd i Gymru. Os mai i'r graddau hynny y mae'r Llywodraeth yn gwrando, ni fydd yn llwyddo i greu'r unoliaeth angenheidol.

Os ydym am gyrraedd y nod, rhaid cael targedu daearyddol manylach yn oherwydd bod perygl y bydd y swyddi i gyd ar hyd corridor yr M4. Mae'n bwysig targedu sectorau er mwyn sicrhau bod y sgiliau angenheidol yn cael eu darparu yn y lle iawn. Rhaid hefyd targedu'r cwmnïau y ceisiwn gydweithredu â hwy.

O'r 144,000 busnes yng Nghymru, nid yw 100,000 yn cyflogi unrhyw weithwyr. Mae'r potensial mwyaf ar gyfer tyfiant ymhliith y 15,000 busnes sydd yn awr yn cyflogi rhwng pump a 250 o weithwyr. Dyna gyfanswm o ryw 270,000 o weithwyr. Amcangyfrifodd yr Athro Dylan Jones-Evans, o Brifysgol Cymru, Bangor, y gellid creu rhyw 27,000 o swyddi newydd yn y grŵp hwnnw o gwmnïau dros gyfnod o dair blynedd, os y targedwn yn gywir ac y darparwn bobl i weithio'n agos gyda'r cwmnïau i facsimeiddio'r tyfiant possibl. Nid oes gair am hynny yn y strategaeth.

Mae angen adnoddau ariannol i gyrraedd y nod, ond nid oes arian ychwanegol i'w gael yn y strategaeth. Mae'n gamarweiniol i ddweud bod yr arian ar gyfer Amcan 1 yn ddigon i dalu'r arian cyfatebol. Nid yw'n ddigon i dalu'r anghenion am ganiatâd gwario ar arian Ewrop yn unig. Heb yr adnoddau, ni chaiff hyn ei wireddu.

Mae angen y celfi i ddylanwadu ar fusnesau i ddatblygu a buddsoddi yn y lleoedd iawn. Addawodd Llywodraeth y glymblaid y byddai'n gweithio i gael pecyn o amrywiadau ariannol i helpu cyflawni hynny. Mae cyrff megis Ffederasiwn Busnesau Bach wedi galw am y fath becyn. Ar wahân i'r hawl i amrywio treth stamp, sy'n effeithio mwy ar brisiau tai nag ar greu gwaith, nid oes unrhyw arwydd bod y Llywodraeth wedi llwyddo i argyhoeddi'r Trysorlys am bwysigrwydd y mater hwn.

Nid cynllun yw hwn ond rhestr ddyheadau.

have seen in the Economic Development Committee how the Government disregards the Committee's unanimous wish to establish an economic policy board for Wales. If that is the extent to which the Government listens, then it cannot create that necessary unity.

If we want to meet the objective, we must have more detailed geographical targeting because there is a danger that the jobs will all be along the M4 corridor. It is important to target sectors to ensure that the necessary skills are provided in the right place. We must also target the companies with which we are trying to co-operate.

Of the 144,000 businesses in Wales, 100,000 do not employ any staff. The greatest potential for growth is among the 15,000 businesses that currently employ between five and 250 workers. That is a total of about 270,000 workers. Professor Dylan Jones-Evans of the University of Wales, Bangor has estimated that around 27,000 new jobs could be created in that group of companies over a period of three years, if we target effectively and provide people to work closely with the companies to maximise the potential growth. No mention is made of that in the strategy.

We need financial resources to hit that target, but the strategy provides no additional money. It is misleading to say that money provided for Objective 1 is sufficient to cover match funding. It is not enough to meet the needs of expenditure on European money alone. Without the resources, this will not be realised.

We need the tools to enable us to influence businesses to develop and invest in the right places. The coalition Government has promised to work towards a package of fiscal variations to achieve that. Bodies such as the Federation of Small Businesses have called for such a package. Apart from the right to vary stamp duty, which affects house prices more than job creation, there is no sign that the Government has managed to convince the Treasury of the importance of this issue.

This is not a plan but a wish list. The wishes

Dyheadau digon clodwiw, ond nid oes sicrwydd y byddwn yn llwyddo i'w cael. Mae fel rhestr plentyn at Siôn Corn. Ofnaf y byddwn yn disgwyl yn hir i'r Nadolig economaidd gyrraedd pobl Cymru.

**Ron Davies:** I agree with Alun Cairns that the process over the last two and a half years has hardly been satisfactory, I am sorry. What we have before us is a document that does not fulfil the aspirations that we had when we started on the process. We were looking for something more inspirational than we have now.

Having said that, there is much to be welcomed in the revised strategy. We have a commitment to financial services, a desire to test programmes for sustainability, and recognition that our unique geographical and physical assets make a substantial contribution to the economic success of Wales.

There are a range of good initiatives such as Finance Wales, 'Cymru Ar-lein—Online for a Better Wales' and the economic research advisory panel. They are all welcomed and are essential, but I am not sure that this plan is coherent or credible.

In previous debates, I have expressed my concern at the over-ambitious targets—principally for our gross domestic product. The target of Wales achieving 90 per cent of the UK average GDP by 2010 is a remnant of the old national economic development strategy document. It is no more achievable now than it was then. It is not a lack of ambition for Wales that makes me question that target, but a determination to see that we have a credible strategy that does not mislead people with false promises. Mark Lee, a Hollywood scriptwriter, once stated that

'ambition without knowledge is like a boat on dry land'.

We need to set targets based on the available knowledge. The hard knowledge that we have at present does not suggest that the

are commendable, but there is no certainty that we will succeed in achieving them. It is like a child's list to Father Christmas. I am afraid that the people of Wales will be waiting some time before they celebrate the economic Christmas.

**Ron Davies:** Cytunaf ag Alun Cairns na fu'r broses dros y ddwy flynedd a hanner diwethaf yn fodhaol, mae'n ddrwg gennyd. Yr hyn sydd gennym o'n blaen yw dogfen nad yw'n cyflawni'r dyheadau a oedd gennym pan ddechreusom ar y broses. Yr oeddem yn edrych am rywbeth mwy ysbrydoledig na'r hyn sydd gennym ar hyn o bryd.

Ar ôl dweud hynny, mae llawer i'w groesawu yn y strategaeth ddiwygiedig. Mae gennym ymrwymiad i wasanaethau ariannol, dymuniad i brofi rhagleni ar gyfer cynaliadwyedd, a chydubyddiaeth bod ein hasedion daearyddol a ffisegol unigryw yn gwneud cyfraniad sylweddol i lwyddiant economaidd Cymru.

Mae ystod o fentrau da fel Cyllid Cymru, 'Cymru Ar-lein—Online for a Better Wales' a'r panel ymgynghorol ar ymchwil economaidd. Croesewir y rhain i gyd ac maent yn hanfodol, ond nid wyf yn siŵr bod y cynllun hwn yn gydlynol nac yn gredadwy.

Mewn dadleuon blaenorol, mynegais fy mhryder ynglŷn â thargedau goruchelgeisiol—yn bennaf ar gyfer ein cynyrrch mewnwladol crynswth. Mae'r targed i Gymru, sef cyflawni 90 y cant o CMC o gyfartaledd y DU erbyn 2010, yn rhywbeth sydd wedi goroesi o'r hen ddogfen strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Nid yw'n fwy cyflawnadwy yn awr nag yr oedd bryd hynny. Nid diffyg uchelgais i Gymru yw'r hyn sy'n gwneud imi gwestiynu'r targed hwnnw, ond penderfyniad i weld bod gennym strategaeth yn awr sy'n gredadwy ac nad yw'n camarwain pobl gydag addewidion ffug. Dywedodd Mark Lee, scriptiwr o Hollywood, unwaith fod

Mae angen inni osod targedau sy'n seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael. Nid yw'r wybodaeth bendant sydd gennym ar hyn o

targets are realistic or achievable.

**Alun Cairns:** Will you give way?

**Ron Davies:** I will make this point and then give way to you. In its latest economic report, the Welsh economy research unit at Cardiff University has revised its forecasted change in GDP for 2001 downwards by almost 1 per cent from this time last year. Its prediction for the next two years indicates that the gap between us and the rest of the UK will widen. It was reported in Monday's *South Wales Echo* that Assembly officials conceded a week ago that we have missed the GDP target for 2000. That is not a promising start.

Last month, Robert Huggins and Associates compiled a report showing Wales at the bottom of its table of UK regional competitiveness, marking a 1.04 per cent drop from last year. Even the Assembly's principal source of economic forecasting, Cambridge Econometrics, predicts that the highest annual increase in GDP over the next four years will be no more than 2.8 per cent. That is the knowledge on which we must operate.

Last week, in his pre-budget statement, the Chancellor of the Exchequer forecast that the UK economy will grow by 2.25 per cent per annum. If that growth is maintained, to reach our targets for 2010, the Welsh economy will have to out-perform that of the UK overall, growing by almost 4 per cent each year, every year for over a decade. That has not been achieved during the whole of the last century. We have a modest collection of supply-side measures. However, there is nothing in this strategy in terms of policy or resources that will allow us to achieve anything like that objective.

11:35 a.m.

**Alun Cairns:** Given the tight timescale, I am grateful to you for giving way. Your comments, particularly about the targets and the lack of strategy, are pretty damning. Can I assume that you will vote against the motion,

bryd yn awgrymu bod y targedau yn realistig nac yn gyflawnadwy.

**Alun Cairns:** A ildiwrch?

**Ron Davies:** Gwnaf y pwynt hwn ac yna fe ildiaf i chi. Yn ei hadroddiad economaidd diwethaf, diwygiodd uned ymchwil economaidd Cymru ym Mhrifysgol Caerdydd y newid yr oedd yn ei ragweld mewn CMC ar gyfer 2001 tuag at i lawr bron 1 y cant o'i gymharu â'r adeg hon y llynedd. Mae'n rhagweld y bydd y gagendor rhyngom ni a gweddill y DU dros y ddwy flynedd nesaf yn lledu. Cofnodwyd yn y *South Wales Echo* ddydd Llun bod swyddogion y Cynulliad wythnos yn ôl wedi cyfaddef inni fethu'r targed CMC ar gyfer 2000. Nid yw hynny'n gychwyn addawol.

Fis diwethaf, lluniodd Robert Huggins and Associates adroddiad yn dangos bod Cymru ar waelod ei dabl o ran cystadleugarwch rhanbarthol y DU, sef gostyngiad o 1.04 y cant ers y llynedd. Mae hyd yn oed prif ffynhonnell y Cynulliad o ragolygon economaidd, Cambridge Econometrics, yn rhagweld na fydd y cynnydd blynyddol mwyaf mewn CMC dros y pedair blynedd nesaf yn fwy na 2.8 y cant. Dyna'r wybodaeth y mae'n rhaid inni weithredu arni.

Wythnos diwethaf, yn ei ddatganiad cyn y gyllideb, rhagwelodd Canghellor y Trysorlys y bydd economi'r DU yn tyfu 2.25 y cant y flwyddyn. Er mwyn cynnal y twf hwnnw, a chyrraedd ein targedau ar gyfer 2010, bydd yn rhaid i economi Cymru gyflawni'n well na'r DU yn gyffredinol, gan dyfu bron 4 y cant bob blwyddyn, a phob blwyddyn am fwy na degawd. Ni chyflawnwyd hynny yn ystod y ganrif ddiwethaf ar ei hyd. Mae gennym gasgliad cyffredin o fesurau ar yr ochr gyflenwi. Fodd bynnag, nid oes dim yn y strategaeth hon o ran polisi neu adnoddau a fydd yn caniatáu inni gyflawni unrhyw beth tebyg i'r amcan hwnnw.

**Alun Cairns:** O gofio'r amserlen dynn, yr wyf yn ddiolchgar ichi am ildio. Mae eich sylwadau, yn benodol ynglŷn â'r targedau a'r diffyg strategaeth, yn eithaf damniol. A allaf gymryd yn ganiataol y byddwch yn

or will your party loyalty override your economic credentials?

**Ron Davies:** I hope that I will have injury time for that intervention, Deputy Presiding Officer. I say to Alun that it is Christmas, it is the season of goodwill and at such a time, most people will do anything for some peace and quiet. Your question reminds me of Father Christmas. Most of us think that the idea of Father Christmas is pretty good, and though we do not take it seriously or really believe in it, we do not want to tell the children in case we upset them. My view of the national economic development strategy document is like Father Christmas in that respect. [Laughter]

Based on current information, it is likely that the gap between Wales and the rest of the UK will widen rather than diminish. We should be developing an economic and political strategy that recognises that. We need a strategy that includes the reform of the public expenditure financing system in Wales, which reflects our country's real economic and social needs, not merely our percentage share of the UK population. We do not have a document that is sufficiently radical, innovative or provides distinctively Welsh ideas and programmes. Much of what we are doing is following the same themes and strategies being adopted in other regions with similar economic problems, such as Yorkshire, Humberside, north-east England and the west Midlands. Following that same strategy will make it more difficult for us to achieve the central objective of closing the gap between the rest of the UK and ourselves. We do not have the programme that we need. What we have is a report, and a strategy that is interesting and well motivated but not adequate for the task in hand.

**Glyn Davies:** I note the final delivery of the national economic development strategy, albeit after a much extended and much troubled gestation period. As may be widely thought, it is a rather ugly baby, but at least it is here and there is no doubt who the father is. This is Rhodri Morgan's economic

pleidleisio yn erbyn y cynnig, neu a fydd teyrngarwch at eich plaid yn diystyr u eich cymwysterau economaidd?

**Ron Davies:** Gobeithiaf y caf amser ychwanegol ar gyfer yr ymyriad hwnnw, Ddirprwy Lywydd. Dywedaf wrth Alun mai'r Nadolig ydyw, tymor ewyllys da, ac ar adeg felly, gwna'r rhan fwyaf o bobl unrhyw beth i gael ychydig heddwch a llonydd. Mae eich cwestiwn yn fy atgoffa o Siôn Corn. I'r rhan fwyaf ohonom mae Siôn Corn yn syniad eithaf da, ac er na chymerwn ef o ddifrif neu er na chredwn ynddo mewn gwirionedd, nid ydym am ddweud wrth y plant rhag ofn y siomwn hwy. Mae fy marn ar y ddogfen strategaeth datblygu economaidd genedlaethol yn debyg i Siôn Corn yn hynny o beth. [Chwerthin]

Yn seiliedig ar wybodaeth gyfredol, mae'n debygol y bydd y gagendor rhwng Cymru a gweddill y DU yn lledu yn hytrach na lleihau. Dylem fod yn datblygu strategaeth economaidd a gwleidyddol sy'n cydnabod hynny. Mae angen strategaeth arnom sy'n cynnwys diwygio'r system ariannu gwariant cyhoeddus yng Nghymru, sy'n adlewyrchu anghenion economaidd a chymdeithasol gwirioneddol ein gwlad, nid ein cyfran ganrannol o boblogaeth y DU yn unig. Nid oes gennym ddogfen sy'n ddigon radical, arloesol nac un sy'n darparu syniadau a rhagleni sy'n benodol Gymreig. Mae llawer o'r hyn a wnawn yn dilyn yr un themâu a strategaethau a fabwysiedir mewn rhanbarthau eraill â phroblemau economaidd tebyg, fel Swydd Efrog, Humberside, gogledd ddwyrain Lloegr a gorllewin Canolbarth Lloegr. Bydd dilyn yr un strategaeth yn ei gwneud yn anos inni gyflawni'r amcan canolog o gau'r gagendor rhwng gweddill y DU a ni ein hunain. Nid oes gennym y rhaglen sydd ei hangen arnom. Yr hyn sydd gennym yw adroddiad, a strategaeth sy'n ddiddorol a brwd frydig ond sy'n annigonol ar gyfer y dasg o'n blaenau.

**Glyn Davies:** Nodaf gyflwyniad terfynol y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol, er y bu cyfnod datblygu estynedig a blinderus iawn. Fel y credir yn gyffredinol, mae'n fabi hyll braidd, ond o leiaf mae yma ac nid oes unrhyw amheuaeth pwy yw'r tad. Dyma strategaeth datblygu

development strategy. Some members of the Economic Development Committee are unhappy that their advice has been ignored. I have read of one Member—possibly two—who was so upset that he or she is thinking of retiring from the whole nasty business of politics. However, in a way, I am rather pleased. I am pleased that the economic development strategy does not have the Committee's endorsement. This is, therefore, Rhodri Morgan's strategy. It is something against which to measure this man of so many parts.

There is a serious problem with this strategy. Never let it be said that I am not in favour of ambitious targets. The Conservatives' target is to win enough seats in the 2003 election to form the next Government of Wales, or indeed, 'Government of the Welsh Assembly' as the First Minister said today. In future we must read 'GoWA'. Therefore 'GoWA' slower with Labour will be our campaign slogan. Many of you will think that our target is overambitious, but it is not nearly as ambitious as the targets for GDP per capita in this national economic development strategy document.

**Gareth Jones:** A ydych hefyd yn dweud eich bod yn credu yn Siôn Corn? [*Chwerthin*]

**Glyn Davies:** Ydwyt, yr wyf yn credu yn Siôn Corn.

There is as much chance of achieving the targets as there is of the First Minister voting for Alun Cairns in the Assembly Member of the year competition. This is the fundamental flaw with the national economic development strategy, the whole basis of the document is incredible. In part, this is because the targets assume that the Welsh economy will perform on a scale equivalent to the gold rush, but more so because there are no significant additional resources in the document to achieve that.

Last week, I was much taken by a speech delivered by Brian Gibbons. He spoke with his customary elegance, which us Conservatives are beginning to enjoy hearing from our seats. Brian is developing into one of the great Irish chunterers of modern politics. He put generous spin on the

economaidd Rhodri Morgan. Mae rhai aelodau o'r Pwyllgor Datblygu Economaidd yn anfodlon i'w cyngor gael ei anwybyddu. Darllenais am un Aelod—dau o bosibl—a oedd wedi cynhyrfu cymaint fel ei fod ef neu hi yn ystyried ymddeol o fusnes ffiaidd gwleidyddiaeth. Fodd bynnag, mewn ffordd, yr wyf yn eithaf balch. Yr wyf yn falch nad yw'r Pwyllgor wedi cymeradwyo'r strategaeth datblygu economaidd. Felly, strategaeth Rhodri Morgan yw hon. Mae'n rhywbeth y gellir mesur y dyn amryddawn hwn yn ei erbyn.

Mae problem ddifrifol gyda'r strategaeth hon. Peidied byth â dweud nad wyf o blaid targedau uchelgeisiol. Targed y Ceidwadwyr yw ennill digon o seddau yn etholiad 2003 i ffurfio Llywodraeth nesaf Cymru, neu yn wir 'Llywodraeth Cynulliad Cymru' fel y dywedodd Prif Weinidog Cymru heddiw. Yn y dyfodol rhaid inni ddarllen 'GoWA'. Felly 'GoWA slower with Labour' fydd slogan ein hymgyrch. Bydd llawer ohonoch yn credu bod ein targed yn rhy uchelgeisiol, ond nid yw mor uchelgeisiol â'r targedau ar gyfer CMC y pen yn y ddogfen strategaeth datblygu economaidd genedlaethol hon.

**Gareth Jones:** Are you saying that you believe in Father Christmas too? [*Laughter*]

**Glyn Davies:** Yes, I do believe in Father Christmas.

Mae cymaint o gyfle i gyflawni'r targedau ag sydd o gael y Prif Weinidog i bleidleisio dros Alun Cairns yng nghystadleuaeth Aelod Cynulliad y flwyddyn. Dyma'r diffyg sylfaenol yn y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Mae sail gyfan y ddogfen yn anhygoel. Yn rhannol, mae hyn am fod y targedau yn cymryd yn ganiataol y bydd economi Cymru yn cyflawni ar raddfa debyg i'r rhuthr am aur, ond yn fwy felly gan nad oes adnoddau ychwanegol sylweddol yn y ddogfen i gyflawni hynny.

Yr wythnos diwethaf, fe'm plesiwyd gan arraith a draddodwyd gan Brian Gibbons. Siaradodd gyda'i wychder arferol, yr ydym ni y Ceidwadwyr yn dechrau mwynhau ei glywed o'n seddau. Mae Brian yn datblygu i fod yn un o'r grwgnachwyr mawr Gwyddelig mewn gwleidyddiaeth fodern. Rhoddodd sbin

economic achievement of Labour, and claimed economic advance here in absolute terms, rather than the comparative terms underpinning the national economic development strategy document. I question the validity of Brian's claims, but I agree with his shrewd diagnosis that there is nothing in the national economic development strategy to justify the incredible GDP targets. The First Minister would do well to listen to his doctor.

Many elements of the strategy may be sensible, but with these GDP targets included, the whole document lacks integrity. It is a boat on dry land.

I am also concerned about the economic future of rural Wales, on which the First Minister touched. When the Development Board for Rural Wales was abolished, I was deeply depressed because of my personal involvement. I remember the first time I walked past its building in the Royal Welsh Show ground and saw it plastered with WDA posters. I felt such bitterness. The reason I was depressed was my belief that there would no longer be a champion for rural Wales, and so it has turned out.

There is no body to give rural Wales the real advantage that it needs. I am particularly worried about Powys. There is potential for that area to be squeezed. To the east, are the accessible Midlands, and to the west, is the Objective 1 area, supported by our new programme. Only last week, the Minister for Culture, Sport and the Welsh Language told the Culture Committee that there are no extra costs in providing sports facilities in rural areas. When somebody says something so daft, it is not possible to reason with them. It was not even a civil service prompt.

I am not asking for regional targets, which in my view would make the national strategy too inflexible. However, I am asking the Economic Development Minister to accept that rural Wales needs special help. The part of Wales that I have spent most of my adult life trying to make a little more economically

hael ar gyflawniad economaidd Llafur, a honnodd ddatblygiadau economaidd yma mewn termau absoliwt, yn hytrach na'r termau cymharol sy'n ategu dogfen strategaeth datblygu economaidd genedlaethol. Cwestiynaf ddilysrwydd honiadau Brian, ond cytunaf â'i ddiagnosis craff nad oes unrhyw beth yn y strategaeth datblygu economaidd genedlaethol i gyfiawnhau'r targedau CMC anhygoel. Byddai'n dda pe bai Prif Weinidog Cymru yn gwrando ar ei feddyg.

Efallai bod sawl elfen o'r strategaeth yn synhwyrol, ond drwy gynnwys y targedau CMC hyn, mae diffyg integredd i'r ddogfen gyfan. Cwch ar dir sych ydyw.

Pryderaf hefyd ynglŷn â dyfodol economaidd Cymru wledig, y soniodd Prif Weinidog Cymru amdano. Pan ddiddymwyd Bwrdd Datblygu Cymru Wledig, yr oeddwn yn isel iawn fy ysbryd oherwydd fy ymrwymiad personol. Cofiaf y tro cyntaf imi gerdded heibio ei adeilad ar faes Sioe Frenhinol Cymru a gweld y waliau'n blastr o bosteri WDA. Teimlais y fath chwerwder. Y rheswm dros deimlo'n isel oedd fy nghred na fyddai rhywun bellach ar gael i bledio achos Cymru wledig, ac felly y bu.

Nid oes unrhyw gorff i roi'r fantais wirioneddol sydd ei hangen ar Gymru wledig. Pryderaf yn benodol am Bowys. Mae'n bosibl i'r ardal honno gael ei gwasgu. I'r dwyraint, mae Canolbarth Lloegr sy'n hawdd ei gyrraedd, ac i'r gorllewin, mae ardal Amcan 1, wedi ei chefnogi gan ein rhaglen newydd. Dim ond yr wythnos diwethaf, dywedodd y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg wrth y Pwyllgor Diwylliant nad oes costau ychwanegol wrth ddarparu cyfleusterau chwaraeon mewn ardaloedd gwledig. Pan ddywed rhywun rywbeth mor wirion, nid yw'n bosibl rhesymu â hwy. Nid oedd hyd yn oed yn awgrym gan y gwasanaeth sifil.

Nid wyf yn gofyn am dargedau rhanbarthol a fyddai, yn fy marn i, yn gwneud y strategaeth genedlaethol yn rhy anhyblyg. Fodd bynnag, gofynnaf i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd dderbyn bod angen cymorth arbennig ar Gymru wledig. Mae'r rhan o Gymru yr wyf wedi treulio y rhan fwyaf o'm

